Y DRYSORFA.

Rhif. 716.] MEHEFIN, 1890. [Llyfr LX.

RHODIASOM I DY DDUW YNGHYD.

ADGOFION AM Y DIWEDDAR BARCH. DAVID DAVIES, ABERMAW.

Gan y Parch. R. H. MORGAN, M.A., Menai Bridge.

Mae mwy na thair blynedd wedi myned heibio bellach er pan gladdwyd y diweddar Barchedig David Davies, o'r Abermaw, ac nid oes, hyd a welais, un cofnodiad coffadwriaethol am dano wedi ymddangos yn y Drysorfa. Ni cheisiaf, yn y llinellau dilynol, roddi hanes ei fywyd, ond fy amcan ydyw cyfleu ger bron y darllenydd fy adgofion personol am dano, a thynu darlun o hono fel y gwelwn ac yr adnabyddwn ef yn ystod deuddeng mlynedd olaf ei oes—darlun o Mr. Davies fel yr oedd, neu fel yr ymddangosai i un a fu yn cydfyw âg ef am hir amser, a'i gwelodd mewn llawer amgylchiad a thymher, a dderbyniodd lawer iawn o wir garedigrwydd oddiar ei law ymhob cylch, ac un sydd yn teimlo chwithdod a hiraeth wrth feddwl na cheir eto weled ei wynebpryd na mwynhau ei gymdeithas ar y ddaear.

Fy nghof cyntaf am Mr. Davies, o Benmachno y pryd hyny, ydyw ei wrando yn pregethu y noswaith olaf mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Nghwmnancol, cymydogaeth wrth droed y Moelfre, uwchlaw Dyffryn Ardudwy—nis gwn ymha flwyddyn. Cynnaliwyd yno gyfarfod pregethu cyn hwnw, hynod o lewyrchus, ar ddechreu haf, rhyw dro yn ystod blaenllanw y diwygiad mawr diweddaf; yn hwnw cafodd y Parch. John Davies, Nerquis, odfa hynod rymus ar y geiriau, "Issachar sydd asyn esgyrnog, yn gorwedd rhwng dau bwn," odfa a fu yn foddion tröedigaeth i liaws o'r gwrandawyr. Yn yr ail gyfarfod trôdd yr hin yn anffafriol erbyn yr hwyr, ac felly yr oedd pregethu, yn ol yr hen ddull, yn ffenestr y capel yn anmhosibl, fel y gwnaethpwyd y boreu a'r prydnawn. Yn y capel pregethai y Parch. Joseph Thomas a rhywun arall; ac yn Hendrewaelod—y ffermdŷ mwyaf gerllaw—llettŷ y fforddolion y pryd hwnw—yr oedd Mr. Davies yn pregethu, a'r bobl yn llenwi yr hen gegin fawr a'r siamber. Safai ar ben cadair, wrth ben y bwrdd, a bord gron o bren ffawydd gwŷn wedi ei gosod ar ben y bwrdd i ddal y Bibl a'r llyfr hymnau. Nid wyf yn cofio dim am y testun na'r bregeth, ond fod y pregethwr yn cael hwylusdod rhyfedd, a'r gynnulleidfa yn mwynhau. Tybiwn na chlywswn erioed y fath bregethwr, yn meddu llais mor anwyl, ac yn gallu ei drin mor fedrus: weithiau esgynai i'r uchelder mewn tôn beraidd, nid bloedd aflafar, ac, wedi parhâu am enyd yn y cywair hwn, nes swyno pawb â'i beroriaeth, disgynai i'r dyfnder a llefarai mewn llais *bass* oedd yn llawn mor effeithiol yn ei ddylanwadau â'r llall. Yr oedd ganddo lais godidog; a phan fyddai anmhariaeth ar hwnw, torai ei galon yn lân a gosodai ei dŷ mewn trefn. Eto camgymeriad dybryd

fyddai i rywun dybied nad oedd ganddo ddim ond llais. Yr oedd yn feddiannol ar feddwl cyflym a chraff iawn mewn rhai cyfeiriadau, synwyr helaeth, arabedd a dawn diball, ysbryd gwresog, a natur danbaid. Credai yr hyn a gredid ganddo â'i holl galon. Parai y nodweddion hyn iddo fod yn bregethwr ar ei ben ei hun, yn un a wnaeth gymaint o ddaioni yn ei gylch ag odid neb, a fu yn hynod lwyddiannus, yn neilldnol ddeg ar hugain a deugain mlynedd yn ol, yn nyddiau yr hen ddiwygiadau. Cyrhaeddai efe ddosbarth y mae llawer pregethwr yn eu colli—sef y gweision a'r morwynion, yn enwedig mewn ardaloedd amaethyddol. Swynai hwy i'w wrando â'i hyfryd lais, ac â'i ddawn dihafal pwŷai y gwirionedd hyd adref i'w meddyliau. Achubwyd cannoedd, mae'n sicr, trwy ei weinidogaeth yn ngwahanol siroedd Cymru. Pregethai y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu bob amser, ac yr oedd i'r "gwaed a redodd ar y groes" le amlwg yn ei weinidogaeth.

Teimlai yn dra eiddigeddus dros ei lais a'i floeddio. Yr wyf yn cofio cael prawf diymwad a lled ddigrif o hyny. Mewn rhydd-ymddyddan âg ef, darfu i mi rywdro, yn hollol ddifeddwl, ac heb un bwriad i'w glwyfo, adrodd y pennill hwn :—

Ti roddaist i mi udgorn mawr,
Wel d'od dy gymhorth i mi 'n awr;
Canys ar fy ffordd i'r Amen,
'R wy 'n meddwl bloeddio nerth fy mhen.

"Ië," medd yntau, mewn tôn ddifäol o sychlyd, "rhyw un digon diras wnaeth y pennill yna. Gwaeddi fyddaf fi yn clywed pawb yn ei wneyd os gallant. Chwi floeddiech chwithau pe buasai genych chwi lais."

Nis gwn ond ychydig iawn o hanes teulu na dyddiau mebyd Mr. Davies. Brodor oedd o Benmachno, a chlywais ef yn dywedyd lawer gwaith, fod rhyw hen berson wedi ei fedyddio, ond na ddarfu iddo ei aileni, a'i fod wedi priodi chwech ar unwaith, ac mai dyna y tro callaf a wnaeth erioed. Nis gallesid bod yn hir yn ei gwmni heb iddo son am "Ellen," sef Mrs. Davies, sydd yn awr yn byw yn Nghorwen. Cawsant oes faith gyda'u gilydd, profasant bethau melus a chwerwon; llwyddwyd hwy yn fawr yn eu hamgylchiadau tymmorol, a buont yn hynod ddedwydd yn eu gilydd—"a hwy ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn ol holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd."

Fy syniad fel plentyn am Mr. Davies oedd, ei fod yn ddyn duwiol, ac ni chefais, ar ol adnabyddiaeth agos o hono, achos i newid fy marn. Nid oedd ammheuaeth am ei grefydd. Gallasai efe fenthyca geiriau Paul, "Eithr trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf; a'i ras ef yr hwn a roddwyd i mi ni bu yn ofer." Oni buasai am waith gras, barnai pawb a'i hadwaenai y buasai yn un o'r dynion mwyaf annuwiol. Yr oedd ei natur yn gyfryw fel nas gallai fod yn guddiedig mewn drygioni mwy na daioni. Nid gras prin a dderbyniodd: nid digon i'w gadw yn unig yn y diwedd, ond cafodd grefydd a dalodd ei ffordd yn y byd hwn. Meddai lawer o nodau dyn duwiol iawn. Ceisiai wisgo y dyn newydd yn wastadol. Nid oedd yr Adda cyntaf wedi ei ladd, mae yn wir; gwingai yn enbyd ar adegau; ond eto yr oedd wedi ei groeshoelio. Arferai ddarllen llawer ar ei Fibl bob amser er pan yn fachgen; ac mae yn ddiddadl fod Mr. Davies, er na ddywedodd hyny wrthyf, yn weddïwr mawr yn y dirgel. Wrth edrych yn ol ar y blynyddoedd hyny, nis gallaf ammheu na fu ei weddïau taerion drosom yn foddion i'n gwaredu fel eglwys rhag llawer helynt, ac i roddi i ni lwyddiant a llewyrch ymhell tu hwnt i'n haeddiant.

Magwyd ef yn ffermwr, a bu am flynyddau yn dal y Benar yn Mhen-

machno, ac hefyd yn gweithredu fel goruchwyliwr i'r boneddwr oedd yn perchen yr ystâd. Rhoddodd heibio amaethu a symudodd i Gorwen yn gyntaf, ac yna i'r Abermaw, i gymeryd gofal yr eglwys yno. Bu yn y cysylltiad diweddaf am ddeng mlynedd, hyd 1874, a bu fyw yno wed'yn hyd o fewn pythefnos i'w farwolaeth yn 1887. Yn Mehefin 1875, daethum i'r Abermaw fel bugail, yn fachgen neillduol o *raw*, yn hollol ddibrofiad, ac yn lled ddisyniad am waith y weinidogaeth. Cefais Mr. Davies yn gyfaill ffyddlawn a chywir ar hyd y blynyddoedd. Ni ddiystyrodd fy ieuenctyd, ond bu yn gynnorthwy wrth raid, ac yn gynghorwr caredig ar lawer amgylchiad. Bydd genyf barch dwfn i'w enw, ac y mae ei goffadwriaeth yn anwyl a bendigedig.

Pregethu oedd gwaith mawr ei fywyd. Siarad am bregethu a llyfrau oedd ei ddewis ymddyddan. Cyfansoddai bregethau newyddion yn barhaus—pedair neu bump mewn mis weithiau, er na byddai raid iddo wrth ond un newydd yn ystod yr amser. Ni arferai ysgrifenu y bregeth allan yn gyflawn, ond ysgrifenai amlinelliad manwl o honi, gan nodi y penau a sylw byr neu ddau dan bob pen. Ymhelaethai yntau yn y pulpud ar y sylwadau hyn yn ol fel y byddai yr hwyl. Un o'r pregethau olaf a gyfansoddodd oedd ar y testun, "Codwch ymaith y maen" (Ioan xi. 39). Drychfeddwl y bregeth oedd fod eisieu symud y meini sydd yn gwahanu rhwng yr Iesu byw a'r pechadur marw. Cafodd amryw odfaon hynod ar y testun, a'r bregeth hon ar y maes oedd yr unig un y cafwyd ychydig lewyrch arni yn Nghymdeithasfa Bangor yn 1886, pryd y dyfethwyd odfäon y dydd dilynol gan yr hin wlyb ac ystormus. Cyfansoddodd gannoedd lawer o bregethau. Arferwn ei brofocio weithiau trwy ddyweyd nad oedd ei bregethau newyddion ond yr hen rai wedi eu hail bobi. Gwadai yntau y cyhuddiad yn bendant, a haerai fod y testun a'r rhaniadau yn hollol newydd. Credaf eto, fod fy sylw yn lled wir, ond gwn hefyd ei fod ef yn tybio yn onest mai pregethau cwbl newydd—"newydd spon" ys dywedai—oeddynt. Trwy y llafur diwyd hwn llwyddodd i gadw ei feddwl yn iraidd ac ieuengaidd. Rhyw dro ar ol dyfod i'r Abermaw, pan mewn tymher lled isel a digalon gyda golwg ar ei bregethu, cymerodd ugeiniau o'r hen bregethau a chladdodd hwynt yn yr ardd. Ymhen peth amser ar ol y claddedigaeth daeth un o'i feibion yn nghyfraith yno, ac adroddodd Mr. Davies yr hyn a wnaethai. Gresynai ei ddaw at ei weithred, a bore drannoeth aeth yntau yn lladradaidd i'r ardd i'w hadgyfodi, ond erbyn hyny yr oedd yr hen bregethau wedi dechreu pydru, a bu raid eu dychwelyd i'r pridd. Cofus genyf mor hoff fyddai o redeg atom pan wedi gwneyd pregeth newydd, i fyned drosti ac i'w chanmawl, ac edrychai ar yr achlysuron hyny fel un wedi cael ysglyfaeth lawer.

Meddyliwyf, oddiwrth yr hyn a glywais fy Nhad ac eraill yn ei ddywedyd, fod dau gyfnod wedi bod ar ei bregethu—sef cyfnod pan yr adwaenid ef fel Dafydd Davis, Penmachno, a'r adeg y sonid am dano fel Mr. Davies y Bermo. Yn y cyfnod cyntaf credaf mai llinyn o sylwadau gafaelgar, heb nemawr gais at drefn, oedd ei bregethau; ond yn ddiweddarach, yn enwedig ar ol symud i'r Abermaw, mabwysiadodd y dull o amlhau penau, ac weithiau byddai ganddo gymaint a deg ar hugain o raniadau. Credai efe ei fod yn pregethu yn llawer gwell yn niwedd ei oes nag ar ei dechreu, ond fel arall gan mwyaf y syniai ei hen wrandawyr. Nid oedd dim a'i digiai yn fwy nag awgrymu iddo fod Dafydd Davis, Penmachno, yn well pregethwr na Mr. Davies, Bermo. Yr wyf yn cofio fod dau neu

dri o flaenoriaid newyddion o Drawsfynydd yn cael eu derbyn mewn Cyfarfod Misol, pan yr oedd Mr. Davies yn bresennol, a dywedodd un o honynt mai rhyw air a glywsai lawer o flynyddoedd yn ol gan Dafydd Davis, Penmachno, oedd wedi dal ar ai feddwl. Parodd y sylw gryn chwerthin, a dywedodd y tri blaenor newydd rywbeth yn gyffelyb, gan adrodd gwahanol sylwadau o'i hen bregethau, ac heb gymeryd arnynt ei fod ef yno yn eu clywed. Gwyddwn ar ei wynebpryd nad oedd yn gwerthfawrogi eu sylwadau. Cyn pen hir, yn mis Mai 1886, yn y Cyfarfod Misol a gynnaliwyd yn Nhrawsfynydd, ar agoriad y capel newydd, yr oedd Mr. Davies yn pregethu am 10, ar y testun "Codwch ymaith y maen," ac yn cael hwyl anarferol, a'r blaenoriaid newyddion yn gwrando ac yn mwynhau. Pan yn nghanol ei wres, aeth dros rhyw glawdd neu drwy ryw wrych, ac meddai "Yr ydych yn gofyn paham na phregethwch chwi 'rwan fel stalwm? O, y mae Dafydd Davis y Bermo yn pregethu yn llawer gwell nag y bu Dafydd Davis, Penmachno, erioed. Nid Dafydd Davis sydd wedi newid, ond y chwi. Gwyn fyd na chaem ni rai tebyg i'r hen wrandawyr, gyda'u 'hamen' a'u 'diolch' cynhes, fyddai yn lloni calon y pregethwr a'r gynnulleidfa wrth eu clywed. Yr ydych chwi yn ddigon dystaw yma, ond pe buasai yr hen Sara Dafydd yma, yr wyf yn ei chofio yn dda, buasai yn bloeddio 'amen' a 'diolch' nes buasai ei llais hi yn diaspedain o'r Greigddu i Flaen y Cwm, ac o Caeadda i Waelod y plwyf." Yna aeth ymlaen gyda'r un nerth ac arddeliad amlwg hyd derfyn y bregeth. Ar y diwedd dywedodd wrthyf yn y pulpud, "Yr oedd arnaf fi eisieu talu y pwyth i'r blaenoriaid ifanc yma; fum i ddim yn rhy drwm arnynt, ai do?"

Llafuriai Mr. Davies yn barhaus. Prynai lawer o lyfrau newyddion i gadw ei feddwl yn fyw. Arferai sylwi "nad oes fawr o bregethwr os na bydd yn prynu ac yn darllen ambell lyfr newydd." Ni chafodd fanteision addysg pan yn ieuanc. Cynnygiodd boneddwr yn y gymydogaeth ei anfon i Rydychen os äi yn offeiriad, ac addawai fywioliaeth hefyd; ond yr oedd ganddo ormod o grefydd i hyny, a chlywais ef yn tystio lawer gwaith na bu erioed yn edifar ganddo wrthod y cynnyg ar y telerau. Llwyddodd i ennill meistrolaeth led helaeth ar yr iaith Saesoneg, fel ag i'w defnyddio yn rhwydd i ddarllen y prif awduron duwinyddol. Nid meddwl efrydydd oedd ganddo, felly ni ddeuai cymaint o ffrwyth ei ddarllen i'r golwg yn ei bregethau, ond yr oedd yn ddarllenwr dyfal. Hoffai lyfrau hanesiol yn neilldnol, yn enwedig rhai yn cynnwys hanes teithiau a rhyfeddodau natur, ac hir gofir ambell gymhariaeth darawiadol yn ei bregethau wedi ei lloffa yn y meusydd hyn.

Yn ystod y blynyddoedd diweddaf yr oedd ganddo ardd uchel tu cefn i'r tŷ a grisiau yn arwain iddi. Yma adeiladodd dŷ coed bychan iddo ei hun. Ryw noswaith wlawog disgynodd careg fawr o'r graig uwch ben a dinystriodd y caban, a bu Mr. Davies yn edrych am ddyddiau yn debyg i Jonah ar ol gwywo ei gicaion. Yn fuan adeiladwyd caban arall mewn llanerch gysgodol a heulog. Cynnwysai y tŷ fainc a chadair neu ddwy, a desg uchel, yn yr hon yr oedd Bibl bras, *Mynegair* Peter Williams, a rhyw lyfr arall. Yma y treuliai oriau lawer yn y Gwanwyn a'r Haf a'r Hydref, yn darllen, myfyrio, ysgrifenu pregethau, ac yn gwylio tyfiant y llysiau a blagur coed yr ardd. Cawn groesaw mawr ganddo yn y caban, a llawer awr ddyddan a dreuliasom ynghyd. Heblaw myned dros ei bregethau, a bwrw golwg dros yr achos, ymollyngai i ymddyddan rhydd am bobl a pheth-

au. Meddai ddawn arbenig i ddarlunio cymeriadau yn hynod fyw. "Am J——" meddai unwaith, "mae o yn dân i gyd, ond tân shavins yw ei dân o hefyd; ond am P——, gwyliwch rhagddo, tân powdwr ydi ei dân o." "Beth yw y gwahaniaeth rhyngddynt, Mr. Davies?" meddwn innau. "O, tân shavins, fyddwch chwi damaid gwaeth o hono, ond mae tân powdwr yn duo y croen am byth." Yr oedd ei ddychymyg yn fywiog iawn. Clywais ef yn dywedyd, "Mi fedraf fi ddesgrifio pethau yn well nag y medraf wneyd dim arall. Mi fyddaf yn gweled peth o'm mlaen, ac ni fydd byth ball am air i'w ddarlunio." Weithiau nis gallai ymattal rhag rhoi *touch* o'r digrifol yn y darluniad. Diau fod hyn yn brofedigaeth gref i ddynion dawnus sydd â llawer o *humour* yn eu natur. Mae rhai darnau o *Daith y Pererin* yn llawn o hono, yn meilldruol yn yr ail ran. Anaml y mae Mr. Spurgeon, ac yn enwedig Mr. McNeil, yn arbed "pêl deg." Felly Mr. Davies. Byddai y difrif a'r digrif yn gymysgedig yn ddigon mynych. Yr wyf yn ei gofio yn dda yn Abergynolwyn yn desgrifio melin a rhyw olwyn wedi dyrysu ynddi, a hithau yn dinystrio ei hunan. "Mae yr olwyn ddwfr fawr yn chwirlio myn'd, a'r meini malu yn tori yn yfflon, a'r cocos *(cogs)* yn ffleio ymhob cyfeiriad, pob peth yn myned yn ysgyrion mân gan nerth y peiriant, nes yr oedd yn berygl bywyd, a'r hen felinydd wedi myn'd i wardio yn y cafnau blawd." Rhyw dro aeth i eglwys i wrando offeiriad a ystyrid yn bregethwr gwych. "Yr oeddwn yn ei weled," meddai Mr. Davies, "fel iâr yn y dwfr, ni wnaiff foddi ac ni fedr nofio, ond y mae yn ysgwyd ei hadenydd nes cyrhaedd y lân ryw-fodd." Nid buan yr anghofir ei araeth Ddirwestol, yn yr hon y darluniai y cythreuliaid yn y moch,—y gwahanol rywogaethau o gythreuliaid, y meddw, a'r aflan, a'r mud, &c., wedi meddiannu y moch a'u gyru "ar râs wyllt dan wichian yn bendramwnwgl i'r môr." Yna desgrifiai hwynt yn boddi, y cythreuliaid eisieu i'r moch droi yn eu hol i'r lân, a'r moch wedi rhisio yn mynu myned ymhellach i'r dwfn!!

Teimlai Mr. Davies yn ddigon rhyddfrydig tuag at enwadau eraill. Er yn Fethodist zelog, nid oedd yn gul ei farn am neb o'i frodyr. Ond, meddyliwyf ei fod yn caru llai ar y Bedyddwyr na neb arall. Dichon mai adgofion am hen ddadleuon chwerw y dyddiau gynt oedd yr achos o hyn. Syniai yn uchel iawn am rai gweinidogion gyda'r Bedyddwyr, a darllenodd lawer ar eu pregethau, ond nis gallai ddygymod â'r trochi o gwbl. Wrth fedyddio weithiau llithrai i wneyd sylwadau miniog ar ddull bedydd, ac i roddi darluniau cartrefol a bywiog o ddygwyddiadau a gymerasant le o bryd i bryd wrth drochi pobl. Ar un o'r adegau hyn dywedai, "Sêl yw bedydd. Yr wyf yn cofio 'stalwm y byddai y cyfreithwyr yn defnyddio sêl gŵyr fawr fel pisyn coron ar weithredoedd, ond erbyn hyn mae sêl fach, ddim mwy na chwe' cheiniog, yn gwneyd y tro. Sêl yr Arglwydd ar ei bobl ydyw bedydd; ac ni chlywais i am yr un cyfreithiwr erioed yn cymeryd gweithred ac yn ei throchi dros ei phen mewn cwyr. Nôd ydyw bedydd. Diwrnod mawr fyddai diwrnod nodi y defaid yn Mhenmachno. Byddai holl blant yr ardal yn casglu ynghyd. Yr oedd yno wahanol fathau o nodau hefyd, nôd coch a nôd du, nôd clust, nôd cynffon, nôd gwlan. Nôd ydyw bedydd, ac ni chlywais i am neb erioed yn cymeryd dafad ac yn ei throchi dros ei phen yn y nôd coch."

Clywais ef yn darlunio rhyw un fwy nag unwaith,—"Mae o yn ddawn fel tecell yn berwi, ond ni fedd o fwy o grefydd na cheffyl coits." Yr oedd y

darn cyntaf yn hollol wir am dano yntau. Yr ydoedd yn ddoniol. Nid wyf yn dysgwyl clywed dim mwy ffraeth ac effeithiol, yn ei ddull ei hun, na'i araeth o blaid y *medals* ar adeg canmlwyddiant yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru. Gwrthwynebai rhai pobl y syniad o gael *medals* am mai teganau oeddynt, ac y buasai yn well treulio yr arian ar ryw bethau mwy sylweddol. "Ië, teganau ydynt," meddai Mr. Davies, "a rhaid i bobl gael teganau, a pha degan mwy prydferth a ellwch chwi ei gael, na'r bathodyn a llun Mr. Charles ar un ochr ac adnod ar y llall? Mi fyddaf fi yn gweled teganau gan bobol yn eu tai, a rheini yn llawer salach na *medals* y canmlwyddiant. Yr oeddwn i mewn tŷ yn Ffestiniog yn ddiweddar, ac ni welsoch chwi erioed fath beth â'r tristwch oedd yno. Beth oedd yn bod? Cwpbwrdd oedd wedi syrthio, yn llawn o deganau, a dyna lle yr oeddynt yn ddarnau ar hyd y llawr. Pob math o anifeiliaid; yn gŵn ac yn gathod, yn llewod ac yn eliphantiaid, yn wartheg a cheffylau, yn eirth a llwynogod, yn hwyaid ac yn ieir, pob creadur am a wn i ag oedd yn arch Noah, ac un creadur nad oedd o ddim yn yr arch, a *dolphin* oedd hwnw." Nid oes anghen ychwanegu nad agorodd neb ei enau yn y Cyfarfod Misol yn erbyn y *medals* ar ol araeth Mr. Davies. Ysgubodd ymaith bob gwrthwynebiad. Credaf mai un o'r pethau mwyaf hyawdl a glywais erioed oedd darn o'i bregeth ar "Yr esgyrn sychion" noswaith olaf y Gymdeithasfa ar y maes yn Llanrwst yn 1884. Yr oedd y gwynt yn chwythu yn union i'w wyneb, ac yn cipio ei lais gan beri iddo grygu. O'i amgylch yr oedd yr hwyliau a orchuddient y *stage* yn clecian. Rhwyfai yntau ymlaen yn boenus am tua hanner awr, ond caletach, galetach oedd hi bob cynnyg. Tosturiai pawb wrtho. Ond ar hyny, appeliodd at y gynnulleidfa i weddïo drosto am iddo gael ychydig dawelwch gan y gwynt, a theimlo nerth y gwynt nefol. Gyda'r gair dystawodd y storm am enyd, goleuodd ar ei feddwl, ysgafnhaodd yr awyrgylch, ac nid wyf yn ei gofio yn cael odfa fwy rhwydd nag a gafodd oddiyno i'r diwedd. Yr oedd ei ddesgrifiad o'r esgyrn sychion yn codi ar eu traed yn dyrfa fawr iawn yn wir hyawdl. Nodwedd arbenig ynddo oedd tynerwch ei gydwybod mewn perthynas i'r pulpud. Wrth son am yr odfa, a chaledwch y darn cyntaf, dywedai wrthyf, "Mi bechais i cyn dechreu trwy ymdrechu gyda Dr. Saunders am gael myned o'i flaen. Dyna y rheswm ei bod mor galed arnaf. Ni wnaf byth mo hyny eto gyda neb."

Nid oedd yn llawn mor hapus yn y Cyfarfod Eglwysig pan elai i'r llawr i ofyn gair o brofiad, ond yr oedd yn ddiguro wrth siarad o'r sêt fawr. Efe a arferai agor a chloi bron bob seiat. Meddai ddawn neillduol i gynghori i'r pwrpas. Tarawai yr hoelen hyd adref. Mewn geiriau eglur a gweddus, traethai ar bynciau o ddysgyblaeth, nes peri fod pawb yn deall ei gyfeiriadau ac yn cydnabod awdurdod a nerth ei gynghor. Peth digon trymaidd yw diarddel a cheryddu yn yr eglwys; ond darfu i Mr. Davies lawer gwaith, trwy ei siarad hallt yn erbyn pechod a'i dynerwch tuag at y troseddwr, roddi tôn newydd i'r cyfarfod, iachâu yr awyrgylch, a gwneyd i ni deimlo fod prydferthwch sancteiddrwydd yn beth mor ogoneddus fel yr oedd yn werth tori ambell aelod er mwyn ei gyrhaedd. Nid yn fuan y cyfanir y bwlch yma a achoswyd trwy ei farwolaeth. Hwyrach nad oedd i Mr. Davies ragoriaeth mawr fel cynghorwr mewn amgylchiadau dyrys, gartref nac oddicartref. Ond wedi penderfynu achos, os byddai ei gydwybod yn cydweled â'r penderfyniad, codai i sicrhau yr hoelion, a gwnai hyny mewn dull a fyddai yn setlo y

pwnc yn meddyliau y gwrandawyr. Yn Nghymdeithasfa Bangor yn 1886, y cyfeiriwyd ati eisoes, daeth achos lled boenus ger bron. Bu cryn siarad arno, ac o'r diwedd daethpwyd i benderfyniad a deimlai Mr. Davies oedd yn hollol briodol. Yna, er na roddasai un help i benderfynu yr achos, cododd ar ei draed a thraddododd anerchiad byr a chynhes ac effeithiol yn cadarnhau y penderfyniad, ac yn ddiddadl ei anerchiad amserol ef oedd coron y cyfarfod hwnw. Yr oedd yn ysgrythyrwr mor dda, a'i ddawn mor barod a chartrefol, ond nid yn erwin fel rheol, fel nas gallesid meddwl am neb mwy cymhwys i gyflawni gorchwylion o'r fath. Yr oedd yn ategwr dan gamp, ac yn gynnorthwywr heb ei ail.

Fel yn y rhan fwyaf o gapeli, arferai rhywrai yn barhaus yn yr Abermaw eistedd mor agos i'r drws ag oedd bosibl yn y cyfarfodydd wythnosol. Nid oedd na chynghor na chais, erfyniad na rhybudd, yn tycio dim. Wrth y drws y mynent eistedd. Bu Mr. Davies ac eraill yn ymosod arnynt lawer gwaith, ond ni waeth heb. Un noswaith dyma hi allan: "Yr wyf fi," meddai, "yn edrych ar y seti pell yna, wrth y drws, fel Studwals (St. Tudwal's Roads—lle y try llawer o longau am gysgod wrth hwylio i fewn ac allan o Borthmadog). 'Does yno yr un porthladd yn Studwals, dim i'w gael ond cysgod rhag y gwynt, ac ni fydd neb yn aros yno yn hir. A'r lle nesaf i Studwals ydyw Hell's Mouth—genau uffern. Felly chwithau sydd yn llechu yn y seti pell yna; mae arnaf ofn mai troi i fewn am gysgod dros ychydig yr ydych. Gwyliwch; Hell's Mouth yw y lle nesaf atoch chwi." Clywais fod yr araeth hon wedi ei thraddodi ar ol hyny, gydag ychydig gyfnewidiadau, yn y Cyfarfod Misol, a chofir am dani yn hir.

Perthynai neillduolrwydd nodedig i Mr. Davies fel gweddïwr cyhoeddus. Nid oedd bob amser mor hapus ar amgylchiadau penodol, oblegid mae'n debyg na byddai yn teimlo yn hollol rydd, neu y byddai yn ymwybodol o rywfaint o ymdrech i weddïo yn dda. Yr oedd ganddo ddwy arddull. Un pan na byddai awel, ychwanegai yntau nerth llais ac egni corfforol, a bloeddiai yn helaeth; a'r llall pan elai ar ei union i'r nefoedd gyda'r frawddeg gyntaf, ac yr arosai yno hyd ddiwedd y weddi. Nis gallaf ddesgrifio y gweddïau hyn a glywais gannoedd o weithiau ganddo. Byddai ei lais yn fwyn, a hynod felus, y geiriau yn dyferu fel diliau mel; adnodau wedi eu cymhlethu â'i ymadroddion yn y dull mwyaf meistrolgar a swynol: gafaelai mewn rhyw addewid a dadleuai hi, "gan ymaflyd yn fy nerth." Oddiwrth ei weddïau yn enwedig, yr oedd yn amlwg fod y geiriau hyny yn wir am dano:—

"A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod
Mewn dwyfol farwol glwy'."

Yr wyf yn ei gofio yn chwareu ar y geiriau—"O enau plant bychain a rhai yn sugno y perffeithiaist foliant," wrth ddechreu un o gyfarfodydd Cymanfa Ysgolion, lle yr oedd llawr y capel yn llawn o blant; nes oedd y dagrau yn dysgleirio yn llygaid pawb.

Gwir ofalai am lwyddiant yr achos. Er yn hen mewn dyddiau, parhaodd yn ieuanc ac iraidd ei deimlad, ac yr oedd yn cydfyned yn galonog â holl symudiadau y Cyfundeb. Ni feddai yr Achosion Seisonig un cyfaill mwy ffyddlawn. Nid oedd dim a lawenhai fwy arno na chlywed pregethwr ieuanc ac osgo pregethwr da arno. Rhoddai bob cefnogaeth i'r cyfryw, a chynghorai hwynt i geisio bod yn bregethwyr i'w hamserau; ei fod ef yn myned yn hen ffasiwn, ac nad oedd yn cyfarfod anghen y wlad yn awr.

Dydd Mercher, Ion. 19, 1887, gadawodd Mr. Davies yr Abermaw i fyw yn Penrhyndeudraeth; dydd Sadwrn, y 29ain o'r un mis, yr oedd yn gweddïo

yn effeithiol iawn yn nghladdedigaeth Miss Jones, Tymawr, Towyn; ac ymhen pythefnos i'r dydd (Chwef. 12) safai llawer o'r un rhai ar lan ei fedd yntau yn y Penrhyn. Ni chafodd ond prin osod ei lyfrau mewn trefn, cyn i'r alwad dd'od am iddo fyned i mewn i wledd y briodas. Dydd Mercher, Chwef. 9fed, gwasanaethai mewn angladd bychan yn y Penrhyn, aeth efe a Mrs. Davies i Brithwernydd i dê, ac ar y ffordd i'r tŷ tarawyd ef gan ddyrnod angeu, a thorodd y llinyn arian a'r cawg aur ar un ergyd. Cafodd gyrhaedd y tŷ a gorwedd ar y soffa, a dywedyd ychydig eiriau, cyn iddo lithro ymaith mewn tawelwch, a chael mynediad helaeth i mewn i deyrnas ei Arglwydd a garai mor fawr, ac y dywedodd gymaint ac mor dda am dano wrth filoedd Cymru.

Felly bu farw gwas yr Arglwydd, fel y bu fyw. Yn ystod ei fywyd, ni allai neb brophwydo pa beth a wnai neu a ddywedai nesaf: cipid ef yma ac acw gan yr awelon a'r ysbrydion. Yn fynych bu llawer yn chwilio am dano ar y ffordd rhwng Jerusalem a Gaza, ond efe "a gaed yn Azotus." Ei wendid oedd ei anwadalwch, ond yr oedd y natur *mercurial*, y cyflymdra meddwl hwn a'i gwnai yn agored i newid a throi yn amlach nag y buasai yn ddymunol, yn fanteisiol iawn iddo wrth bregethu, yn rhoddi nerth mawr yn ei eiriau. Troi *ar* ac nid *oddiar* y llwybr y byddai efe, ac fel blodau yr ardd, sydd yn gorfod plygu yn nghyfeiriad pob awel, ond yn troi at yr haul can gynted ag yr ymddengys, felly yr oedd crefydd drwyadl Mr. Davies yn cywiro pob gwall, ac yn ei ddychwelyd yn fuan fuan mewn dwfn edifeirwch at y gwirionedd, pan ddygwyddai trwy ryw anffawd wyro oddiwrtho mewn barn, neu ddywedyd gair rhy ffraeth i glwyfo ei gyfeillion. Un o feib Natur oedd efe. Ni wnaeth ac nis gallai diwylliant wella llawer arno. Doniwyd ef â ffraethineb, a hyawdledd, a llais godidog. Ni adawodd i'w dalent rydu. Derbyniodd rodd a chyfranodd hi i eraill, fel daionus oruchwyliwr amryw ras Duw. Bu ffyddlawn yn ei ddydd "yn ol y gras a roddwyd iddo." Prin hwyrach y gwelir ei gyffelyb eto yn Nghymru, ond byth na ddelo y dydd pan na byddo gan y Methodistiaid lawer o bregethwyr yn perthyn i'w ddosbarth—dosbarth Ioan Fedyddiwr—pregethwyr i gyffroi, i ddeffro, ac i argyhoeddi. Yn awr mae yn cysgu yn drwm ar ol llafur bywyd—"ei hûn mor felus yw!"—a dedwydd fore fydd dydd y deffro iddo ef.

MEICHNIAETH CRIST.

Gan y Parch. David Roberts, *Rhiwbryfdir, Ffestiniog.*

Meichniydd ydyw un yn ymgymeryd â chyflawni yn lle arall yr hyn sydd anghenrheidiol er ei ryddhau. Gellir rhanu y gwahanol olygiadau ar natur, dybenion a gwrthddrychau marwolaeth Crist i dri math—y rhai Socinaidd, y rhai Arminaidd, a'r rhai Calfinaidd.

Pa wahaniaeth barn bynag sydd ymhlith Sociniaid gyda golwg ar ddyoddefaint Crist, cydunant i ddyweyd mai dyoddef er mwyn eraill yn unig a wnaeth. Dywed yr Arminiaid mwyaf uniongred ei fod yn dyoddef yn lle eraill yn gystal ag er eu mwyn, a bod ei ddyoddefaint o natur cosb, ond dirprwyol ydoedd y gosb yn gystal a'r dyoddefydd; hyny yw, cosb ag y gwelodd Duw yn dda fod yn foddlawn iddi yn lle y gosb a ofynai y gyfraith. Dywed y Calfiniaid fod y gosbedigaeth yn gyfwerth â'r hyn a ofynai y gyfraith gan y rhai y meichniwyd drostynt; hyny yw, yn ateb yn llawn yr un dybenion, ac mai y dyoddefydd yn unig sydd yn ddirprwyol.

Gwelir fod y Sociniaid yn gwadu Meichniaeth Crist, tra y mae yr Arminiaid mwyaf uniongred yn ei haddef, ond nid yn yr un ystyr a'r Calfiniaid.

Bwriadwn gyfyngu ein hunain yn yr anerchiad hwn i'r golygiadau a goleddir gan yr Arminiaid mwyaf uniongred a chan y Calfiniaid; yn gymaint a bod yr oll sydd i'w ddyweyd yn erbyn y golygiad a goleddir gan y

cyfryw Arminiaid i'w ddyweyd hefyd am bob golygiad oddiyno i waered hyd at y Sociniaid. Er mwyn byrder, galwn ef y golygiad Arminaidd, er yr ystyr ir ef erbyn hyn gan lïaws o Arminiaid yn rhy agos i Galfiniaeth i fod yn deilwng o'i arddel ganddynt. Dewiswn hwn am mai dyma y nesaf at y golygiad Calfinaidd, ac am y byddwn wrth ei wrthbrofi yn gwneyd yr un peth a phob golygiad gwrthwyneb i'r un Calfinaidd.

I. Y mae y golygiad Arminaidd ar Feichniaeth Crist yn tueddu i ddymchwelyd Cristionogaeth. Y mae yr ysgrythyr yn ffafrio golygiad yr Arminiaid ar wrthddrychau marwolaeth Crist yn fwy na'r eiddynt ar natur a dybenion ei farwolaeth. Dywed yr ysgrythyr, pa fodd bynag y deallir hyny, fod Iesu Grist wedi marw dros bawb; ond ni ddywed yn unlle mai gwneyd iachawdwriaeth dyn yn bosibl ydoedd amcan pellaf marwolaeth Crist; hyny yw, nas bwriadwyd hi i ddiogelu cadwedigaeth neb. Yn hytrach, dywed yn eglur mai amcan Crist yn dyfod i'r byd ydoedd "cadw," "achub," "gwaredu," "iachâu," &c., ymadroddion nas gall unrhyw esboniadaeth ddifrifol eu gwneyd yn gyfystyr â dwyn i fod bosiblrwydd cadwedigaeth. O herwydd hyny cychwynant gyda gwrthddrychau marwolaeth Crist, ac ymlwybrant oddiyno at ei natur a'i dybenion. Dywedant i ddechreu fod Crist wedi marw dros bawb yn yr un ystyr. Yn gyson â hyny dywedant na ddyoddefodd gosbedigaeth gyfwerth â'r hyn oedd i ddyfod yn ol y ddeddf i ran holl ddynolryw; hyny yw, cosbedigaeth yn ateb yn llawn yr un dybenion a phe buasai gosbi holl ddynolryw hyd eithaf y gyfraith. Oblegid, meddant drachefn, pe dyoddefasai Crist y fath gosbedigaeth dros holl ddynolryw buasai raid eu cadw oll; ac ni buasai modd cosbi neb heb i Dduw gosbi ddwywaith hyd yr eithaf yr un troseddau, yr hyn fuasai yn anghyfiawn. Ond, meddant eto, i gloi yr ymresymiad, y ffaith ydyw nad ydyw pawb yn cael eu cadw, ac am hyny nis gall fod Crist wedi dyoddef y fath gosbedigaeth yn eu lie. Ymddengys yr ymresymiad yn anwrthwynebol ar y dybiaeth fod Crist wedi marw dros bawb yn yr un ystyr. Addefa yr Arminiaid y buasai Iawn cyfwerth yn diogelu cadwedigaeth ei wrthddrychau trwy ei wadu; a dywed y Calfiniaid yr un peth trwy eu cysylltu â'u gilydd. Nid oes gan yr Arminiaid un ffordd i ddal yn gyson eu golygiad ar wrthddrychau marwolaeth Crist, ond trwy wadu Iawn neu gosbedigaeth gyfwerth. Ond er hyny dywedant iddo ddyoddef cosbedigaeth. Pa fath gosbedigaeth? Cosbedigaeth ddirprwyol yw yr ateb. Yn awr, os cosbedigaeth ddirprwyol, cosbedigaeth ydoedd a allasai fod yn fwy, neu yn llai, neu beidio a bod o gwbl, fel y buasai Duw yn ewyllysio. Os cosbedigaeth felly ydoedd, beth oedd yn galw am i'r dyoddefydd fod yn Berson Dwyfol? Os nad ydoedd anghen am y fath ddyoddefydd, yn ddiau ni ddarparwyd ef; a chroes i reswm ydyw meddwl fod Iesu Grist yn Fab Duw yn y fath ystyr ag i fod yn Berson Dwyfol. Os nad ydyw yn Fab Duw yn y fath ystyr a hyny, ac yntau yn hòni bod felly, nid ydyw yn ddyn perffaith, ïe, nis gall fod yn ddyn da. Bellach pa le y mae ein Cristionogaeth?

II. Y mae y golygiad Arminaidd ar Feichniaeth Crist yn tueddu i ddymchwelyd Moesoldeb.

Os Iawn cyffredinol, Iawn yn gwneyd yr un peth gyda golwg ar bawb, Iawn hefyd nad ydyw yn diogelu dim gyda golwg ar neb. Nid ydyw yn diogelu cymaint â moddion gras. Os nad ydyw yn diogelu dim i neb y meichniwyd drostynt, nid ydyw yn haeddu dim ar ran neb, yr hyn sydd yn cynnwys nad ydyw yn haeddu o gwbl, yn gymaint ag mai ufudd-dod yn lle eraill ydyw. Os nad ydyw y fath ufudd-dod gan y fath un yn haeddu dim, ymha le y gall haeddiant fod? Os nad oes haeddiant yn bod mewn unrhyw weithred dda, pwy bynag a'i cyflawno, nis gall fod drwg haeddiant mewn unrhyw weithred ddrwg; ac os nad oes drwg haeddiant mewn unrhyw weithred ddrwg, pa wahaniaeth sydd rhwng drwg a da? Felly y mae y golygiad Arminaidd ar Feichniaeth Crist yn arwain i syniadau isel am y gwahaniaeth sydd rhwng drwg a da, ac yn tueddu i ddymchwelyd moesoldeb.

III. Y mae y golygiad Calfinaidd ar Feichniaeth Crist yn arwain i syniadau uchel am Berson Crist.

Os yw yr Iawn yn dwyn perthynas neillduol â chyfran o ddynolryw, y mae yn gwneyd rhywbeth mwy i'w wrthddrychau na gwneyd eu hiachawdwriaeth yn bosibl, ïe, hyd yn nod na gwneyd eu hiachawdwriaeth yn debyg. Oblegid dywed yr Arminiaid ei fod wedi gwneyd felly â phob dyn; ac nid oes dim ar ffordd Calfiniaid i ddyweyd yr un peth. Gallant ddyweyd fod Iawn Crist wedi diogelu iachawdwriaeth i bwy bynag a gredo; ac nis gall yr Arminiaid ddyweyd mwy, na chymaint, oblegid nis gallant hwy ddyweyd fod iachawdwriaeth neb yn ddiogel tra yn y fuchedd bresennol. Felly cytuna yr Arminiaid a'r Calfiniaid i ddyweyd fod Iawn Crist wedi gwneyd cadwedigaeth pob dyn yn bosibl; ïe, mor debyg, fel y mae yn syndod fod neb yn golledig. Pwy na ddywed ei bod yn rhyfedd fod un oes wedi myned heibio heb i'r byd i gyd gofleidio yr efengyl? Yn awr, beth yn ychwaneg na hyn oedd i'w wneyd â neb, ond gwneyd eu hiachawdwriaeth yn sicr? Y mae y mwy na thebyg yn sicr. Nis gallwn ddychymygu am ddim rhwng y tebyg a'r sicr. Nid oedd unrhyw ffordd i Iawn wneyd iachawdwriaeth dyn yn sicr, ond trwy roddi cymaint boddlonrwydd i gyfiawnder, cymaint o anrhydedd i'r ddeddf, a chymaint o ogoniant i Dduw, fel nas gallesid gofyn mwy. I wneyd hyn rhaid oedd cael Person Dwyfol. Y mae yn amlwg oddiwrth hyn fod yr athrawiaeth Galfinaidd am Feichnïaeth Crist yn gwneyd yr athrawiaeth am ei Dduwdod yn anghenrheidiol; a thra bydd yr athrawiaeth am Dduwdod Crist yn ddiogel, y mae ein Cristionogaeth felly hefyd.

IV. Y mae y golygiad Calfinaidd am Feichnïaeth Crist yn arwain i syniadau cryfion am y gwahaniaeth sydd rhwng drwg a da.

Os yw yr Iawn yn diogelu cadwedigaeth ei wrthddrychau, fel y mae os oes perthynas neillduol rhyngddo â nifer o ddynolryw, y mae rhywbeth ynddo sydd yn galw am hyny. Pa beth a all hwnw fod ond haeddiant? Os yw ufudd-dod yn haeddu gwobr, y mae anufudd-dod yn haeddu cosb, ac y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng drwg a da. Ond gellir gwrthddadleu a dyweyd nad ydyw yr haeddiant sydd yn ufudd-dod Crist yn profi fod haeddiant mewn gweithredoedd da pan yn cael eu cyflawni gan greadur yn unig. Addefwn nad oes haeddiant mewn gweithredoedd da anmherffaith. Addefwn hefyd nad oes haeddiant mewn gweithredoedd perffaith dda pan yn cael eu cyflawni gan un sydd yn gymeradwy mewn arall yn unig. Ond nis gallwn weled na buasai haeddiant yn ngweithredoedd da un fuasai ynddo ei hun yn gymeradwy, oblegid eglur yw mai anghyfiawnder a fuasai ei gosbi. Buasai yn ddiau yn haeddu ffafr Duw cyhyd ag y buasai yn ufudd, ïe, hyd yn nod heb gyfammod.

Gwelwn oddiwrth hyn oll fod y golygiad Calfinaidd yn diogelu ein Cristionogaeth a'n moesoldeb, tra y mae yr un Arminaidd yn eu gollwng i golli. Ar yr un pryd, dylem gydnabod fod gwahaniaeth rhwng dynion a'u golygiadau, ac hefyd rhwng eu golygiadau a'u canlyniadau cyfreithlawn, a bod yn eithaf posibl i rai yn caru Cristionogaeth a moesoldeb ddal golygiadau sydd yn tueddu i ddymchwelyd y naill a'r llall.

V. Y mae syniadau uchel am Berson Crist yn arwain i'r golygiad Calfinaidd ar Feichnïaeth Crist. Os bu i'r Hwn oedd yn ffurf Duw waghau ei hun o bobpeth y gallasai, a bod yn Dduw drachefn; cymeryd arno agwedd gwas, ei wneyd mewn cyffelybiaeth dynion, a'i gael mewn dull fel dyn ddarostwng ei Hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes—nid yn unig angeu poenus, nid yn unig angeu gwaradwyddus, ond angeu dan felldith—yn ddiau fe sicrhawyd rhywbeth mawr. Buasai yn gwmwl byth ar gariad, cyfiawnder, ffyddlondeb, doethineb a gallu Duw, ordeinio i'r fath beth gymeryd lle heb ganlyniadau sicr a gogoneddus gyda golwg ar y rhai y gwnaethpwyd y fath betn drostynt, ac er eu mwyn.

> "Ni chollwyd gwaed y groes
> Erioed am ddim i'r llawr;
> 'Ddyoddefwyd angeu loes
> Heb ryw ddybenion mawr."

Onid yw hyn yn eglur ynddo ei hun?

VI. Y mae syniadau cryfion am y gwahaniaeth sydd rhwng drwg a da yn arwain i'r golygiad Calfinaidd ar Feichnïaeth Crist. Os yw gweithred ddrwg yn drwghaeddu, y mae yn rhaid cael haeddiant yn rhywle gyferbyn âg

ef cyn y gall Duw fyned heibio iddo. Os yw yr haeddiant hwnw wedi ei gael yn Nghrist, y mae yn rhaid iddo gael ei ffordd. Os yw wedi haeddu y cyfryw bethau, rhaid maddeu a sancteiddio yn y byd hwn, ac adgyfodi a gogoneddu yn y dydd a ddaw.

"Rhaid i'r Iesu 'n helaeth gael
Y mae 'n haeddu,
Gwel'd o ffrwyth ei lafur hael
A'i ddiwallu."

Onid ydyw pob cydwybod oleuedig yn dywedyd Amen?

Gwelwn bellach mor bwysig ydyw dal ein gafael yn dyn yn yr holl wirionedd, oblegid y mae colli rhan o hono yn ein gosod mewn perygl o golli yr oll o hono. Gwelwn hefyd mor anghenrheidiol yw y cysylltiad sydd rhwng y naill wirionedd a'r llall, ac mor anhawdd yw addef un heb addef eraill, a gwadu un heb wadu y cwbl!

MYFYRDODAU AR BENNILLION.

GAN AMRYW.

"Lle cawn i wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn."

Gan y Parch. J. T. Alun Jones, *Bala.*

Cawn y diweddar Gwilym Hiraethog yn dyfynu y geiriau uchod, gan mor dlysed ydynt ac mor goeth yr iaith i'w olwg, yn un o'i ysgrifau ar Emynau a Chaniadau William Williams, yn y *Traethodydd*, Ebrill, 1847. Dyfyna:—

"Iesu, difyrwch f' enaid drud,
Yw edrych ar dy wedd,
Ac mae llyth'renau d' enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.

"A than dy aden dawel, bur,
'R wyf yn dymuno byw,
Heb ymbleseru fyth mewn dim
Ond cariad at fy Nuw."

Ac yna, fel pe perthynai i'r un emyn, ac yn dilyn y llinellau uchod, daw y geiriau hyn i mewn:—

"Dymunwn yma dreulio 'm hoes,
O foreu hyd brydnawn,
Lle cawn i wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn."

Mae eu lle ("cyflead" fuasai'n air mwy ac fe allai gwell) yn yr emyn uchod yn ymddangos yn hynod brydferth. Eithr mae cryn ammheuaeth ai dyma eu lle priodol. Ymddengys yn sicr fod rhywun yn yr amgylchiad hwn hefyd wedi cymeryd rhyddid i newid yn ol mympwy ar waith y Pêr Ganiedydd. Ond mympwy hapus ydoedd y tro hwn. Fel y sylwyd, mae eu lle yn ol y dyfyniad uchod yn brydferth iawn. Craffwn enyd arnynt.

"Dymunwn *yma* dreulio 'm hoes"
—"*Yma*"—"*dan dy aden dawel, bur.*"

Par yr ymadrodd "treulio'm hoes," ac yn neillduol yr un dilynol, "O foreu hyd brydnawn," i ni gasglu fod yr awdwr eto yn ieuanc neu yn gymharol ieuanc pan gyfansoddai y llinellau hyn. Yr un modd, mewn golwg ar ddiwedd oes, cawn yr Emynydd o'r un meddwl, a gwelwn y mynai ei awen wisgo'r meddwl hwnw yn yr un hen ddiwyg:—

"Wel, minnau bellach wnaf fy nyth
O dan ei aden dawel byth,
Ac mi adawaf is y ne'
Bob peth yn anghof ond Efe.

"Cymeraf fy nifyrwch mwy
Fyfyrio ar ei ddwyfol glwy';"

Ac yna—a phwy na wêl yr hen ŵr â'i wyneb dwys myfyriol, ac na feddyliai glywed tôn ac oslef henaint yn nhoriad y llais?—meddai:—

"Mi dreuliaf ddiwedd byr fy oes
Ar ben Calfaria, dan y groes."

Yn y boreu, y prydnawn, yn mrig yr hwyr a'r nos, mae ymguddfa ddiddig, ddyogel, dawel o dan yr aden bur. Pa ryfedd felly os tŷr yr Emynydd allan—"Yma *dymunwn dreulio'm hoes.*"

Cyn myned ymlaen dodwn i lawr sylwadau G. Hiraethog ar y llinellau ddyfynwyd genym. Prin mae eisieu un esgusawd dros wneuthur hyny. Mae'r pennillion eu hunain yn meddu y fath swyn, ac mae geiriau Dr. William Rees yn ddyddorol a'r un pryd yn nodweddiadol, gallem feddwl, o hono ef. "Mor seml," meddai, "a diaddurn yw yr iaith yn y pennillion uchod; ac ar yr un pryd mor ddiwair a choeth ydyw! Mor fwyn-doddedig yw y syniadau, ac mor brydferth yn eu gwisg ydynt! Cnapiau gwynion o fanna, ac fel had coriander, o liw bdeliwm, a'u blas fel afrllad o fêl, ydynt. Mor bell oddiwrthynt yw pob laws cymhen-goegaidd! 'Wylo cariad pur yn ddagrau melus iawn' sydd anghymharol mewn tlysni a melus-

der." Yna, yn ei ddull digrifol, cyfeiria Hiraethog at y modd "aflerw" ac "oerfarwol" o draddodi pennillion da o'r fath. "Clywsom hwynt," meddai, "yn cael eu handwyo lawer gwaith. Buasai y dull rywbeth yn briodol, pe yn lle, 'Iesu, difyrwch f'enaid drud,' &c., y geiriau canlynol a adroddasid :—

Behemoth, tarw, buwch, a llo,
Y llewpard brych, a brain,
Y ci a'r llwynog cyfrwys, brwnt,
Y chwilod cas, a chwain.

Ond pan eu doder allan gyda thôn ac aceniad priodol, swynant y gynnulleidfa i rywbeth tebyg i ysbryd y synïadau efengylaidd a gynnwysant. Agorant ffynnonau iachawdwriaeth, o'r rhai y dylifa ffrydiau o ddyfroedd bywiol i ddisychedu a diwallu anghenrheidiau a dymuniadau enaid blinedig a llesg. Gosodir allan wrthddrych ag y mae edrych arno yn ddifyrwch i enaid, llythyrenau ei enw yn fywyd iddo—ei 'aden dawel bur' yn gysgod i'w ddiogelu, lle y dedwydda ei hunan drwy 'wylo cariad pur yn ddagrau melus iawn' o 'foreu hyd brydnawn' ei oes." Dyna sylwadau Gwilym Hiraethog. Wedi eu dyfynu, nid oes genym ond un peth y dymunem ddyweyd mewn perthynas iddynt. Hoffem wybod ar ba sail y dyfyna'r pennill—

"Dymunwn yma dreulio 'm hoes
O foreu hyd brydnawn;
Lle cawn i wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn,"

fel y trydydd yn yr emyn sy'n dechreu, "Iesu, difyrwch f' enaid drud." Yn ol y casgliad arferedig genym ni fel Cyfundeb, ac hefyd yr eiddo y diweddar Barch. Roger Edwards, nid felly y dylasai fod, eithr perthyna i'r emyn sydd yn dechreu "O, deffro 'n foreu, f' enaid gwan." Ac yn ol argraffiad 1811 o waith William Williams a gyhoeddwyd gan ei fab, y Parch. John Williams, hyn sydd yn ei le. Mae'n amlwg oddiwrth ei ragymadrodd i'w lyfr yr amcanai John Williams i'r 'oes nesaf' gael yr hymnau 'yn ol y cynysgrifen,' o law eu hawdwr. Fel y canlyn y darllena'r emyn yn ol y casgliad sydd wedi ei ddyddio yn Mhant-y-celyn, Tachwedd 6, 1810.

"O deffro 'n fore, f' enaid gwan
Ar doriad cynta 'r dydd,
A llwyr gysegra ddyddiau d' oes
I'r gwrthddrych goreu sydd.

"Caf yfed yma gariad pur
Na phrofodd cnawd mo 'i ryw,
Ac ymddifyru uwch y byd
Ar bur bleserau 'm Duw.

"Mi flinais yfed dyfroedd sur,
Teganau daear lawr;
Ni fydda' i hapus ond wrth flas
Pleserau 'r nefoedd fawr.

"Uwch cyrhaedd pob serchiadau gwael
Yw 'r cariad pur ei flas,
Ag sydd yn llifo 'n loyw ffrwd
O iechydwriaeth gras.

"Yma dymunwn dreulio 'm hoes
O fore hyd brydnawn;
Lle cawn i wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn."

Yma y *dymunwn* dreulio'm hoes, meddai Williams. Pell iawn ydyw o hòni fod ei ddymuniad yn cael ei wirio yn llawn yn ei fywyd.

Hawdd iawn fuasai dethol llïaws o emynau lleddf cwynfanus a ddangosai yn bur amlwg fel y methai ac fel yr ystyriai ef y methai'n llwyr a d'od i fyny â'i ddrychfeddwl—ei *ideal* ef—o fywyd. Eheda'r dymuniadau i fyny fry; tra'r erys yntau i lawr, yn ymlwybro'n mlaen ar wastad-tir diffaeth llwm.

"O Arglwydd, gwel fi 'n llesg a gwan
Yn ffaelu dringo o'r byd i'r làn,
Am fyn'd yn lew i'r Ganaan lân,
Heb allu symud fawr ymla'n."

Disgyn wna'r ehedydd er codi yn ol ei reddf a chanu, yn ol ei elfen ei gân i'ch swyno yn yr entrych; a disgyn wnaiff yr enaid er hedfan yn uchel yn ngrym ei anian sanctaidd ef.

"It is
The most difficult of tasks to keep
Heights which the soul is competent to
gain."

Ond da cael codi, hyd yn nod yn awr a phryd arall, fel Williams gynt, ymhell uwchlaw y byd a'i ddwndwr, ar edyn ffydd a chariad a dymuniadau pur. Serch na cheir codi'r pebyll ar ben y mynydd, goreu esgyn yno mor aml ag y bydd cyfle. Ammod fawr a phrif rwymyn y gymdeithas aruchel, hyfryd â Christ a'i iachawdwriaeth a chwennychai William Williams ydyw cariad;—"lle cawn i wylo cariad pur yn ddagrau melus iawn." Heb gariad, mwy nag heb ffydd, nid ä neb i mewn i'r gymdeithas hon âg Ef. Mor betrusgar y gwelir y credinwyr,—yn fynych

pobl oreu ein seiadau,—i ddadgan yn groew, fel yr ymddengys y gwnaethai yr Emynydd, eu bod hwy yn caru Crist. Geill fod gwir barchedigaeth a theimlad addoliadol dwfn odditan yr agwedd hwyrfrydig neu'r dystawrwydd hwn.

A chyda llaw, onid oes, mewn amgylchiadau, linellau dymunol i'r hwyrfrydigrwydd a'r *reserve* a welir yn ein mysg o barth i bethau dirgel a dwfn yr ysbryd? Pur sicr y dylai bod profiadau hawdd eu traethu; ac oni weddai, yn arbenig, bod genym brofiadau mwy—yn annhraethadwy?

Dengys Tennyson, yn un lle o'i *In Memoriam*, y rhagor sydd rhwng y profiad hawdd ei draethu a'r un arall dystaw dwfn. Darlunia gartref lle mae'r penteulu newydd farw. Mae'r galar trwy'r tŷ. Gwelir y gweision, dan wylo, yn ymddyddan â'u gilydd am eu colled. "Anhawdd," meddai un wrth un arall, "fydd cael y fath wasanaeth a hwn eto." Tra mae y rhai sydd yn gweini yn y tŷ fel hyn yn cyfarch eu gilydd, eistedda'r plant yn dŵr wrth yr aelwyd, a methant hwy, yn awyr oer angeu, bron a chymeryd eu hanadl atynt. Prin y sibrydir gair rhynggdynt. Symudant yn ddystaw fel drychiolaeth. A chan edrych ar y gader wag, a'u calon yn soddi, *meddylient* am eu tad—'mor dda! mor dirion'—ond mae wedi myned." Yr oedd galar yr amddifaid yn annhraethadwy. "My lighter moods" (tebyg y bydd yn dda gan Gymry mwyaf aeddgar y dyddiau hyn wel'd ambell linell Seisonig dda ar glawr y Drysorfa. Sut y gwna Cymru ei hol ar feddwl Lloegr oni ddysga ei hiaith hi, beth bynag nes bo'r Saeson i gyd wedi dysgu siarad Cymraeg?),—ond myn'd i ddyfynu pedair llinell o'r eiddo Tennyson yr oeddwn i:—

"My lighter moods are like to these
That out of works a comfort win;
But there are other griefs within,
And tears that at their fountain freeze."

Ac y mae "llawenydd annhraethadwy" hefyd. Diau fod gan Williams, Pantycelyn, ei dymherau a'i deimladau nas gallasai byth roddi un mynegiad iddynt. Ond gwyddai ef yn dda —ac ai nid da fyddai cofio eto, pan mae dyweyd profiadau Cristionogol, os nad eu meddu, gyda hen ac ieuanc, bron a myn'd o fri a ffasiwn,—gwyddai Williams lle bynag y byddo profiadau dwysion—dystaw, mud—y bydd yn y fynwes hono rai y carai hi eu traethu yn nghlyw y saint. Fodd bynag, hoffai'r Pêr Ganiedydd fod yn lled agored gyda hyn. Hoffai ddyweyd, ymddengys, gyda Phedr, "Ti a wyddost fy mod yn dy garu di," neu gyda Ioan, "Yr ydym ni yn ei garu Ef am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni." Gwrandewch:—

"Trwy ras 'r wyf, Arglwydd, ger dy fron
Yn rhoi fy nghalon iti;
Ti 'm ceraist i er maint fy mai,
Ni allaf lai na 'th garu.

"Mi haeddais fod yn awr â'm nyth
Yn uffern byth yn poeni;
Wrthyf 'r wyt wedi trugarhâu—
Ni allaf lai na 'th garu.

"Caf ddyfod i'r gogoniant maith,
I ben fy nhaith at Iesu;
Caf fyned at y man lle mae—
Ni allaf lai na 'i garu."

Y fath naturioldeb welir ynglŷn â Williams, Pantycelyn! Ond i fyned rhagom. "Lle cawn i *wylo*," meddai, "cariad pur yn ddagrau melus iawn." A rhaid ydyw i'r credadyn gymdeithasu yn fynych â'i Arglwydd gyda'r dagrau ar ei lygaid, neu ynte ymfoddloni i fyn'd heibio heb gymdeithas âg Ef o gwbl. Lle mae "cariad pur" tuag ato Ef, bydd wylo yn ei wŷdd. Eithr yn ol ei eiriau tarawiadol y mae melusdra odiaeth yn nagrau William Williams.

Nis gwyddom ai o'r ansawdd yma —a oedd rhyw *redeeming quality* o'r fath yma—yn nagrau Pedr gynt. "Chwerw," nid "melus," yw'r ansoddair ynglŷn â'i wylo ef. "A'r Arglwydd a drodd ac a edrychodd ar Pedr;" .... "A Phedr a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw dost." O ran hyny, pe medrasai Pedr droi yn ol i'r tŷ, wedi sychu'r dagrau wrth y drws, a phe meiddiasai rhyw led edrych yn wyneb Iesu Grist, diammheu yr aethai yn foddfa eilwaith yn y fan. Ond os chwerw oedd ei ddagrau ar y pryd am ddrygu a digio Un mor hawddgar a da, yr oedd ynddynt addewid am felusder mawr wed'yn—yn adgof myfyriol Pedr ar ffyddlondeb di-droi-yn-ol ac ymddygiad eang-galon ei Arglwydd tuag ato ef. Pe'n adna-

byddus iddo, gallasai Pedr hefyd ddefnyddio o bryd i bryd eiriau hyfryd Emynydd Cymru, a dyweyd—"Yma dymunwn dreulio'm hoes—lle cawn i wylo cariad pur *yn ddagrau melus* iawn." Ar wahân i ysbrydoliaeth, mae'n bosibl, yr un pryd, bod myfyrdodau cyffredin Williams, a dyweyd y lleiaf, yn llawn mor efengylaidd â'r eiddo Pedr, a bod calon Williams yn llawn mwy seraphaidd nag ydoedd ei galon ef.

Tery yr ymadrodd "dagrau melus" arnom—o bosibl o ddiffyg sylw o'n tu—fel yn hynod ddyeithr ac anghyffredin. Ond dygwyddaf wybod nad ydynt yn eiddo neillduol i'n Pêr Ganiedydd. Ceir yr ymadrodd yn un o ddarnau barddonol Wordsworth. Gan gyfeirio at ei chwaer—ac nid oedd dim harddach yn mywyd Wordsworth na'i gyfeiriadau tyner a pharchus at ei chwaer—fe ddywed iddi hi roi iddo galon oedd yn ffynnon o ddagrau melus—"A heart, the fountain of sweet tears." Ac nid hollol annyddorol i rai o honom ydyw meddwl fod yr ymadrodd ddefnyddiai Williams yn Mhantycelyn, ymhen blynyddoedd wed'yn, wedi disgyn o ysgrifell y bardd breninol Wordsworth tua glanau Windermere. Eithr yn emyn bardd breninol Cymru yr aeth y gair megys i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf.

Wedi'r cwbl, beth a dry ddagrau'r saint yn felus? Beth leinw eu calon â'r fath lawenydd nes y caent hyfrydwch hyd yn nod yn eu dagrau? Ai "cariad pur?" Ond ai digon ydyw i gariad gael cymhorth ffydd a dyfod i wydd eu gwrthddrych mawr er llawenhau â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus? Prin, meddyliem. Byth nis gwelid mo'r dagrau melus ar y llygaid, na chalon dyn yn unman yn llawen iawn, oni bae fod Gobaith, fel angel gwŷn goleuni, trwy'r ddaear a'r nef, yn dilyn cariad. Nid ydyw Williams yn *wylo* mwy. Nis gwn sut y synia y naill a'r llall o honom am ei gariad yn y nef. Syniwn fel y gwelom yn dda; ac eto wiw i ni, mae'n ymddangos, synio am dano fel yn wylo yno. Mae Mrs. Barrett Browning, mewn barddoniaeth o'i heiddo, yn darlunio Victoria, yn ferch ieuanc, yn tori i wylo wrth dderbyn coron Prydain Fawr. Diwedda y farddones ei llinellau gan ddymuno i Victoria gael etifeddu coron anniflanedig yn y nef; a meddai, "Ni wyli ddim i wisgo'r goron nefol." Y mae llawer math o ddagrau ar y ddaear. A oes unrhyw fath o ddagrau yn y nefoedd? A fydd cymhwysiad ar eiriau tarawiadol Williams, "Lle cawn i wylo cariad pur yn ddagrau melus iawn," i'r ystad o fyw sydd yno, tybed? Nis gwyddom. Yr hyn a ddarllenwn ydyw: "A Duw a sych ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt." Ai y "dagrau melus" hefyd? Fodd bynag, rhaid i gariad gael mynegiad a chael ei ffordd. Ac fe ddaw i'r golwg pe na byddai yno nac iaith nac ymadrodd—na dagrau. Beth fydd dyfais cariad wed'yn? Ai gweini yn ddystaw byth a wnai? O ran hyny, maent hwythau, meddai Milton, sydd yn unig yn sefyll gan ddysgwyl wrth ei Air Ef, yn gwasanaethu iddo Ef.

CYNGHOR I FLAENORIAID.

(A draddodwyd yn Nghyfarfod Misol Caernarfon, Rhagfyr 9fed, 1889.)

Gan Mr. RICHARD LLOYD, *Hermon, ger Bethesda.*

MR. CADEIRYDD:—Nis gwn yn iawn pa faint o amser a ganiatewch ar adeg ag y mae cymaint o waith eisieu ei wneyd. Yr oeddwn yn meddwl treulio pum' mynyd i gynghori y gweinidogion a'r pregethwyr, a phum' mynyd i gynghori y blaenoriaid oedd yn y swydd o'r blaen, a phymtheng mynyd i'r brodyr a ddaethant i fewn i'r *drés* heddyw. Ond yr unig gymhwysder sydd yn perthyn i mi i'r swydd hon heddyw yw y cymhwysder o henaint; ac ni a wyddom oll mai y lleiaf o'r holl gymhwysderau yw hwnw. Eto y mae gan henaint ryw awdurdod goddefol nad ydyw gan yr ieuanc; hyny ydyw, fe oddefir i mi heddyw, pan ydwyf mewn pedair blwydd i fod yn bedwar ugain mlwydd oed, i ddywedyd pethau wrthych yn well na phe buaswn mewn pedair blwydd i fod yn ddeugain oed. Wel, yr wyf erbyn hyn yn arfer a chynghori pobl well na mi fy hunan er's tros ddeugain mlynedd; ac nid wyf yn gwybod i mi dramgwyddo neb erioed, ac ni chefais innau fy nhramgwyddo gan neb arall;

felly dysgwyliaf iddi basio heddyw heb i neb fod mewn tramgwydd.

Yn awr, dechreuwn gyda'r brodyr yn y weinidogaeth. Yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, na byddo i chwi gadw yr holl seiadau eich hunain. Rhoddwch ran i'r holl ddiaconiaid, ac i bawb arall a glyw ar ei galon i siarad. Dywedodd y diweddar Barchedig Williams o'r Wern mai yr un peth â chwareu pêl oedd cadw seiat—"Pawb â'i *bwmp* i'r bêl," meddai yr hen efengylydd, "fe gedwir y chwareu yn fyw; ond rhowch hi yn llaw yr un dyn, dyna yr holl chwareu yn marw." Cymhwyswn hynyna at gadw seiadau. Onid y seiadau ag y bydd mwyaf o amrywiaeth yn y siarad ynddynt yw y rhai mwyaf cynhes, mwyaf gwlithog, mwyaf adeiladol? Iê, meddaf i chwi. Dywedodd y diweddar Barch. Robert Ellis ryw dro, pe b'ai angel yn d'od i lawr o'r nefoedd bob wythnos i gadw seiat, na ddylai ei chadw ei hunan; ond y dylai roddi rhan i'r holl swyddogion, ac i bawb arall a glyw ar ei galon. A ddarfu i chwi ddal sylw erioed, fy mrodyr, mai y wraig oreu am weithio ei hunan sydd yn magu y merched salaf am waith? "Sut felly?" meddai rhywun, "paham na chymerai y merched esiampl y fam?" Wel, y mae y fam yn gweithio y cwbl ei hunan, ac yn gadael i'r merched ddiogi. Felly, fy mrodyr yn y weinidogaeth, na fydded i chwi weithio y cwbl yn y seiadau, a gadael i'r diaconiaid ac eraill ddiogi. Fel yna y terfynwyd y llith gyntaf (chwedl Eglwys Loegr).

Yn awr, gair wrth y diaconiaid oedd yn y swydd o'r blaen, yn gystal â'r rhai a ddaeth i fewn heddyw. Gafaelwn ninnau ynddi o ddifrif, fy mrodyr! Astudiwn, *planiwn*, trydarwn, a gweddiwn pa fodd i yru y seiadau ymlaen yn y ffordd fwyaf effeithiol i gael pawb i ddyfod iddynt. Mae yn rhaid i ni "ranu yr ymrafael" â'r crefyddwyr oerion sydd yn dyfod i'r seiat rhyw unwaith yn y mis neu ddau fis. Mae ein seiadau oerion ni yn rhoddi achlysur iddynt i fod yn oerach. Amcanwn gadw ein seiadau yn y ffordd fwyaf effeithiol i gael yr holl aelodau i ddyfod iddynt; amcanwn wneyd y cyfarfod hwn yn beiriant byw i sugndynu pawb i ddyfod iddo! Clywais fy rhieni yn dywedyd ddegau o weithiau am y diweddar Barchedig Robert Roberts, Clynnog—ac nis gwn am neb a wyddai yn well am dano na hwy, oblegid bu fy mam yn yr un seiat ag ef am 15 mlynedd—a degau o weithiau y clywais hi yn adrodd ei hanes, ac afonydd o ddagrau yn llifo tros ei gruddiau o hiraeth ar ei ol! Iê, clywais hwy yn dywedyd na chlywsant ef erioed yn diweddu ei bregeth na byddai ei wrandawyr yn ddig wrtho; oblegid byddai yn pregethu gyda'r fath nerthol awdurdod a gwres, nes y byddai ei wrandawyr yn colli yn gwbl arnynt eu hunain, ac yna yn sychedu am ei glywed drachefn a thrachefn. A fuoch chwi ddim yn synu, fy mrodyr, ar ol cael seiat oer a thywyll yr wythnos yma, fod neb yn dyfod iddi yr wythnos drachefn, ac na fuasai yr oerni yn creu difaterwch? Cyfaddefodd y Parch. J. Jones, Bryn'rodyn, yn y Cyfarfod Misol o'r blaen, mai gan y blaenoriaid yr oedd yr holl awdurdod yn y seiadau driugain mlynedd yn ol, ac yr wyf fi yn dyst byw ei fod ef yn methu a chael gan ddiaconiaid Bryn'rodyn goelio ei fod ef yn uwch mewn awdurdod na hwy. Ond pwy bynag yw yr uchaf ei awdurdod, rhoddaf gynghor i'r holl ddiaconiaid ddal eu gafael yn eu hen awdurdod wirioneddol; a dywedaf hyn, os adfeilia swydd y diaconiaid gymaint yr ugain mlynedd nesaf ag a wnaeth yr ugain mlynedd diweddaf, ni bydd y diaconiaid dda i ddim ond i osod y seti, ac i hel arian y tlodion ac arian y weinidogaeth, &c., &c. Gan hyny, fy mrodyr, gafaelwn ynddi o ddifrif i ddal anrhydedd ysbrydol y swydd i fyny, er mwyn yr oes nesaf! Cawsom ni hi yn ei gogoniant ysbrydol gan ein tadau; ac os na ddaliwn hi yn ei hanrhydedd, gwnawn gam â'r oes sydd yn dyfod ar ein hol.

Yn awr, gair yn fwy uniongyrchol i'r brodyr a ddaeth i'r *drês* heddyw. Pe buasech yn dyfod i'r *drês* 50 mlynedd yn ol, fy mrodyr, un cwestiwn ac un cynghor a gawsech. A'r cwestiwn a fuasai hwn:—A ydych yn cydfyned â'r athrawiaeth Galfinaidd ac â Rheolau Dysgyblaethol y Corff fel y maent i lawr yn y *Cyffes Ffydd?* A'r cynghor fuasai i chwi godi llyfr misol y Corff, pa un bynag ai dan yr enw *Goleuad Cymru* ai dan yr enw y Drysorfa yr oedd y llyfr. A chof-

iwch, fy mrodyr, fod y cwestiwn a'r cynghor yna i fod yn eu grym heddyw yn llawn cymaint ag oeddynt 60 mlynedd i heddyw. A byddaf fi yn edrych ar y blaenor na bydd yn codi y DRYSORFA fel rhyw flaenor "ar hyd braich." Ni bydd (fel y dyn di-ffydd) yn gofalu am ei deulu. Ond y peth wyf am ei ddywedyd wrthych chwi yn awr yw yr un peth ag a ddywedwyd wrth un o freninoedd Judah, nid yn ei gysylltiad â'i fynediad i'r swydd fel brenin, ond oblegid rhyw gam dro a wnaethai pan yn ei swydd. Fel hyn y mae yr adnod: "Rhyfel fydd i'th erbyn o hyn allan." Chwi a ryfelwch yn ddiddiwedd â chwi eich hunain; ni phlesiwch chwi byth mo honoch eich hunain yn y swydd. Os peidiwch a dywedyd dim yn y seiat, ni byddwch yn foddlawn felly; a phan y dywedwch, gwelwch ef yn salach a mwy diamcan na dywediad neb. Os bydd seiat oer a thywyll a chaled, chwi a gredwch mai eich dyfodiad chwi i'r swydd fydd yr achos. Ië, collwch ddegau o oriau o'ch cwsg cyn pen blwyddyn, oblegid rhyw helbul neu gilydd yn y swydd. Heblaw rhyfel oddifewn, cewch lawer ergyd oddiallan. Dywedai y diweddar Barch. Morris Jones, Jerusalem, fod yn rhaid i bob blaenor fod fel sach gwlan—dyoddef y *cic* a chodi y doll. Ac yr ydwyf fi, fy mrodyr, yn meddwl fod "codi'r doll," sef maddeu i'r ciciwr, yn haws ei wneyd na dyoddef y *cic* y tro cyntaf.

Ond yn ngwyneb y cwbl, rhof gynghor i chwi—ymgollwch mewn gweithgarwch. Na fydded i chwi wrando arnoch eich hunain nac ar neb arall. Edrychwch yn barhaus beth sydd eisieu ei wellhau yn yr eglwysi sydd wedi eich codi. Mae yr eglwysi wedi eich codi er mwyn i chwi eu gwellhau. Ac oni byddant yn well ar ol eich codi, bydd eich codiad yn ofer. Hwyrach na waeth i chwi eich hunain beidio eu gweled yn gwellhau, rhag ofn i chwi fagu chwydd fel brenin Babilon. Bydd digon o bobl eraill yn edrych ar eich holau pa beth a fyddwch yn ei wneyd. Byddaf yn dywedyd yn aml na raid i'r un blaenor seiat fyned i'r drafferth i ddywedyd ei fod yn was anfuddiol—y bydd digon o bobl eraill i ddywedyd hyny am dano!

Wel, dychymygaf glywed ùn o honoch fel yn gofyn—Pa beth yw ein gwaith? Mae y cwestiwn yn un pur naturiol i'w ofyn, yn enwedig pan yn dechreu gwaith newydd. Bum I er's blynyddau yn ol yn cadw *crew* mawr o weision. Weithiau tarawn ar was y byddai yn rhaid dangos iddo bob *job* a wnai, ac hefyd sut i'w gwneyd. Gwas pur wael oedd hwnw. Dro arall cawn was pur ofalus am derfynu ei waith; ac yn dueddol i ddyweyd na chyflogodd efe i wneyd y peth a'r peth. Gwas llawn mor anfuddiol yw hwnw. Gwinllan yw Eglwys Crist, fy mrodyr; ac y mae eisieu i bob gweithiwr fod yn meddu dau beth: 1. Llygaid i weled ei waith; ac yn 2. Ysbryd i weithio ar ol ei weled. Byddaf yn edrych ar waith Eglwys Dduw yn debyg i waith y tŷ. Edrychwn ar y merched yn gweithio yn y tŷ; hwy yw y rhai cyntaf yn y boreu, a hwy yw y rhai diweddaf yn yr hwyr. Ewch i'r tŷ yr amser a fynoch, cewch y merched yn gweithio. Os yn sefyll y maent, y maent yn sefyll i weithio; os eistedd, eistedd i weithio. Ië, os ar eu gliniau, ar eu gliniau yn gweithio. Ewch i'r tŷ yna 4 o'r gloch prydnawn, chwi a feddyliech fod yr holl waith wedi ei wneyd beth bynag am fis o amser. Ond ewch chwi yno wyth o'r gloch boreu drannoeth, cewch yr un gwaith megys wedi d'od i'r golwg fel y diwrnod cynt; ac felly bob dydd yn barhaus. Fel yna yn union y mae gwaith Eglwys Crist. Nid oes yr un awr i'w rhoi i segura. Wedi codi un bwlch, bydd un arall yn syrthio mewn rhyw gŵr arall. Os daw ysbryd pregethu arnoch, pregethwch; mae genych gystal hawl a'r Apostol Paul, ond i chwi bregethu Crist Iesu yr Arglwydd, a pheidio pregethu eich hunain. Y diwrnod cyntaf yr ewch i ddangos eich hunain yn y swydd, dyna chwi yn llithro i domen na ddowch byth o honi yn lân. Rhyw Sabboth gwelwch *glass* yn yr Ysgol a rhyw fachgen neu rhyw lodes dlawd heb fod ynddo. Ewch y nos Lun cyntaf i'w cartref; ac yna gofynwch ymha le y buont ddoe yn lle bod yn yr Ysgol? Mae yn rhyfedd genym na chlywch y fam yn dywedyd, "Yn siwr, nid oedd ganddo esgidiau;" neu "Nid oedd ganddi *het* neu *fonnet*." Yn y fan yna, rhoddwch het neu esgidiau neu fonet, a hyny rhag i eiddo yr Arglwydd

Iesu ddyfetha. Dro arall, gwelwch sêt â phump o'r teulu i fod ynddi—tad a mam, a thri o blant. Gwelwch y sêt yma am ddau Sabboth yn nesaf at eu gilydd a dim ond y plant. Ewch i'r tŷ yna ar ol yr ail Sabboth, a gofynwch a ydyw pawb yn iach yno? Ac os yn iach, dywedwch eich bod yn ofni eu bod yn wael; ac ar ol derbyn yr esgusion, de'wch â'r *pisiau* goreu o'r pregethau a gollasant, a gwisgwch y rhai hyny â thân. Codwch daranau yn eu cydwybod a chnofeydd yn eu coluddion; darn-laddwch hwy â'r Ysgrythyrau, fel nad anghofiant y *sgwrfa* am rai blynyddoedd. Rhyw dro wed'yn, chwi a glywch fod rhywun yn sâl yn perthyn i'r eglwys. Ewch rhag blaen i'r fan hono. Mae arnaf ofn fod y diaconiaid, lle y mae bugeiliaid ar eu heglwysi, yn llechu yn nghysgod fod y gweinidog yn myned yno, gan feddwl fod hyny yn ddigon. Cofiwch, fy mrodyr, fod y claf yn dysgwyl eich gweled chwithau yn llawn cymaint a'r gweinidog. Yn y fan yma y mae ein mawr wendid ni, ac yn y fan yma y mae mawr nerth Eglwys Loegr. Yr ydym ni wedi colli ein cannoedd pobl yn y llecyn yma, a'r Eglwys hithau wedi ennill ei miloedd.

Wel, fy mrodyr, dyma chwi heddyw yn benau teuluoedd. Mae cryn wahaniaeth mewn bod yn benteulu yn hytrach na bod yn aelod o deulu. Gwelwn y plant yn aelodau o deulu, ond nid oes ganddynt hwy ofal am y rhent na threth. O! na, ar y penteulu mae hyn i gyd yn gorphwys. Felly chwithau, yr oeddych yn aelodau o'r teulu o'r blaen, yn talu eich casgliad misol, ac at y Gymdeithas Genadol. Ond heddyw, dyma chwi i ystafell y trydar—'A oes yma ddigon i dalu'r Casgliad Misol? A beidia y Casgliad Cenadol fod yn llai eleni na'r llynedd? Pan yn myned â rhyw gasgliad bychan i'r Cyfarfod Misol, dyfod âg aml i ddarn deuswllt i'w wellhau, rhag cywilydd am ei fod yn rhy fychan!

Ond gwnewch chwi y cwbl o gariad at yr Achos, nid ä byth yn faich arnoch. Ni chlywsom erioed y tad a'r fam, lle y mae 8 neu 10 o blant yn ymddibynu ar gyflog y tad am eu cynnaliaeth, yn dymuno am i dri neu bedwar o'r plant feirw i ysgafnhau eu baich. O! na, byddai yn well gan y rhieni yna farw i ganlyn y plant na dymuno hyny. Paham? Wel, am eu bod yn caru eu plant fel eu hunain. Felly yn union, fy mrodyr, cymerwch chwithau Achos yr Arglwydd Iesu fel achos i chwi eich hunain, nid aiff byth yn faich arnoch; ond bydd yn bleser genych ei wneyd hyd yn nod yn nghanol anhawsderau. A dyma fi yn terfynu gan ddywedyd —Gwnawn bob gweithred tuag at Eglwys Dduw yn ol rheol ei Air, a'n llygaid yn deg ar ogoniant Duw. Felly cawn ni ein gwneyd yn "frenineodd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef."

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI YR YSGOL SUL.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch. R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

MEHEFIN 1af. GEN. IV. 16—26. HILIOGAETH CAIN.

YN ngwers y Sabboth blaenorol yr oeddym yn cael hanes y ddedfryd a roddodd yr Arglwydd ar Cain am lofruddio ei frawd Abel, a theimlad Cain yn wyneb y ddedfryd hono. Mae gwers y Sabboth hwn yn ein hysbysu am hanes Cain a'i hiliogaeth yn nhir eu halltudiaeth. *Cain a aeth allan o ŵydd yr Arglwydd.* Nid ydym i olygu fod yr Arglwydd yn bresenol gydag ef mewn ffurf weledig. Y mae hanes ei ymweliad â Cain, yn gystal a hanes ei ymweliad blaenorol âg Adda, yn cael ei roddi ar ffurf ddynol, er mwyn ei wneyd yn ddealladwy i'r rhai yr ysgrifenid ar eu cyfer. Mae yn bwysig cadw hyn yn wastad mewn golwg wrth ddarllen y rhanau cyntaf o lyfr Genesis yn arbenig. Llyfr yn cael ei ysgrifenu i rai oedd yn blant mewn gwybodaeth a deall yw y llyfr. Am y rheswm hwn fe ddywedir fod yr Arglwydd yn fynych yn ymddangos i ddynion, ac yn llefaru wrthynt. Nid oedd Efe yn ymddangos *yn weledig* i Cain pan yn cyhoeddi y ddedfryd arno. A phan y dywedir fod Cain yn myned allan o "ŵydd yr Arglwydd," ni feddylir ei fod

yn myned allan o'i ŵydd yn yr un ystyr ag y dywedir fod y naill ddyn yn myned allan o ŵydd y llall. "Ni welodd neb Dduw erioed." Y mae ganddo Ef lawer ffordd i wneyd ei bresennoldeb yn hysbys, ac i lefaru, heb wneyd ei hun yn weledig. Nid yw yn hysbys pa fodd yr oedd yn llefaru wrth Cain. Ond yr oedd mewn rhyw ffordd anhysbys i ni yn gwneyd ei bresenoldeb yn hysbys iddo. Y rhan o'r ddaear ag yr oedd yr Arglwydd yn gwneyd ei bresennoldeb yn hysbys ynddi ydoedd, y diriogaeth yn yr hon y safai gardd Eden. Nid *yn* yr ardd, ond y tu allan iddi. Yr oedd presennoldeb yr Arglwydd i ddyn wedi myned o'r ardd, ond nid oedd wedi ymadael o'r gymydogaeth yn yr hon yr oedd yr ardd. Pan y dywedir fod Cain wedi myned "allan o ŵydd yr Arglwydd," yr ystyr gan hyny yw, ei fod wedi ymadael o'r diriogaeth hono ag yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi ei bresennoldeb ynddi. *Nod.* Ystyr yr enw yw *alltudiaeth.* Yr oll sydd hysbys am ei safle ddaearyddol yw ei bod "o'r tu dwyrain i Eden." Ond am nad oes neb a ŵyr ymha le yr oedd Eden, nid oes neb all ddyweyd ymha le yr oedd Nod. Rhydd yr adnodau dilynol hanes Cain a'i ddisgynyddion hyd y chweched genedlaeth yn nhir Nod. Ganwyd iddo fab yr hwn a alwodd yn Enoch *(cyflwynedig).* Yr oedd efe ar y pryd yn adeiladu dinas, a rhoddodd enw ei fab ar y ddinas. Nid ydym i gymharu y "ddinas" hon â dinasoedd hysbys i ni o ran maintioli. Nid oedd y ddinas Enoch ond ychydig fwthynod wedi eu hadeiladu yn agos at eu gilydd i deulu Cain fyw ynddynt. Dyma y ddinas gyntaf y sonir am dani. I Enoch ganwyd Irad *(asyn gwyllt);* i Irad, Mehuiael *(cyhoeddwr Duw);* i Mehuiael, Methusael *(erchi marwolaeth);* i Methusael, Lamech *(galluog).* Enwau gwragedd Lamech ydoedd Adah *(harddwch),* a Silah *(cysgod).* Plant Lamech o Adah oeddynt Jabal *(ffrwd),* a Jubal *(cerddoriaeth);* plant Lamech o Silah oeddynt Tubal-Cain a Naamah *(hyfryd).* Nid oes ond pedair o ferched yn cael eu nodi wrth eu henwau yn hanes y byd cyn y diluw, sef Efa, a'r tair merch y ceir eu henwau yn ngwers y Sabboth hwn. *Jabal.* Efe oedd y cyntaf i fyw mewn pabell. Y mae "pabell" yn golygu annedd symudol, yn gyferbyniol i dŷ sefydlog. Yr oedd Jabal gan hyny yn dilyn bywyd crwydrol, ac efe oedd cychwynydd y dull hwnw o fyw. Yr oedd y rhai a fu o'i flaen ef yn gallu cadw eu hanifeiliaid yn yr un man, heb fod eisieu iddynt eu symud o le i le. Ond nis gallasai Jabal wneyd hyny; o leiaf, ni wnaeth. Nid oedd gan Abel ond defaid, ond yr oedd gan Jabal lawer o greaduriaid gwahanol. Y mae y gair "anifail" yn air all olygu nid defaid yn unig, ond ychain, camelod, ac asynod. *Jubal.* Efe a ddyfeisiodd offerynau cerdd. Y mae y geiriau "telyn ac organ" yn cael eu defnyddio i olygu offerynau tânau ac offerynau gwynt. *Tubal-Cain.* Y mae llawer o dywyllwch ynglŷn âg ystyr ei enw fel sydd ynglŷn âg ystyr amryw enwau eraill yn y bennod ac yn y llyfr. Oblegid hyn rhoddir ystyron gwahanol i'r enwau gan wahanol ysgolheigion Hebreig. "Ond nid yw ystyr yr enwau o gymaint pwys. Enw yr arwr hwn yw Tubal-Cain. Yn Ezec. xxvii. 13, y mae Tubal yn dwyn copr i farchnad Tyrus, ac yn yr iaith Bersiaidd y mae y gair yn golygu copr. Y mae Cain yn enw gwahanol i enw cyntafanedig Adda, ac yn golygu yn y rhan fwyaf o ieithoedd Semitaidd, *gof;* yn ol hyn, y mae yr enw Tubal-Cain, mae yn debyg, yn golygu *gof copr.*"—Payne Smith. Mae y gair "pres" yma yn cael ei ddefnyddio am *gopr.* Yn flaenorol i hyn yr oedd yr holl arfau a ddefnyddid yn rhai wedi eu gwneyd o *flint,* coed, neu esgyrn. Tubal-Cain oedd y cyntaf i wneyd offerynau copr a haiarn ac i'w defnyddio. Darllener adn. 23ain: "A dywedodd Lamech wrth ei wragedd, 'Adah a Silah, clywch fy llais, chwi wragedd Lamech gwrandewch fy lleferydd, canys myfi a laddaf ŵr os clwyfa efe fi, a gŵr ieuanc os gwna efe niwed i mi. Wele, dielid Cain seithwaith, ond Lamech saith ddengwaith a seithwaith.'" Y mae hanes Cain yn terfynu yn y fan hon. Nid oes a wnelo yr hanes sanctaidd mwyach ddim âg ef na'i deulu. Yr oedd ei hiliogaeth yn wŷr o athrylith a gweiddiolder. Dyfeisiodd Jabal ddull newydd o fyw; dyfeisiodd Jubal offerynau cerdd; dyfeisiodd Tubal-Cain arfau copr a haiarn. Buont o wasanaeth pwysig i'r byd er eu bod yn deulu dan felldith. Ar ol colli Abel nid oedd neb yn cynnrychioli pobl dduwiol. I wneyd y diffyg i fyny fe anwyd Seth *(ad-daliad).* I Seth hefyd y ganwyd Enos *(dyn* gyda chyfeiriad arbenig at ei *wendid). Yna y dechreuwyd galw,* &c. Yr ystyr yw fod Seth a'i hiliogaeth wedi ymuno â'u gilydd yn fath o gymdeithas neu eglwys. Gwel ymyl y ddalen, a darllener fel y ceir yno.

MEHEFIN 8FED. GEN. v. HILIOGAETH ADDA TRWY SETH HYD NOAH.

Pennod yr enwau yw hon, Y mae yn perthyn iddi er hyny ddyddordeb mawr.

Nid ydym yn tybied ei bod yn hollol anghenrheidiol ei darllen i gyd yn yr ysgol. Ar yr un pryd, ni fyddai o un niwed gwneyd hyny. Tuag at fod yn alluog i ddarllen y Bibl yn dda, y mae yn rhaid wrth ymarferiad gyda'r enwau sydd ynddo. Cyfarfyddir âg enwau lleoedd a phersonau mewn rhanau o'r Bibl ag yr ystyrir ei bod o bwys mawr eu darllen yn fanwl. Yr ydym yn ystyried mai mantais, yn enwedig i rai ieuainc, yw ymgydnabyddu âg enwau fel sydd i'w cael yn y bennod hon. Nid yw eu nifer ond deg, Adda, Seth, Enos, Cenan, Mahalaleel, Jared, Enoch, Methuselah, Lamech, a Noah. Y mae cryn bwysigrwydd yn perthyn iddynt, am eu bod yn ffurfio y gadwen o enwau sydd yn cysylltu Adda, y pen yn yr hen fyd, â Noah, y pen yn y byd newydd, ar ol y diluw. Trwy yr enwau hyn hefyd yr ydym yn gallu olrhain achau Iesu Grist i'n tad cyntaf Adda. Y mae llawer mwy o ofal a manylder yn cael ei gymeryd gyda'r enwau yn y bennod hon nag a ddangoswyd wrth roddi hanes hiliogaeth Cain. Ni roddir oedran yn nglŷn â'r un o'r enwau yn ei hanes ef, ond yma gwneir hyny yn hynod o fanwl. Rhoddir oedran y personau a enwir cyn geni mab iddynt, a'r nifer y bu iddynt fyw ar ol hyny. Y rheswm dros hyn oll yw eu bod yn enwau y rhai yr oedd Iesu Grist i ddyfod o honynt. Dyma linell yr had. Dechreuir gydag Adda y tad cyntaf. *A'u galwodd hwynt Adda* (adn. 2). Y mae y gair Adda yn y frawddeg hon yn golygu y natur ddynol, fel y mae *dyn* weithiau yn Gymraeg yn cael ei ddefnyddio i olygu yr un peth. *Ar ei lun a'i ddelw ei hun.* Delw Duw oedd ar Adda pan y crewyd ef. Nis gallai ef drosglwyddo y ddelw hono i'w blant am ei fod wedi ei cholli trwy bechod. Delw Adda oedd ar Seth. Fe ddaeth Seth i'r byd gan hyny â'i natur yn llygredig. Y rhai hynotaf yn y rhestr yw Enoch a Methuselah. Sonir am Enoch yn Heb. xi. 5; Judas 14, 15. Mae Heb. xi. 5 yn rhoddi esboniad ar hanes Enoch. Ystyr y frawddeg "canys Duw a'i cymerodd ef," yw ei fod wedi cael myned i'r nefoedd heb farw. *Rhodio gyda Duw.* Byw mewn cymundeb agos a gwastadol â Duw. Nid oes un anhawsder i wneyd allan oed pob un o'r deg pan aethant o'r byd. Er engraifft, Cenan *(meddiant)*, 910; Mahalaleel *(mawl Duw)*, 895; Jared *(disgyniad)*, 962; Enoch *(cyflwynedig)*, 365, &c. Wrth gyfrif blynyddoedd einioes y patriarchiaid hyn, y mae yn eglur eu bod oll, ond Noah, wedi marw cyn i'r diluw ddyfod ar y ddaear. Ystyr yr enw Noah yw *gorphwysdra.* Y mae prophwydoliaeth Lamech gyda golwg arno yn un pur dywyll. Hwyrach mai yr ystyr yw fod Lamech yn rhagweled y dinystr a ddeuai ar y byd, ac hefyd y byddai i Noah gael ei gadw, a'i wneyd yn ben hiliogaeth newydd. Rhagfynegir felly gan Lamech y byddai i Noah fod yn gysur i'w deulu pan y byddai i'r byd fyned o dan felldith yr Arglwydd.

MEHEFIN 11EG. ADOLYGIAD AR WERSI Y SABBOTHAU BLAENOROL.

MEHEFIN 22AIN. GEN. VI. 1—12. Y BYD YN ADDFEDU I FARN.

YN y gwersi sydd wedi bod o dan sylw yn flaenorol, a'r rhai yr oedd y dosbarthiadau yn eu hadolygu y Sabboth diweddaf, yr ydym wedi cael hanes dyfodiad pechod i'r byd, a pha fodd y darfu iddo ddangos ei hun yn llofruddiaeth Abel, ac yn hiliogaeth yr hwn a'i llofruddiodd, a'r modd y gwahanwyd Seth a'i ddisgynyddion oddiwrth y rhai drygionus. Yr ydym yn y wers hon yn cael rheswm dros gynnydd annuwioldeb yn gyffredinol drwy'r byd, yr hwn a gymerodd le i'r fath raddau nes dwyn barn gyffredinol o'r nefoedd ar ddynolryw. Yr anhawsder mwyaf y mae esbonwyr wedi ei gyfarfod yn y rhan hon o'r bennod yw penderfynu pwy a feddylir wrth "feibion Duw," a "merched dynion." Y mae llawer o wahanol farnau ar y mater. Y mae crybwyll dau o'r gwahanol syniadau yn ddigon. 1. Fod "meibion Duw" yn golygu yr angelion, y rhai a wisgasant eu hunain â chyrff dynol ac a briodasant ferched dynion. Y mae hwn yn hen syniad, a mabwysiedir ef gan amryw o esbonwyr diweddar. Yn ei erbyn, ac yn ddinystriol iddo, y mae y pethau canlynol:—(1.) Nid yw angelion "yn gwreica nac yn gwra" (Luc xx. 35). (2.) Buasai dynion, yn ol y golygiad hwn, yn cael eu cosbi am bechod a ddygwyd oddiamgylch yn benaf gan angelion ac nid gan ddynolryw. (3.) Y mae y golygiad yn dinystrio y cysylltiad ymha un y dysgir yn y pennodau y darfu i lygredigaeth ymledaenu dros holl hiliogaeth Adda. 2. Fod "meibion Duw" yn golygu hiliogaeth Seth, a "merched dynion" hiliogaeth Cain. Y mae pobl dduwiol yn cael eu galw yn "feibion Duw" mewn rhanau eraill o'r Bibl (Hosea i. 10; Rhuf. viii. 14, 19). Y mae y syniad hwn yn rhoddi mwy o gysondeb ac yn dangos mwy o naturioldeb yn yr hanes. Yr oedd y ddwy hiliogaeth i fod ar wahan i'w gilydd, am fod hiliogaeth Cain wedi cychwyn ar yrfa bechadurus ac yn parhau i fyned ymlaen ar yr yrfa hono, tra yr oedd hiliogaeth Seth wedi ymneilduo

oddiwrthi fel addolwyr Duw, ac fel rhai oedd i gadw gwybodaeth o hono yn y byd. Gan fod cymeriad mor wahanol i'r ddwy hiliogaeth, yr oedd yn bwysig iddynt gadw ar wahan y naill oddiwrth y llall. Bu y canlyniad iddynt beidio a gwneyd hyny yn dra difrifol, fel y cawn weled eto. *Nid ymrysona fy Ysbryd*, &c. Y golygiad mwyaf syml ar y geiriau yw eu cymeryd i gyfeirio at yr Ysbyd Glân. Yr oedd Duw trwy ei Ysbryd wedi "ymryson" â'r byd drwg trwy y dynion da oedd wedi bod ar y ddaear, ymysg y rhai yr oedd Seth ac Enoch yn sefyll ar y blaen. Y rheswm dros beidio parhau i ymryson â dyn oedd, "oblegid mai cnawd yw efe." Y mae y gair "cnawd" yn cael ei ddefnyddio i osod allan natur lygredig. Yr oedd wedi myned mor lygredig fel nad oedd yn bosibl iddi gael ei llywodraethu gan Ysbryd yr Arglwydd. Y mae pwyslais i fod ar y geiriau "yn dragywydd" yn yr adnod. Awgrymir trwyddynt nad oedd yr Arglwydd yn myned i roddi dyn i fyny yn gwbl ac yn hollol ar unwaith. Rhoddir rhybudd iddo o "ugain mlynedd a chant." Dywed rhai mai byrhau oes dyn ar y ddaear i 120 mlynedd y mae yr Arglwydd yn y geiriau. Yn erbyn hyn y mae y ffaith fod llawer wedi byw ar ol yr amser hwn am fwy na 120 mlynedd. Yn hytrach, yr ystyr yw fod yr Arglwydd yn oedi am ugain mlynedd a chant heb beri i'r farn ddisgyn ar y byd. *Cawri.* Pwy, a pha fath rai oedd y rhai hyn? Yr oeddynt yn y byd cyn y priodasau y sonir am danynt yn yr adnodau o'r blaen. Nis gellir eu desgrifio yn well na thrwy eu gosod allan fel dynion grymus, dibris o bob deddf, ac yn gorthrymu eraill. *Cedyrn.* Dynion o ysbryd rhyfelgar a gorthrymus, y rhai a ennillasant iddynt eu hunain enwogrwydd ymysg dynion. Yr oedd y rhai hyn yn ffrwyth y priodasau (adn. 2). Yn adn. 5 dangosir fod uniad "meibion Duw" â "merched dynion" wedi achosi i lygredigaeth calon dyn fyned yn ddyfnach. Yn lle myned yn well, yr oedd dyn yn myned yn waeth. *Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd*, &c. A llefaru yn briodol, nid yw yr Arglwydd yn edifarhau, ac nid yw yr adnod hon yn dysgu ei fod. Dull o ymadroddi sydd yn yr adnod i ddangos digofaint Duw at bechod mewn ffordd oedd yn ddealladwy i'r byd yn ei ystad fabanaidd. Yn nghanol y llygredigaeth cyffredinol yr oedd un dyn da. Noah ydoedd hwnw. Y mae y tri pheth canlynol yn cael eu hysbysu am ei gymeriad. 1. Cyfiawn. Yr oedd ei gyflwr yn dda ger bron Duw. 2. Perffaith. Yr oedd ei fywyd cyffredinol ger bron y byd yn dda. 3. Rhodio gyda Duw. Yr oedd yn byw mewn cymdeithas agos a gwastadol â Duw. Rhoddir cymeriad cyffelyb i Job (pen. i. 1), a chymeriad cyffelyb i'r rhai duwiol yn gyffredinol (Salm xxxvii. 37). Yr oedd i Noah dri o feibion. Rhoddir eu henwau yn adn. 10, er fod eu henwau wedi eu rhoddi o'r blaen (v. 32), am fod pwysigrwydd mawr yn perthyn i'w hanes fel rhai ag yr oedd y byd i gael ei ail boblogi drwyddynt ar ol y diluw. Mae yr ymadrodd "Dyma genedlaethau Noah" (adn. 9), yn dechreu rhaniad newydd yn y llyfr, yr hwn sydd yn cyrhaedd i pen. ix. 29, ac yn cynnwys hanes Noah a helyntion ei fywyd.

Mehefin 29ain. Gen. vi. 13—22. Y byd i gael ei foddi.

Yn ngwers y Sabboth o'r blaen (adn. 3) gwelsom fod yr Arglwydd wedi rhoddi i'r byd rybudd y byddai i farn ddisgyn arno ymhen 120 mlynedd. Yr oedd hyn yn rhoddi iddo, fel yr oedd y deugain niwrnod yn rhoddi i'r Ninefeaid (Jonah iii. 4), amser i edifarhau. Y mae yr ystyriaeth hon, ynghyd a'r ffaith fod eisieu i Noah gael amser i adeiladu yr arch, yn ddigon o reswm dros i'r Arglwydd beidio a dinystrio y byd yn ddirybudd. Y mae Duw yn cyhoeddi y ddedfryd ar y byd wrth Noah, ac yn gorchymyn iddo wneyd arch yn yr hon yr oedd ef, a'i deulu, a chreaduriaid eraill i gael eu cadw yn fyw. Yr un gair sydd yn yr Hebraeg am *arch* ag sydd am y *cawell llafrwyn* yn yr hwn y rhoddwyd Moses ar lân y Nile (Exod. ii. 3, 5). Yr oedd yr arch wedi ei chynllunio gan yr Arglwydd. *Coed Gopher.* Cypreswydd. Dyna ddefnydd yr arch. Yn nesaf dangosir pa fodd yr oedd i gael ei hadeiladu. Yr oedd i gynnwys nifer o "gellau"—un gell i Noah a'i deulu, a chellau eraill i'r gwahanol greaduriaid. Yr oedd i fod yn dri uchder, y naill uwchlaw y llall. Y ddarpariaeth at gael goleuni iddi oedd trwy wneuthur ffenestr. Y mae anhawsder mawr i ddeall ystyr y gair "ffenestr." Nid yw yn anmhosibl fod ei defnydd o ryw sylwedd tryloew. Pa beth oedd hwnw nid oes neb yn gwybod. Ystyr y frawddeg yw rhoddi gorchymyn i Noah am iddo ofalu fod yr arch yn cael ei goleuo yn briodol. Yr oedd ei drws i fod yn ei hystlys, trwy yr hwn yr oedd pawb a phob peth i fyned i mewn. Maint yr arch oedd i fod fel y canlyn:—Hyd, 300 cufydd; lled, 50 cufydd; uchder, 30 cufydd. Nid yw yn hollol sicr pa faint o'n mesur ni oedd cufydd. Dywed Dr. Smith mai tua 21 modfedd. Os felly yr oedd yr arch yn 525 troedfedd o hyd, 87 troedfedd a 6 modfedd o led, a 52 troedfedd a 6 modfedd o uchder. Rhydd eraill 18 modfedd

fel yr hyn sydd gyfartal i gufydd. Bydd yn hawdd i'r plant wneyd y *sum* wrth gymeryd 18 yn lle 21. Nid oedd yr arch yn llong yn ystyr briodol y gair, ond yn fath o lestr anferth wedi ei gyfaddasu at gymeryd digon i fewn iddo ac i fod yn ddiogel ar y dyfroedd. *Yr hyn oll sydd ar y ddaear.* Nid oedd y creaduriaid yn y môr i drengu am nas gellid eu dinystrio hwy â dwfr. Am hyny nid oes pysgod yn cael eu henwi yn adn. 20. Nid ydym yn gweled fod dim ymhellach yn y wers yn galw am eglurhâd.

TAFLEN GWERSI SABBOTHOL.

Saith Bennod Cyntaf yr Epistol at yr Hebreaid, am y flwyddyn yn terfynu Mawrth 31*ain*, 1891.

1890.

Ebrill	6	..	...	Rhagarweiniad.
"	13	...	...	"
"	20	...	...	Pen. I. 1—3.
"	27	...	...	" " "
Mai	4	...	...	" " 4—7.
"	11	...	...	" " 8, 9.
"	18	...	...	" " 10—12.
"	25	...	...	" " 13, 14.
Mehefin	1	...	...	Adolygiad.
"	8	...	...	Pen. II. 1, 2.
"	15	...	...	" " 3, 4.
"	22	...	...	" " 5—8.
"	29	...	...	" " 9, 10.
Gorphenaf	6	...	...	" " 11—15.
"	13	...	...	" " 16—18.
"	20	...	...	Adolygiad.
"	27	...	...	Pen. III. 1—3.
Awst	3	...	...	" " 4—6.
"	10	...	...	" " 7—11.
"	17	...	...	" " 12—14.
"	24	...	...	" " 15—18.
"	31	...	...	Adolygiad.
Medi	7	...	...	Pen. IV. 1, 2.
	14	...	...	" " 3—7.
	21	...	...	" " 8—11.
	28	...	...	" " 12, 13.
Hydref	5	...	...	" " 14—16.
"	12	...	...	Adolygiad.
"	19	...	...	Pen. V. 1—4.
"	26	...	...	" " 5—7.
Tachwedd	2	...	...	" " 8—10.
"	9	...	...	" " 11—14.
"	16	...	...	Adolygiad.
"	23	...	...	Pen. VI. 1—3.
"	30	...	...	" " 4—6.
Rhagfyr	7	...	...	" " 7, 8.
"	14	...	...	" " 9—12.
"	21	...	...	" " 13—16.
"	28	...	...	" " 17, 18.

1891.

Ionawr	4	...	...	Pen. VI. 19, 20.
"	11	...	...	Adolygiad.
"	18	...	...	Pen. VII. 1—3.
"	25	...	...	" " 4—7.
Chwefror	1	...	...	" " 8—10.
"	8	...	...	" " 11—14.
"	15	...	...	" " 15—17.
"	22	...	...	" " 18—20.
Mawrth	1	...	...	" " 21, 22.
"	8	...	...	" " 23—25.
"	15	...	...	" " 26—28.
"	22	...	...	Adolygiad.
"	29	...	...	Adolygiad y Flwyddyn.

NODIADAU.

1. Dysgwylir i'r Dosbarthiadau ddilyn rhaniadau Dr. Charles Edwards yn ei Esboniad, ynghyd a phenawdau y gwahanol adranau. Ymdrechwyd, hyd y gellid, gadw hyn mewn golwg yn y rhaniadau blaenorol.

2. Gan na ellir trefnu i ddarllen ond rhyw ddwy neu dair o adnodau bob Sabboth, buddiol fyddai i'r dosbarthiadau droi i ddarllen y rhanau eraill o'r Ysgrythyrau y mae Dr. Edwards yn eu nodi ynglŷn â phob pennod dan yr enw Pynciau ac Adranau, yn nhu dalenau 60—62 o'r Esboniad.

3. Trefniant rhagorol hefyd fyddai fod yr athraw yn galw sylw ei ddosbarth bob Sabboth trwy nodi allan yr adranau neilldiol o'r pynciau hyn y bwriedir ymdrin â hwy yr un dilynol.

John Owen Jones.

Llanberis.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y Golygydd.

Sabboth, Mehefin 1af. Adolygiad.

Sabboth, Mehefin 8fed. Heb. ii. 1, 2.

Cymhwysiad ymarferol yw yr adnodau hyn oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yn y bennod gyntaf am fawredd Awdwr yr Efengyl, a'i ragoriaeth ar yr angylion. Una yr ysgrifenydd hwn yr athrawiaeth-ol a'r ymarferol yn fedrus iawn. Y mae ei ymdriniaeth â'r athrawiaeth yn arwain yn naturiol at gynghor ymarferol; ac y mae y cynghor yn awgrymu, neu yn cynnwys hedyn, y ganghen nesaf o athrawiaeth a ddygir i sylw.

Adn. 1: *Am hyny.* Am yr hyn a ddywedwyd yn y bennod flaenorol gyda golwg ar uwchafiaeth y Mab, cyfrwng dadguddiad yr Efengyl. *Y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom.* Dyry yr ysgrifenydd ei hun gyda'i ddarllenwyr—"rhaid i *ni*." Nid am ei fod ef yn y perygl yr oeddynt hwy ynddo, ond am fod hon yn ddyledswydd gyffredinol ar bawb sydd yn clywed yr Efengyl; ac hefyd i wneyd y cynghor yn fwy dramgwydd iddynt, rhag iddo yn y cychwyn ymddangos fel yn eu cyhuddo o ansefydlogrwydd. Ymostynga yr Apostol Pedr yn gyffelyb, 1 Pedr iv. 3. *Y pethau a glywsom.* Yr Efengyl a bregethasid iddynt, y dystiolaeth am Grist—sef y Mab goruchel a ddesgrifiwyd yn y bennod gyntaf. Cydnabyddent mai Iesu Grist oedd Mab Duw. *Dal yn well.* Golyga y gair "dal" talu sylw dyladwy, teilwng o fawredd y pethau, gyda pharch, crediniaeth, a pharodrwydd i ufuddhau —dal y meddwl a'r myfyrdod ar y pethau. Yr un gair a ddefnyddir yn Act. xvi. 14, am yr Arglwydd yn agor calon Lydia "i

ddal ar y pethau a leferid gan Paul." *Yn well.* Golyga y gair "yn helaethach." Cysyllta rhai ef â'r "am hyny"—"Am hyny yn helaethach y mae yn rhaid i ni ddal." Rhagoriaeth y dadguddiad yn rheswm ychwanegol dros ddal. Ond yn gyffredin cysylltir ef â'r gair "dal" megys yn y cyfieithiadau Cymreig a Seisonig—"dal yn helaethach." Yn helaethach na pha beth? Nag yr oeddynt wedi gwneyd ar ddadguddiad yr Hen Destament. Yr oedd ganddynt, fel yr Iuddewon oll, feddwl uchel am y dadguddiad hwnw, ac yr oeddynt mewn perygl o adael Cristionogaeth a dychwelyd ato. Ond dyma ddadguddiad uwch, ac y mae yn deilwng o sylw mwy dyfal ac ymafaeliad mwy tŷn. *Rhag un amser i ni eu gollwng hwy i golli.* Edrychir ar y gair a gyfieithir yma "gollwng i golli," yn gyffredin, fel yn cyfeirio at lestri tyllog yn gollwng allan yr hyn a roddir ynddynt. Dyma yr ystyr, y mae'n debyg, a olygid gan y cyfieithwyr Cymreig a Seisonig. Ond yr ystyr arall, dybygid, yw y fwyaf cywir—llithro heibio, neu lifo heibio megys afon—cael ein tynu gyda'r llif nes llithro heibio i wirionedd yr Efengyl, ac felly ei golli.

Adn. 2: *Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angelion.* Golyga hyn, yn yr ystyr fwyaf eang, yr holl ddadguddiad o dan yr Hen Destament, ac yn neillduol y gyfraith a roddwyd ar Sinai, yr hon oedd yn gyfammod rhwng Duw â'r genedl. Credai yr Iuddewon yn gryf yn ngwasanaeth angylion yn rhoddiad y gyfraith, a chadarnheir hyn gan gyfeiriadau yn yr Hen Destament, Deut. xxxiii. 2 a Salm lxviii. 17. Yr oedd y "gair" hwn, neu y gyfundrefn hon o gyfreithiau a threfniadau, yn "gadarn," am ei fod yn ffurfio cyfammod sicr rhwng Duw a'r bobl. Cytunwyd iddo o bob tu, Exod. xx. 19; Jos. xxiv. 21, &c.; felly yr oedd ufudd-dod iddo yn rhesymol ac anghenrheidiol. Golygiad arall yw—yr holl ddadguddiad yn wir ac yn ddwyfol, yn cael ei brofi trwy y gwyrthiau a gyflawnwyd. *Ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth.* Eglurhâd ar gadernid y gair: 'Os ydoedd mor gadarn fel na chafodd un trosedd ddianc yn ddigosb.' *Trosedd,* gweithredu yn groes i'r gorchymyn—myned ar draws y llinell. *Anufudd-dod,* esgeuluso ufuddhau, peidio gwneyd yr hyn a orchymynwyd. Cynnwysa y ddau bechodau o gyflawniad a gomeddiad. Ac yr oedd y trefniad hwnw mor "gadarn" fel y derbyniai pob pechod yn ei wyneb y gosb ddyledus iddo.

Sabboth, Mehefin 15fed. Heb. ii. 3, 4.

Adn. 3: *Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint, yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef?* Ymresymiad oddiwrth y llai at y mwy. Nid dianc rhag y golledigaeth wreiddiol yn unig, ond rhag y gosb neillduol am wrthod a dirmygu iachawdwriaeth mor fawr. Y mae y ddwy o anghenrheidrwydd ynglŷn â gwrthod yr Efengyl 1. *Gair* oedd y gyfraith, yn gorchymyn, ond heb estyn dim cymhorth i gyflawni. Ond *iachawdwriaeth* yw yr efengyl, gwaredigaeth, gweithred o ras. 2. Âll llaw oedd y gyfraith, trwy angylion; ond y mae yr iachawdwriaeth wedi ei dadguddio a'i phregethu i ddynion o'r dechreuad cyntaf, gan yr Arglwydd Iesu ei hunan yn uniongyrchol. *A sicrhäwyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef.* Nid y meddwl ydyw fod yr iachawdwriaeth wedi cael ei thraethu ar y cyntaf gan yr Arglwydd Iesu, ac ar ol hyny wedi ei thraddodi i ni fel yn sicr gan y rhai a'i clywsant ef. Pa wahaniaeth, felly, a fuasai rhwng yr efengyl a'r gyfraith? Cafodd y gyfraith ei rhoddi ar y cyntaf gan Dduw, ac yna ei dwyn gan angylion at ddynion. Ond pwynt yr Apostol yw fod yr iachawdwriaeth wedi ei dwyn at ddynion, o'r dechreu cyntaf, gan yr Arglwydd Iesu, ac nid gan unrhyw bersonau cyfryngol. A *dyma yw* yr hyn a siorhawyd i ni gan y llygaiddystion a'r clust-dystion.

Adn. 4: *A Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu.* Gair o ystyr neillduol. Golyga *tystio,* dwyn tystiolaeth i beth sydd eto heb ei benderfynu—*ardystio,* dwyn tystiolaeth i beth sydd wedi ei benderfynu—*cyd-ardystio* (yr hwn yw y gair sydd yma) rhoddi tystiolaeth ychwanegol i beth sydd yn sicr ynddo ei hunan, ac wedi ei gadarnhâu gan brofion o ffynnonellau eraill. Ond â phwy? A'r "rhai a'i clywsant ef," neu "a'i clywsant hi." Pa fodd? Trwy wyrthiau, fel y gwelir ymlaen. Swydd israddol a roddir yma i wyrthiau—"cyd-dystiolaethu." Awgrymir nad yw yr efengyl mewn anghen am gadarnhâd trwy wyrthiau, ond ei bod yn cario ynddi ei hunan dystiolaeth o'i gwirionedd. A phan y mae ansawdd *wrthwyneb* i'r efengyl ar y galon ni wna gwyrthiau ei hargyhoeddi. Yr oedd y gwyrthiau yn amser Crist, ac felly eto, yn geryg-terfynau rhwng ffydd ac anghrediniaeth. Perthynai i'r gwyrthiau a'r dammegion elfen foesol. Yr oeddynt yn *barnu* ansawdd y galon. Yr oedd ynddynt ddigon o oleuni i'r rhai oedd yn dymuno gweled, a digon o aneglurdeb

i dramgwyddo y rhai oedd yn caru y tywyllwch—cynnorthwyon gwerthfawr i ffydd, ond maglau i anghrediniaeth. *Trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glân.* Yn ol un golygiad ar y gwahanol enwau hyn, y mae gwyrthiau o ystyr pedwarplyg. 1. "Arwyddion" o ran eu dyben, sef i fod yn dystiolaeth wyrthiol o ryw wirionedd. 2. "Rhyfeddodau" o ran eu natur, fel gweithredoedd goruwchnaturiol. 3. "Nerthoedd" o ran eu tarddle, mewn gallu uwch-ddynol. 4. "Doniau yr Ysbryd Glân" o ran eu nodwedd neilldnol Gristionogol, yn cael eu hymarfer gan y rhai sydd, yn ol ewyllys a rhaniad doeth Duw, wedi eu cynnysgaethu â doniau neilldnol y gwyrthiau. "Rhaniadau" yr Ysbryd Glân. Duw oedd yn "cyd-dystiolaethu" trwy y "rhaniadau" hyn o'r Ysbryd neu o'i ddoniau anghyffredinol. *Yn ol ei ewyllys ei hun.* Yn ol ewyllys Duw. Dengys y gwyrthiau "weithrediad personol ac uniongyrchol Duw yn y dystiolaeth."—(Edwards.)

Sabboth, Mehefin 22ain. Heb. ii. 5—8.

Adn. 5: *Canys nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw, am yr hwn yr ydym yn llefaru.* Dechreuir yma adran newydd yn yr ymresymiad. Dygir y geiriau i mewn fel rheswm ychwanegol dros beidio esgeuluso y dadguddiad newydd trwy y Mab. Dangoswyd rhagoriaeth y Mab, cyfrwng yr oruchwyliaeth newydd, ar yr angylion, cyfryngau yr hen oruchwyliaeth, yn ei berthynas â Duw. Dangosir yn awr uwchafiaeth y Mab ar yr angylion trwy ei berthynas â dynion. Y mae y Mab yn Berson mor oruchel nes y mae, hyd yn nod yn ei ymgnawdoliad a'i ymddarostyngiad—tramgwydd Cristionogaeth i'r Iuddew—yn dyrchafu *dyn* yn uwch na'r angel. "Y byd a ddaw"—goruchwyliaeth yr Efengyl fel yr edrychid arni o safle yr oruchwyliaeth Iuddewig—"y byd oedd i ddyfod," yr hwn sydd yn awr yn fyd *wedi* dyfod. Y mae y "byd" newydd hwn—y ffurf olaf a pherffeithiaf hon ar grefydd—i gael ei weinyddu nid gan angylion, ond gan y natur ddynol mewn undeb â Pherson dwyfol y Mab. Darostyngir pob peth yn y weinyddiaeth newydd hon dan draed dyn. "Am yr hwn yr ydym yn llefaru"—y byd newydd hwn yw testyn y traethawd.

Adn. 6: *Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Pa beth yw dyn, i ti i feddwl am dano, neu fab dyn, i ti ymweled âg ef?* Dyfyniad o'r wythfed Salm. Nid am "y dyn Crist Iesu" y mae y Salmydd yn llefaru. Er yr esbonia rhai y Salm fel un Fessianaidd, y mae rhesymau cryfion yn erbyn y dyb hono. Nis gellir cymhwyso y geiriau at Grist o gwbl; er esiampl, y syndod a amlygir at fawredd yr ymddarostyngiad dwyfol yn gwneyd sylw o ddyn. Ceir gweled eto pa fodd y mae yr Apostol yn dyfynu y Salm hon wrth ymdrin â pherson y Duw-ddyn.

Adn. 7: *Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angelion.* Ychydig o ran *graddau* yw ystyr yr Hebraeg; ond ychydig o ran *amser* yw ystyr cyfieithiad Groeg y Deg-a-thriugain, yr hwn a ddefnyddia yr Awdwr yn barhaus. Dywedir y gall yr Hebraeg olygu "creu mewn cyflwr is;" ond nas gall y Groeg yn y cyfieithiad ond golygu "darostwng o gyflwr uwch." Y cyfieithiad o'r Hebraeg fuasai "dros ychydig yn is na Duw," "yn is na'r duwiau." Elohim yw y gair Hebraeg am Dduw nid fel bôd personol, ond o ran y priodoliaethau sydd yn hanfodol iddo fel Duw, y rhai hefyd a ystyrir, mewn ystyr israddol, yn perthynu i'r angylion, a'r rhai a elwir weithiau yn dduwiau. *A gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef.* "Gogoniant"—y rhagoriaeth yn cael ei ddadguddio; a'r "anrhydedd"—y parch a delir, fel effaith hyny, gan eraill. *Ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw.* Y mae ansicrwydd mawr pa un a yw y geiriau hyn yn rhan o destyn gwreiddiol yr Epistol. Y maent allan o rai o'r llawysgrifau hynaf, a'r cyfieithiadau hynaf; ond y maent i mewn yn y lleill. Y maent yn y Salm y dyfynir o honi, pa fodd bynag. Gallai nad oedd yr awdwr am ddyfynu ond yr hyn a wasanaethai ei amcan yn uniongyrchol.

Adn. 8: *Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef.* Hyn oedd ystyr y "coroni," a hyn oedd rhagorfraint y brenin. *Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo.* Dealla yr ysgrifenydd fod "pob peth" y Salm yn cynnwys yr holl greadigaeth. Felly darostyngir yr holl greadigaeth, ac felly yr angylion, i ddyn; o ganlyniad ni ddarostyngwyd y byd newydd iddynt hwy. Y mae holl greadigaeth Duw i'w darostwng i ddyn. Dyna y pryd y cyflawnir y brophwydoliaeth hon. *Ond yr awrhon nid ydym ni eto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo.* Gall y gair a gyfieithir "yr awrhon" olygu amser, neu yn unig ystyr ymresymiadol—'yn awr yn wyneb y pethau hyn.' Esbonia rhai y geiriau yn eu hystyr fwyaf llythyrenol. Y mae aniaa, mewn rhan, yn ddarostyngedig i ddyn, ond nid yn gwbl felly—nid yw "pob peth" wedi eu darostwng iddo. Rhaid i ddyn ufuddhau i ddeddfau natur,

Sylwa Principal Edwards, yn erbyn y golygiad hwn, nad yw Duw byth yn darostwng yn ddi-ddeddf, ond yn ol deddf. Ond gellir ateb i hyn eto, fod nerthoedd anian weithiau yn cario dinystr i ddyn er heb droseddu yr un o'i deddfau, megys mewn mellt a thymhestloedd, a daeargrynfäau. Y mae y sylw arall a wna Principal Edwards yn cyfarfod â hynyna, dybygem: sef mai yn yr Iesu y sylweddolir darostyngiad pob peth dan draed dyn; ac mai y meddwl yw "yr oll" (megys y mae yn y gwreiddiol, nid "pob peth")—"yr holl greadigaeth yn ci *dadblygiad* o gyfnod i gyfnod, ac yn yr amcanion a gyrhaeddir drwyddi." Yn yr ystyr eang hon y dywedir na ddarostyngwyd pob peth i ddyn eto. "Y mae y darostyngiad hwn eisoes yn mwriad Duw, ac yn nghûdd yn y greadigaeth. Ond nid yw wedi ymagor fel y gallom ni ei *weled*."—(Edwards.)

SABBOTH, MEHEFIN 29AIN. HEB. II. 9, 10.

ADN. 9: *Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu, yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion, o herwydd dyoddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd; fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn.* Y mae gwahaniaeth prydferth, fel y sylwa Dr. Thomas, rhwng y ddau air yn y gwreiddiol a gyfieithir trwy yr un gair "gweled" yn yr adnod flaenorol ac yn hon. Arwydda y blaenaf gweled trwy sylwi a chraffu. Arwydda y llall gweled yn eglur, heb ymdrech, fel gweled yr haul ganol dydd. Dywed Principal Edwards mai y gwahaniaeth rhwng y ddau air yw—gweled â'r llygad, a gweled â'r meddwl. Beth yr ydym yn ei "weled" fel hyn? Nodwn ddau olygiad ar gystrawen y geiriau, er fod tri yn bosibl. Beth yw gwrthddrych uniongyrchol y ferf "gweled?" Yr ystyr gyntaf a mwyaf naturiol, dros yr hon y dadleua Ebrard ac eraill yw, mai *Iesu* yw y gwrthddrych, a bod y geiriau "yr hwn a wnaed ychydig is na'r angelion," yn ddynodiad ychwanegol o hono (yn unol â'r cyfieithiad Cymreig). Y cystrawiad arall yw rhoddi y frawddeg "yr hwn a wnaed, &c.," yn wrthddrych uniongyrchol y ferf, a'r gair "Iesu" yn cael ei ychwanegu er dynodiad mwy pendant *(in apposition and epexegetical)*: "Yr ydym ni yn gweled yr hwn a ddarostyngwyd dros ychydig amser yn is na'r angylion, sef Iesu," &c. Y mae cyfiad y geiriau yn y gwreiddiol, dybygem, yn ffafrio y cystrawiad yna fel yr un mwyaf naturiol. Sylwa Principal Edwards fod yn bwysig cymeryd y cyfiead hwn yn hytrach na'r llall, am ei fod yn rhoddi pwyslais ar y syniad mai *Un* a *ddarostyngwyd* yn is na'r angylion, sef y dyn Iesu, a hyny trwy ddyfod yn ddyn, gan fod yr Awdwr yn seilio ei ymresymiad ar ystyr y gair "darostwng," sef "gwneyd yn is yr hwn oedd o'r blaen yn uwch."

Beth yw cysylltiad y geiriau "o herwydd dyoddef marwolaeth?" neu "o herwydd dyoddefaint ei farwolaeth"—*τὸ πάθημα του θανατου*—(nid y ffaith o farw yn unig, ond natur iawnol y dyoddefiadau—Edwards). Cysyllta amryw esbonwyr y geiriau â'r hyn sydd o'u blaen "a wnaed ychydig is na'r angylion"—rhai o honynt yn yr ystyr mai y *modd* y gwnaed ef felly oedd trwy iddo ddyoddef marwolaeth; eraill mai *amcan* ei wneyd felly oedd fel y gallai ddyoddef marwolaeth. Ond y mae y nifer liosocaf, a'r rhai goreu, feddyliem, dros eu cysylltu â'r hyn sydd yn dyfod ar eu hol, ac hefyd cyfiead y geiriau yn y gwreiddiol: —"sef Iesu, trwy ddyoddefaint ei farwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd." Y mae Bruce, yn ei lyfr rhagorol ar Ddarostyngiad Crist, wedi syrthio mewn cariad neilldnol â'r golygiad mai y dyoddefaint a'r angeu *oedd* y coroni â gogoniant ac anrhydedd—neu ei neilldnad i ddyoddef a marw, ei ogoneddu *i fod* yn Archoffeiriad. Dygir dau reswm yn erbyn hyn:—(1) Y mae yn difodi prif ystyr y darostyngiad. (2) Dengys y gair "o herwydd" mai *canlyniad* y dyoddefaint oedd y coroniad ac nid yr un peth a'r dyoddefaint. (Edwards.) Y mae y dyn Iesu eisoes wedi esgyn i'r arglwyddiaeth a nodir yn y Salm fel yn perthyn i ddyn, a hyny trwy farw. Y mae y golygiad hwn, fel y sylwa Dr. Thomas, yn ateb dau ddyben pwysig yn ymdriniaeth yr awdwr. (1) Dengys mai nid i'r angylion, ond i'r *dyn* Crist Iesu y mae "y byd a ddaw" wedi ei ddarostwng. (2) Cyferfydd â phrif wrthddadl yr Iuddew yn erbyn yr Iesu fel Messiah, sef ei iselder a'i farwolaeth, trwy ddangos fod yr arglwyddiaeth uchel hon wedi ei hennill trwy farwolaeth. Dyna oedd sail a rheswm ei ddyrchafiad.

Fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn. Y mae hen ddarllenlad hynod i'r geiriau hyn—yn lle *gras* Duw, *heb* Dduw, neu *oddieithr* Duw. Er fod esbonwyr mor alluog a Bengel ac Ebrard yn dadleu drosto, a bod ei hynafiaeth a'i anhawsder yn ymddangos o'i blaid, eto rhaid cofio nad yw ond mewn un lawysgrif, a wnaed yn y ddegfed ganrif, a chydnabyddir bron fel sicrwydd erbyn hyn mai darlleniad y Testyn Derbyniedig yw yr un cywir. Y mae modd ac amseriad y ferf a gyfieithir "y profai efe" yn bwysig—y modd ammodol a'r

amser gorphenol: "fel y byddai y farwolaeth a brofasai efe yn un dros bob dyn"—neu, yn un er budd dynion yn gyffredinol. Gogoneddwyd ef er sicrhau perthynas ei farwolaeth â dynion—yr Iesu fel cynnrychiolydd dyn yn uwch na'r angylion. Addefa y prif esbonwyr nad yw y syniad machnïol o'i farwolaeth—"yn lle"—yn dyfod i mewn yma o gwbl. "Profi"—profi blas, archwaethu.

Adn. 10: *Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wedi iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau.* Cyfyd dau gwestiwn yma. Beth yw y cystrawiad? a pha beth yw cysylltiad y meddwl â'r adnod flaenorol? Ymddibyna y blaenaf ar yr olaf. 1. Beth yw y *prif* osodiad yn yr adnod—pa un ai "y perffeithio trwy ddyoddefiadau," ai y "dwyn meibion lawer i ogoniant?" Y blaenaf, yn ol y cyfieithiad Cymreig. Y meddwl yn ol y cystrawiad hwn ydyw—Os yw Duw wedi, neu yn, neu am ddwyn meibion lawer i ogoniant, yna rhaid iddo berffeithio yr hwn a osododd efe i fod yn Dywysog, neu Gadben eu hiachawdwriaeth, trwy ddyoddefiadau. Y mae y pwyslais ar "trwy ddyoddefiadau." Dyoddefiadau yn anghenrheidiol—dyna gnewyllyn y meddwl. 2. Beth yw cysylltiad y meddwl â'r adnod flaenorol? Dywed yr adnod hono fod y dyn Iesu wedi ei ddyrchafu i'r gogoniant uwchaf fel y byddai dyoddefaint y farwolaeth a brofasai er budd cyffredinol i ddynion. Ond y mae hyn yn naturiol yn cyfodi gwrthddadl fawr yr Iuddew yn erbyn Cristionogaeth. Paham yr oedd y *Messiah* yn dyoddef ac yn marw? Ateba yr Apostol—fod yn *rhaid* i Grist ddyoddef y pethau hyn tuag at fyned i mewn i'w ogoniant, am fod hyny yn *weddus* i Dduw. (Y mae gweddusrwydd a rheidrwydd *yr un peth* gyda Duw, er nad yw gyda dynion; beth bynag sydd yn "weddus" iddo Ef, yn deilwng o'i fawredd dwyfol, ac yn unol âg egwyddorion ei natur a deddfau ei lywodraeth, hyny *a fydd*—y mae yn *rhaid* iddo fod.) Yr oedd hyn yn weddus i'r Duw sydd yn amcan ac yn awdwr "pob peth"—nid pob peth yn gyffredinol yma, ond "pob peth" iachawdwriaeth—yr Un sydd yn goruwchreoli ac yn dwyn ymlaen yr holl gynllun mawr. Dengys adn. 9 fod y dyrchafiad yn anghenrheidiol i weithio allan amcan y darostyngiad. Ond *paham* y darostyngiad? medd yr Iuddew. Dengys yr adnod hon fod y darostyngiad yn ammod anhebgorol y dyrchafiad. Yr oedd y darostyngiad a'r dyrchafiad yn anghenrheidiol i'w gilydd; a dangoswyd yn y bennod 1af fod yr urddas gwreiddiol yn anghenrheidiol i'r ddau.

Y cystrawiad arall yw:—"Gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau, fel un oedd yn dwyn meibion lawer i ogoniant." Ar y geiriau olaf y mae y pwyslais yn ol y cystrawiad hwn. Yr oedd yn rhaid perffeithio trwy ddyoddefiadau yr Un oedd i fod yn Dywysydd dynion i ogoniant. Perffeithrwydd haeddiant a pherffeithrwydd cymhwysder—hawl i arwain a gallu i arwain—y ddau wedi eu hennill trwy ddyoddef. Dadleua Ebrard dros y cystrawiad hwn; a sylwa mai dyma un o neillduolion arddull yr awdwr ei fod yn gosod (yn fynych) y *prif* osodiad yn amgylchedd *(periphery)* ei frawddegau. Dywed yr un esboniwr hefyd fod hyn yn gwneyd cyfochredd prydferth rhwng yr adnod hon a'r un flaenorol: yr Iesu personol yn y flaenaf yn niwedd y frawddeg (yn ol y cyflead a roddwyd yno); a'r Tywysog yn niwedd hon. Yr awrhon yr *Iesu* yn unig a ddyrchafwyd; ond y mae wedi ei ddyrchafu fel *Arweinydd eraill.*

Gwelir fod y meddwl yr un o ran sylwedd yn y ddau gyflëad; y gwahaniaeth yw fod y pwyslais yn cael ei roddi yn y blaenaf ar y *dyoddefiadau*, ac yn yr olaf ar y *rheswm* am y dyoddefiadau—sef fod yr Iesu yn Dywysydd dynion i ogoniant. Anhawdd yw penderfynu a yw y "meibion lawer" yn cyfeirio at saint yr Hen Destament, ynte at yr holl dyrfa waredol. Y mae llawer i'w ddyweyd dros y ddau, ond mwy dybygem dros yr olaf. Ymddengys y syniad blaenaf braidd yn fychan i'w ddwyn i mewn arno ei hun fel rheswm am beth mor dra mawr a dyoddefaint ac angeu y Gwaredwr, tra y mae yn cael ei gynnwys yn y syniad arall. Ymddengys y golygiad arall i ni yn fwy cydweddol â graddeg fawr y pethau y sonir am danynt:—Mab Duw yn ymddarostwng ac yn cael ei ddyrchafu er mwyn dwyn "meibion lawer" o blith dynion ato ei hun i ogoniant—"Cyntafanedig ymhlith brodyr lawer"—y "Gwas cyfiawn yn cyfiawnhâu llawer." Rheswm arall, dybygem ni, yn erbyn deall y geiriau yn unig am y saint a fuant feirw o dan yr Hen Destament, yw y gair "meibion." Os hwy a feddylir, paham y gelwir hwynt yn "feibion?" Nid yw dyweyd eu *bod* yn feibion i Dduw yn ateb yn y byd. Paham y defnyddir y gair neillduol hwn i'w gosod allan, os hwy yn unig a feddylir? Ond ar y dybiaeth arall, y mae yma wirionedd newydd a phwysig yn dyfod i mewn i'r

ymresymiad. Ai defnyddio y gair "meibion" a'i hawgrymodd i'r Apostol? Ai ynte a ddefnyddiodd efe y gair o bwrpas i arwain i'r gwirionedd newydd, yr hwn a agorir yn helaethach yn yr adnodau dilynol? Nid yn unig y mae yr un *dyn* Iesu yn dwyn llawer o *ddynion* ar ei ol i ogoniant ond y mae yr un *Mab* yn dwyn "*meibion* lawer" ar ei ol. Codir hwy i berthynas agos â Duw, cyffelyb i'w berthynas Ef ei hun â Duw (mor bell ag y mae hyny yn bosibl). Yn ei fabolaeth mawr Ef, gwneir hwythau yn feibion i Dduw.

Barddoniaeth.

ER COF

Am Mr. RICHARD JONES, *Shop Newydd, Dolgellau, yr hwn a fu farw Chwefror* 22, 1890.

AWEN fwyn, O, dyro gymhorth,
Hyn a archaf genyt ti,
I ddarlunio llawnder calon,
Yn ymarllwys fel y lli';
Dyro gymhorth i ddesgrifio
Hiraeth llawn fy nghalon friw,
Dyro hefyd fodd i gariad
Wylo dagrau gloyw byw.

Llawer sydd yn gwybod heddyw
Beth yw trymder colled fawr,
Colli gwron ieuanc dysglaer,
Aiddgar, effro, ar bob awr;
Nid oedd bywyd iddo 'n sylwedd
Os na fyddai 'n llawn o waith,
Credu, gweithio a gweddïo
Oedd ei nerth ar hyd ei daith.

Ca'dd ei feithrin o'i fabandod,
Yn arferion rhin a moes;
Hauwyd ynddo pan yn blentyn,
Egwyddorion pur ei oes;
Ca'dd fanteision rhïaint enwog,
Feddent fywyd crefydd bur;
Eu huchelgais oedd cysegru
Oes eu plant o blaid y gwir.

Ardal brydferth Talysarnau
Oedd y fan y magwyd ef;
Golygfeydd amrywiol daear,
Hyd i uchder ser y nef,
Ymagorent yn feunyddiol,
Gyda gwersi didwyll iawn;
Dysgai yntau mewn myfyrdod
Er diwyllio pob rhyw ddawn.

Ei Greawdwr blanodd ynddo,
Benderfyniad pur ei fron,
I ragori mewn daioni
Tra yn teithio 'r ddaear hon;
Yn mlaen, yn mlaen, Yn uwch yn uwch,
Ymddysgleirient ar ei wedd;
Wrth gyflawni ei uchelgais,
Teimlai fywyd llawn o hedd.

Fel masnachwr pur diflino,
Mynai wneyd ei waith yn iawn;
Cysegredig oedd i amser,
Gwnai ei oriau oll yn llawn;
Llawn o fywyd, llawn o feddwl,
Llawn amcanion pur dilyth,
Iddo ef ni fyddai 'r Nefoedd
Amgen gwaith a bery byth.

Ennill wnaeth ynglŷn â'i fasnach
Ymdd riedaeth llawn a maith;
Teilwng iddo oedd ei lwyddiant,
Fel canlyniad ffyddlawn waith:
Credai ef fod gwaith yn ddwyfol,
Nad oedd bendith hebddo 'n bod,
Ac mai 'r gweithiwr yn y diwedd
Ga'i anrhydedd pur a chlod.

Yn mhob cylch o ddefnyddioldeb,
Teimlai 'n hyfryd gwneyd ei ran;
Rho'dd ei fryd ar wella addysg
Cymru fechan yn mhob man;
Gwasanaethodd am flynyddau.
Ar Fwrdd Ysgol ei hoff dref,
Ac ynglŷn â'r prif golegau,
Unol iawn etholwyd ef.

Syniai ef mai amcan bywyd
Ydoedd gwella cyflwr dyn,
Gwneuthur arall yn fwy dedwydd,
Nid ymdreulio arno 'i hun;
Yr egwyddor hon o fywyd
Ymddadblygai ynddo 'n gref;
Ymddangosai yn ei actau
I drigolion gwlad a thref.

'R oedd ei galon yn ffynnonell
Caredigrwydd eang, pur;
Ymbleserai mewn haelioni,
Chwiliai allan gwynion cur:
Ni chai 'r tlawd a'r gorthrymedig
Byth eu gwrthod yn eu cais;
Efelychai ei Waredwr
Wrth liniaru poen a thrais.

Nid anghofir ei ymroad,
A'i wybodaeth ymhob swydd;
Mynai ddeall pob peth drwyddo,
Er mwyn gwneyd ei waith yn rhwydd:
Gyda 'r ysgol gu Sabbothol
Tynai sylw yr holl wlad;
Yma 'r oedd ei bleser penaf,
Ennill wnaeth ei galon fâd.

Rhanodd gannoedd o wobrwyon,
Er mwyn meithrin llafur gwir,
Dygodd hyn dalentau dysglaer
I ffyddlondeb yn y tir:
Hyfryd ydoedd edrych arno,
Yn Nghymanfa fawr yr ŷyl,
Yn llawn bywyd a sirioldeb,
Gyda 'r plant yn llawn o hwyl.

'R oedd ei awydd yn angerddol,
Am i Gymru gadw 'r bla'n
Yn ei zel a'i pharch i'r Bibl,
Yn ei Christionogaeth lân:
Hyn a barai ei ymroddiad,
Gydag addysg plant yr oes;
Diysgogrwydd oedd ei yni,
Dros y Gŵr fu ar y groes.

Teimlir chwithdod dwys a galar
Yn ei eglwys ar ei ol;
Collodd Salem ynddo swyddog
Oedd yn anwyl yn ei chôl:
'R oedd yn ddyfal mewn ffyddlondeb
Gwnai bob gorchwyl yn ei bryd;
Nid oedd oedi yn ei natur,
Gwneyd a darfod lanwai 'i fryd.

Ond o'r diwedd daeth y terfyn,
Rhaid oedd gadael llafur byd,
Newid gwaith a newid safle,
Am orphwysfa nefoedd glyd;
Ca'dd well gwaith na rhanu gwobrau,
Sef eu derbyn gan ei Dduw;
Derbyn coron, derbyr bywyd,
Hedd ac anfarwoldeb gwiw.

Yn ei gystudd mewn tawelwch,
Arddangosai hyder ffydd;
Ei amynedd a'i dangnefedd
Wnaeth ei nos yn oleu ddydd;
Cyn ymadael gyda gwenau,
Sibrwd wnaeth fod ganddo Dduw
Lanwai bob addewid iddo,
Er ei farw i gael byw.

Gwelai angeu er 's wythnosau,
Heb ei golyn i roi braw;
Gwelai wyneb siriol Iesu
A thangnefedd yn ei law;
Yn ei gwmni teimlai 'n dawel,
Safai 'n eofn a digryn,
Ac yn nghysgod ei Waredwr
Cafodd goncwest yn y glyn.

Nid ynganodd un grwgnachiad,
Ni chadd gwg dd'od ar ei wedd,
Ond yn wrol mewn llawenydd,
Suddai i lawr yn llawn o hedd;

Hunodd, hunodd, yn llyth'renol
Aeth o'r golwg heb un braw;
Ar y breichiau mawr tragwyddol
Glaniodd fry i'r bywyd draw.

Profodd i ni yn ei gystudd
Mai nid breuddwyd ydyw byw,
Mai nid ofer yw ymdreulio
Mewn ffyddlondeb gyda Duw;
Nerth ei grefydd ddygodd iddo
Bob cadernid y pryd hyn;
Chwalodd ffydd bob rhyw dywyllwch,
Aeth yn oleu yn y glyn.

Gorphwys, bellach, frawd anwylaf,
Hyn yn ddiau ddaeth i ti;
Tawel orphwys wna 'r lluddedig,
Yn y Ganaan hyfryd fry;
Cefaist farw dan dy goron,
Coron y cyfiawnder pur;
Cefaist fywyd heb y trallod,
Iechyd llawn heb boen na chur.

BRAWD.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

YN Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Llanelltyd, Ebrill 14 a'r 15fed, agorwyd y mater, "Lle y ddeddf foesol mewn crefydd" yn gryno a medrus gan y Parch. D. Roberts, Rhiw, a chyflwynwyd diolchgarwch y cyfarfod iddo. Ymdriniwyd yr ail ddydd am y "fantais o ddylyn y Cyfarfod Eglwysig."

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Tabor, Ebrill 9 a'r 10fed, darllenwyd Adroddiad am y Gynnadledd a gynnaliwyd yn Aberystwyth mewn cysylltiad â Jiwbili y Genadaeth Dramor, ac ymofynwyd a oedd y trefniadau y cytunwyd arnynt yno yn cael eu cario allan? Awdurdodwyd yr Ysgrifenydd, y Parch. John Thomas, i argraffu amryw filoedd o emyn y Parch. T. Levi ar y Jiwbili, i'w lledaenu yn y cynnulleidfäoedd. Dangoswyd teimlad dwfn a gobaith cryf y bydd i'r holl eglwysi ymgodi at bwysigrwydd yr amgylchiad pres-ennol. Gosodwyd ar yr Ysgrifenydd i gyflwyno cydymdeimlad y frawdoliaeth â theuluoedd amryw o frodyr ymadawedig—Mri. Edward Lloyd, Blaenplwyf; John Richards, Rhydlwyd; W. P. Williams, Aberystwyth; a John Howells, Cwmergyr. Ac hefyd â Mr. D. Jenkin Davies, Y.H., Aberystwyth, am y brofedigaeth fawr a'i goddiweddodd yn marwolaeth ei anwyl briod (wyres y Parch. David Charles, hynaf, Caerfyrddin), yr hon yr oedd ei chlod mor gyffredin trwy y dref ar gyfrif ei rhinweddau dysglaer, a'i chymwynasgarwch i'r anghenus a'r trallodedig.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Prion, Ebrill 24 a'r 25ain, cyflwynodd W. Williams, Ysw., Llewesog Hall, lythyr yn hysbysu ei fod yn rhoddi tri chant o bunnau, yn ychwanegol at ei roddion blaenorol, i wahanol achosion perthynol i'r Cyfundeb yn y Sir. Dadganwyd diolchgarwch gwresog y Cyfarfod Misol i Mr. Williams am ei haelioni.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA RHOSLLANERCHRUGOG.

EBRILL 9, 10, A'R 11EG, 1890.

LLYWYDD,—Y Parch. W. DICKENS LEWIS, D.D., Amwythig.

(*Parhad o tu dal.* 193.)

XXI. *Y Parch. G. Parry, D.D.*—Galwodd y Parch. O. Thomas, D.D., sylw y Gymdeithasfa at y ffaith fod Dr. Parry wedi dychwelyd yn ol i gylch Cymdeithasfa y Gogledd. Penderfynwyd,—Ein bod yn ei groesawu yn ol, gan obeithio y bydd iddo barhau hyd y diwedd yn ein plith. Cydnabyddwyd y derbyniad gan Dr. Parry.

XXII. *Anerchiad y Cyn-Lywydd.*—Gyda theimladau o brudd-der y darllenwyd gan y Parch. D. Rowlands, M.A., ac y gwrandawyd gan y Gymdeithasfa, yr Anerchiad a barotoisai y diweddar Barch. J. Pritchard, Amlwch, i'w draddodi wrth gyflwyno cadair y Gymdeithasfa i'w olynydd. Penderfynwyd,—Ein bod yn dadgan ein diolchgarwch i Mrs. Pritchard am ganiatâu i'r Anerchiad gael ei ddarllen yn y Gymdeithasfa; ac hefyd, gan fod yr Anerchiad yn cynnwys pethau mor werthfawr, ei fod i'w gyhoeddi

yn y Drysorfa, gan fawr obeithio am i'w gynnwys gael sylw priodol.

XXIII. *Adroddiad Pwyllgor y Gwaddoliadau.*—Cadarnhawyd Adroddiad Pwyllgor y Gwaddoliadau a gyflwynwyd i'r Gymdeithasfa o'r blaen; a phenodwyd personau yn Fwrdd o Ymddiriedolwyr, gyda'r Parch. J. Williams, B.A., Ffestiniog, yn Ysgrifenydd i'r cyfryw Fwrdd.

XXIV. *Achos Criccieth.*—Darllenwyd Adroddiad o weithrediadau y Pwyllgor ar Achos Criccieth, ynghyd a llythyr oddiwrth yr eglwys ar yr achos.—Wedi hir ymdriniaeth ar Adroddiad y Pwyllgor a benodasid i chwilio i mewn i'r priodoldeb o ganiatâu adeiladu Capel newydd ychwanegol yn Nghriccieth, ac wedi darllen llythyr oddiyno oddiwrth y cyfeillion sydd yn dymuno cael hyny, cytunwyd ar y penderfyniad canlynol:—Ein bod fel Cymdeithasfa, ar ol gwrandaw yn astud a gofalus ar yr Adroddiad manwl a chyflawn a gyflwynwyd i ni gan y Pwyllgor, yn teimlo yn dra diolchgar iddynt am y llafur, y ffyddlondeb, a'r pwyll, a ddangoswyd ganddynt yn eu hymdriniaeth â'r cwestiwn hwn fel gyda'r holl Achos er y pryd yr ymddiriedwyd ef i'w gofal; a'n bod hefyd yn derbyn ac yn cymeradwyo eu Hadroddiad yn hollol, ac yn methu gweled fod yn bosibl iddynt yn ngwyneb y ffeithiau a ddygwyd ger eu bron ddyfod i un penderfyniad gwahanol.—Penderfynwyd hefyd, yn ngwyneb y llythyr a dderbyniwyd o Griccieth oddiwrth y cyfeillion sydd am gael capel arall, pa beth bynag a benderfyna y Gymdeithasfa gyda golwg ar y cwestiwn:—Ein bod yn dymuno hysbysu i'r cyfeillion hyny, os myned rhagddynt a wnant i adeiladu capel arall yno, yn wrthwyneb i benderfyniad y Gymdeithasfa, y gwnant hyny yn hollol ar eu cyfrifoldeb eu hunain, ac y byddant trwy hyny yn tori pob cysylltiad â ni fel Cyfundeb, ac nas gallwn mewn un modd eu hystyried yn dal unrhyw berthynas â ni.—Ymhellach penderfynwyd,—Ein bod yn dymuno ar Lywydd y Gymdeithasfa, gyda Mr. E. Griffith, Y.H., Dolgellau, ymweled â'r Eglwys ar ran y Gymdeithasfa i gyflwyno y Penderfyniad hwn iddi.

XXV.—*Jiwbili y Genadaeth Dramor.*—Galwyd sylw at y symudiad gyda golwg ar hyn gan y Parch. G. Ellis, M.A., a mynegai fod rhai o'r Siroedd, yn enwedig felly Dyffryn Clwyd, Gorllewin Meirionydd, &c., wedi dechreu casglu yn effeithiol a llwyddiannus. Llawenhai y Gymdeithasfa ddeall hyny, gan obeithio ac annog ar i'r oll o'r Cyfarfodydd Misol wneyd eu rhan yr un mor llwyddiannus ac effeithiol.

XXVI. *Adeg penodiad Arholydd Cymdeithasfaol.*—Galwyd sylw at y Cofnodiad geir ar waelod tu dal. 7, *Cylchlythyr* Cymdeithasfa Llanfaircaereinion,—"Y gelwir sylw yn Nghymdeithasfa Mehefin at y dymunoldeb o fod yr Arholydd yn yr Arholiad Cymdeithasfaol yn cael ei benodi yn y Gymdeithasfa hono," &c.; ac fel na choller blwyddyn eto, penderfynwyd,—Fod yr Arholydd i'w benodi yn y Gymdeithasfa nesaf, a'n bod yn dymuno am i'r Arholwyr presennol wneyd y parotoadau angheurheidiol tuag at hyny.

XXVII. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Hysbyswyd gan y Parch. G. Parry, D.D., mai y testyn y cytunodd y Parch. O. Thomas, D.D., ac yntau arno, ydyw,—"Y pwys o fod yn ffyddlawn i wirionedd yr Efengyl, a'i gyflwyno yn y modd mwyaf cyfaddas i agwedd meddwl a chrefydd y dyddiau hyn." Penderfynwyd y testyn hwn i fod dan ystyriaeth yn Nghyfarfod y Pregethwyr.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Dydd Iau, Ebrill 10fed.

Am 9 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr, a Chyfarfod y Blaenoriaid.

Yn Nghyfarfod y Pregethwyr, yr hwn a ddechreuwyd drwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. D. Williams, Tremadoc, cymerwyd y testyn y cytunwyd arno y nos o'r blaen dan ystyriaeth. Cymerwyd rhan yn y drafodaeth gan y Parch. G. Parry, D.D., Carno; Prof. H. Williams, M.A., Bala; D. Jones, Garegddu; R. Owen, Wyddgrug; a J. Hughes, D.D., Caernarfon.

Terfynwyd drwy weddi gan y Parch. O. Hughes, Llangefni.

Am 10 30 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. B. Hughes, Llanelwy.

XXVIII. *Adroddiad Cyfeisteddfod Trysorfa y Gweinidogion.*—Cyflwynwyd yr Adroddiad canlynol o weithrediadau Cyfeisteddfod Trysorfa y Gweinidogion gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A., a chadarnhäwyd ef:—

Yr oedd yn bresennol o *Fôn*, Mr. E. Roberts, Llangefni; o *Leyn ac Eifionydd*, Meistri John Ellis a Robert Rowland; o *Arfon*, y Parch. R. R. Morris a Mr. Edward Jones; o *Ddyffryn Conwy*, y Parchn. John Williams a William Roberts; o *Ddyffryn Clwyd*, y Parchn. B. Hughes ac Evan Jones, a Mr. Owen Williams; o *Sir Fflint*, y Parchn. Robert Owen ac O. B. Jones, a Mr. J. E. Powell; o *Ddwyrain Meirionydd*, y Parch. Hugh Williams, M.A.; o *Orllewin Meirionydd*, y Parch. David Jones; o *Drefaldwyn Uchaf*, Mr. Richard Owen; o *Drefaldwyn Isaf*, y Parch. John Hughes a Mr. Thomas James; o *Henaduriaeth Trefaldwyn*, Mr. E. R. James; o *Henaduriaeth Lancashire*, y Parch. J. Calvin Thomas; o *Liverpool*, y Parch. O. J. Owen, M.A., a Mr. John Williams; o *Manchester*, Meistri Robert Lloyd a Morgan Williams. Ac o'r Ymddiriedolwyr yr oedd Mr. Edward Griffith yn bresennol. Etholwyd Mr. Robert Rowland yn Gadeirydd.

1. Cyflwynwyd yr Adroddiad am 1889. Dangosai fod y derbyniadau o'r Cyfarfod Misol a'r Henaduriaethau am y flwyddyn yn £719 3s., a'r llogau yn £1190 2s. 10c.; yn gwneyd cyfanswm o £1909 5s. 10c. Yr oedd y taliadau i aelodau a'u teuluoedd yn £1318 10s. 10c., a'r treuliadau cyffredinol yn £102 9s. 5c.; yn gwneyd cyfanswm o £1422 0s. 3c. Wedi tynu hyny allan o £1909 5s. 10c., y mae yn aros mewn llaw ar gyfrif y flwyddyn

£487 5s. 8c. Gwerth y Drysorfa ar ddiwedd 1889 oedd £27,148 1s. 8c.—2. Penderfynwyd fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i ledaenu, fel yn y blynyddoedd o'r blaen, ymysg aelodau a charedigion y Drysorfa.—3. Ymofynwyd i'r hyn oedd wedi ei wneyd yn ystod y flwyddyn i gyfarfod âg addewid Mr. Davies o Landinam, a chaed nad oedd yr oll a ddaethai i law y Trysorydd Cyffredinol at yr amcan hwn ond £148 13s. 11c.; ac nad oedd yr oll a dderbyniasid am y pedair blynedd diweddaf i gyfarfod â'r £4655 14s. 10c., sef y swm a nodasid yn ol pedair ceiniog ar ddeg am bob aelod i gyfarfod cynnygiad Mr. Davies, ond £773 10s. Rhoddid ar ddeall fod ymdrech yn cael ei gwneyd yn y gwahanol Siroedd yn y ffordd yma, a phenderfynwyd fod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 1891, fel na byddo yn cael ei adael i lusgo, ac felly i lesteirio ein hymdrechion gydag achosion da eraill. Deallid hefyd fod arian mewn rhai o'r Cyfarfodydd Misol, &c., wedi eu casglu at yr amcan hwn, ond yn cael eu cadw yn y manau hyny, yn lle eu hanfon ar unwaith i ddwylaw y Trysorydd Cyffredinol. Dangosid fod hyny yn tueddu i wanhâu yr ymdrech ymhob man; a dymunid yn fawr ar fod pob arian fo wedi eu casglu eisoes, gyda'r oll a ellir gael ynghyd y flwyddyn hon, yn cael eu hanfon mor fuan ag y bo modd i ddwylaw y Trysorydd Cyffredinol.—4. Bu sylw ar y Rheolau, gan fod yr Arolygiad Pum-mlynyddol wedi ei ohirio o'r flwyddyn ddiweddaf hyd y flwyddyn hon. Darllenwyd llythyr oddiwrth yr *Actuary*, yr hwn a ddadganai ei lawenydd fod y Drysorfa wedi cynnyddu ychydig er 1885, ond na ystyriai fod yn ddymunol gwneyd archwiliad arall i'w sefyllfa yn bresennol, ac felly ei fod yn cynghori ar fod pethau yn cael eu gadael i aros fel y maent, hyd oni chesglir y £4000 i gyfarfod â chynnygiad Mr. Davies. Yr oedd yn ofidus gan y Cyfeisteddfod weled, er fod gwerth y Drysorfa yn awr yn fwy o gryn lawer nag ydoedd yn 1885, nad oedd y swm o £733 a dderbyniasid o'r casgliad ychwanegol yn gwneyd ond cyfran fechan o'r cynnydd hwnw, ac fod y gweddill i'w esbonio trwy y lleihâd a wnelsid yn y taliadau allan o honi. Dan y fath amgylchiadau, teimlai y Cyfeisteddfod nad ellid ar hyn o bryd wneyd unrhyw gyfnewidiad pwysig gyda golwg ar y Rheolau; ond gan hyderu yn fawr y ceir fod pethau yn fuan wedi dyfod i ystad fwy boddhaol, penderfynwyd am y flwyddyn hon, fod y swm a delir ar gyfer Amddifaid Aelodau, yn ol Rheol V. § 2, yn cael ei godi o £2 i £3 yr un.—5. Gwnaed cais ar ran brawd oedd wedi bod yn aelod, ac wedi ymadael o'r deyrnas a chael ei daliadau yn ol (Rheol VIII.), ond yn awr wedi dychwelyd, ac yn dymuno dyfod yn aelod o'r Drysorfa eto; penderfynwyd ei fod yn cael gwneyd hyny trwy wneyd ei daliadau i fyny o adeg setyliad y Drysorfa.—6. Bu sylw ar Amddifaid y diweddar Barch. Thomas Hughes, Rhyl, a phenderfynwyd fod £15 yn cael ei ganiatâu ar eu cyfer am y flwyddyn hon eto.—7. Diolchwyd yn gynhes i'r Trysoryddion Cyffredinol, yr Ysgrifenydd Cyffredinol, yr Ysgrifenydd Arianol, yr Ymddiriedolwyr, ynghyd a'r Archwilwyr, am eu gwasanaeth gwerthfawr i'r Drysorfa yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Penodwyd yr un personau i lanw y swyddau hyn am y flwyddyn ddyfodol; ond gan fod yn anghyfleus bellach i Mr. Thomas Lewis, A.S., wasanaethu fel Archwiliwr, a'i fod yn dymuno ymryddhâu, penodwyd Mr. John Griffith, o Egremont, i weithredu gyda Mr. R. W. Jones yn lle Mr. Lewis.—8. Diolchwyd i Mr. Rowland am ei wasanaeth fel Cadeirydd.—DANIEL ROWLANDS, *Ysgrifenydd Cyffredinol.*

Gofidus oedd gan y Gymdeithasfa ddeall am lesgedd iechyd Dr. Gee, Trysorydd Cyffredinol Trysorfa y Gweinidogion. Penderfynwyd,—Ein bod fel Cymdeithasfa yn dadgan ein cydymdeimlad puraf â Dr. Gee, yn anfon ein cofion caredicaf ato, ac yn mawr obeithio y bydd iddo gael adferiad ebrwydd i'w iechyd a'i nerth.

XXIX. *Afiechyd y Parch. T. Jerman Jones.*—Darllenodd y Parch. O. Thomas, D.D., lythyr a dderbyniasai oddiwrth Ysgrifenydd y Genadaeth Dramor yn hysbysu fod ein hanwyl frawd, y Parch. T. Jermau Jones, mewn afiechyd mor drwm ar yr 28 a'r 29ain o Fawrth, pan o fewn mordaith o ddiwrnod i Suez, fel y mawr ofnid fod ei yrfa ddaearol wedi dyfod i'r terfyn, ond ei fod ychydig yn well ar y 30ain, a choleddid gobaith y diwrnod hwnw y gallai fyw i gyrhaedd Lloegr. Derbynid y newydd pruddaidd gyda thristwch mawr gan y Gymdeithasfa.

XXX. *Brodyr i'w Hordeinio.*—Ymddyddanwyd â'r brodyr a ddewiswyd i'w hordeinio (yr oll o ba rai oeddynt bresennol oddieithr Mr. J. R. Evans, Prestatyn), am eu profiad crefyddol gan y Parchn. G. Parry, D.D.; B. Hughes, Llanelwy; J. Williams, Colwyn Bay; a T. Gray, Manchester. Rhoddwyd cynghorion tra chyfaddas iddynt gan y Parch. O. Thomas, D.D., ac wedi cael ar ddeall o Gyfarfod y Blaenoriaid fod eu dewisiad yn rheolaidd, penderfynwyd,—Ein bod yn eu cyflwyno i'w hordeinio.—Penderfynwyd,—Fod dadganiad o'n cydymdeimlad dwysaf yn cael ei anfon at Mr. J. R. Evans, Prestatyn, yn ei afiechyd, ac hefyd at ei dad, Mr. J. Evans, Liverpool.

XXXI. *Cenadwri Gorllewin Meirionydd ar "Ymgeisio am y Weinidogaeth."*—Penderfynwyd,—"Wedi ychydig o ymddyddan difrifol ar y genadwri o Orllewin Meirionydd gyda golwg ar rai yn ymgeisio am y Weinidogaeth, penderfynwyd ar iddi gael ei hanfon i'r amrywiol Gyfarfodydd Misol, a thrwyddynt hwy i sylw ac ystyriaeth y gwahanol eglwysi; gyda dymuniad taer arnynt i fod yn ddyfal mewn ymbiliau a gweddïau i'r Arglwydd barhau i roddi i ni ddynion cymhwys o ran cymeriad, galluoedd, ac ymroddiad i efengylu i'w cydwladwyr anchwiliadwy olud Crist; ac ar yr un pryd i fod yn fwyfwy manwl a gofalus na byddo neb, mewn unrhyw eglwys, yn cael caniatâd i ymaflyd yn y gwaith mawr ond y caffer boddlonrwydd ei fod wedi cael ei alw gan Iesu Grist ei hunan iddo. Penderfynwyd cael adroddiad mewn Cymdeithasfa ddyfodol o'r hyn a fyddo wedi ei wneyd yn y gwahanol Gyfarfodydd Misol gyda golwg ar hyn."

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. R. Richards, Cerygydrudion.

Am 1 30, *Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd drwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. G. Jones, Barrow-in-Furness

XXXII. *Hanes yr Achos.*—Rhoed crynodeb cynnwysfawr o hanes yr Achos o fewn cylch Henaduriaeth Sirodedd Lancaster, &c., gan y Parch. E. Jerman, Wrexham; ac o fewn cylch Cyfarfod Misol Sir Fflint, gan Mr. J. Jones, Coedllai, a'r Parch. Josiah Jones, Fflint. Caed sylwadau ar yr Adroddiadau hyn, ymha rai y cydnabyddid daioni yr Arglwydd yn yr amddiffyn sydd wedi bod dros yr Achos a'r llwyddiant sydd wedi bod arno yn y blynyddoedd diweddaf, ac y llawenheid yn yr olwg ar yr undeb a'r cydweithrediad sydd yn ffynu yn eglwysi yr Henaduriaeth a'r Cyfarfod Misol. Ar sail un sylw a wnaed yn yr Adroddiadau, gan deimlo fod hyny yn ddiffyg cyffredinol yn ein plith, penderfynwyd—Ein bod yn annog y Cyfarfoddydd Misol i g. mhell yr Eglwysi yn ddifrifol i fod yn fwy ffyddlon a phrydlon mewn bod yn bresennol yn yr odfa boreu Sabboth.

XXXIII. *Ordeiniad Mr. Robert Jones, Treuddyn.*—Derbyniwyd a chadarnhäwyd y genadwri ganlynol o Gyfarfod Misol Sir Fflint:—"Mewn Cyfarfod Misol a gynnaliwyd heddyw, Ebrill 10fed, yn Rhosllanerchrugog, cymeradwywyd yn unfrydol ac heb un eithriad, yr hyn a ganlyn:—Ein bod fel Cyfarfod Misol yn dymuno cyflwyno yn gynhes Mr. Robert Jones, Treuddyn, i gael ei ordeinio yn Nghymdeithasfa Mehefin, yr hon sydd i gael ei chynnal yn y Bala. — GRIFFITH OWEN, *Ysgrifenydd.*" — Gan fod Mr. R. Jones yn cael ei alw i wasanaethu yr Achos yn Patagonia, o dan amgylchiadau neilldiol, bernir yn briodol iddo gael ei neilldio i holl waith y Weinidogaeth yn eithriadol

XXXIV. *Cymdeithasfa y Bala.*—Ar ran Eglwys y Bala a Chyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, rhoed y gwahoddiad gwresocaf i'r Gymdeithasfa i'r Bala yn Mehefin nesaf.

XXXV. *Adroddiad Cyfeisteddfod Cyffredinol Athrofa y Bala.*—Cyflwynwyd yr Adroddiad canlynol o weithrediadau Cyfeisteddfod yr Athrofa, gan yr Ysgrifenydd, y Parch. R. H. Morgan, M.A., a chadarnhäwyd ef:—

Cyfarfu Cyfeisteddfod Cyffredinol Athrofa y Bala yn Nghaerlleon, Mawrth 19, 1890. Cadeirydd:—Y Parch. Owen Jones, B.A. Yr oedd yn bresennol y Parchn. John Hughes, D.D.; N. Cynhafal Jones, D.D.; John Pritchard, Birmingham; T. J. Wheldon, B.A.; Hugh Williams, M.A.; John Roberts, Taihen; Thomas Roberts, Bethesda; J. P. Davies, M.A.; Richard Jones, Llanymynech; Mri. D. P. Davies, Deganwy; Prof. Henry Jones; Evan Jones, Bala; John Roberts, Foxhall; Owen Williams, Bodffari; J. Herbert Roberts, M.A.; Edward Jones, Bala; J. Herbert Lewis, M.A.; J. Harrison Jones, a'r Ysgrifenydd.

1. Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodion y ddau Gyfeisteddfod diweddaf.—2. *Y diweddar Barch. Robert Roberts, Dolgellau.*—Penderfynwyd,—Fod y Pwyllgor yn dadgan gyda theimlad dwys y golled y mae yr Athrofa wedi ei chael yn marwolaeth y Parch Robert Roberts, Dolgellau, yr hwn a fu yn gynnorthwywr ffyddlawn i'r sefydliad am lawer o flynyddoedd, a'n bod hefyd yn anfon ein cydymdeimlad diffuant at Mrs. Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth.—3. Hysbyswyd fod Mr. Roberts wedi ysgrifenu rhan helaeth o hanes yr Athrofa, ond heb ei orphen. Penderfynwyd fod yr Ysgrifenydd i gwblhau yr hyn a adawodd Mr. Roberts yn anorphenedig.—4. Penodwyd y Prof. Henry Jones i weithredu ar Isbwyllgor y *statutes*, a Mr. Evan Jones, Bala, ar Isbwyllgor y Llyfrgell, yn lle y diweddar Barch. Robert Roberts —5. *Y Pwyllgor Blynyddol Eleni.*—Gwnaed yn hysbys fod Cymdeithasfa y Bala yn dygwydd rhyw bymthegnos cyn amser arferol terfyniad tymmor yr Athrofa. Awdurdodwyd yr Athrawon i derfynu y term wythnos y Gymdeithasfa, ac er mwyn hyny i fyrhau dysbeidiant y Pasc. Penderfynwyd hefyd,—Ein bod yn anfon cais at gyfeillion Dwyrain Meirionydd i newid diwrnod y pregethu yn y Bala o ddydd Iau i ddydd Gwener, Mehefin 20fed, er mwyn i Bwyllgor Blynyddol yr Athrofa gael cyfarfod nos Lun a boreu Mawrth, Mehefin 16 a 17. Penderfynwyd hefyd fod cyfeillion y Bala i ymddyddan â'u gilydd, ac i ddwyn cais i'r Gymdeithasfa nesaf, ar fod un cyfarfod yn cael ei neilldio i roddi arbenigrwydd i'r Athrofa yn ystod y Gymdeithasfa.—6. *Troi yr Athrofa yn Goleg Duwinyddol.*—Ar ol ymddyddan maith, cytunwyd,—Ein bod fel Cyfeisteddfod yn glynu wrth y penderfyniadau a basiwyd genym ac a gadarnhäwyd gan y Gymdeithasfa amryw weithiau, gyda golwg ar y dymunoldeb o droi yr Athrofa yn Goleg Duwinyddol, a'n bod yn symud ymlaen yn y cyfeiriad hwnw mor fuan ag sydd bosibl. Penderfynwyd,—(1) Ein bod, trwy ddileu dosbarth yr ail flwyddyn, yn dymuno rhyddhau dwylaw yr Athrawon, fel y gallont dalu mwy o sylw i Dduwinyddiaeth y tymmor nesaf, er rhwyddhau y ffordd i droi y Coleg yn hollol dduwinyddol. (2) Ein bod yn parhau i gyfranu Addysg Glasurol i ddosbarth y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn, a'r rhai a basiant yr Arholiad yn mis Medi am y tymmor nesaf. (3) Ein bod yn caniatâu rhyddid i'r Athrawon, mewn ymgynghoriad â'r Arholwyr, i weithredu mewn amgylchiadau neilldiol yn y modd a farnont oreu er les yr Athrofa a'r myfyrwyr—sef i benderfynu pa un ai aros yn y Bala ai ynte myned i'r Colegau Cenedlaethol fyddai fwyaf buddiol i fyfyrwyr neilldiol; a'n bod yn ymrwymo i dalu £10 yr un tuag at gynnorthwyo y sawl a gymeradwyir ganddynt hwy am y flwyddyn nesaf yn unig. —7. *Addysg Dduwinyddol.*—Penderfynwyd, —Ein bod yn gadael trefnu hyn yn nwylaw yr Athrawon. (1) *Dewis Prif Athraw.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn gohirio rhoddi ystyriaeth i r mater yma hyd nes y byddwn yn fwy addfed. (2) *Hebraeg.*— Penderfynwyd,— Ein bod fel Cyfeisteddfod yn teimlo fod yr amser wedi dyfod i ddarpar ar gyfer addysg Hebraeg yn Athrofa y Bala.—8. *Adran Barotoawl.*—Cytunwyd mai dyben yr Adran hon oedd darpar addysgiaeth lled elfenol well a rhatach, yn benaf i bregethwyr ieuainc y Cyfundeb yn Ngogledd Cymru, nag oedd yn eu cyrhaedd mewn ysgolion eraill; ac fod yr adran ar wahan yn hollol i'r Athrofa; ac nad oedd y myfyrwyr i fyned o'r Adran hon i'r Athrofa, ond trwy basio yr Arholiadau y penderfynwyd arnynt yn Nghynllun Llandudno. Dygpwyd hefyd ar gof mai telerau derbyniad i mewn i'r Adran oeddynt, bod yn aelod o'r Cyfundeb, a bod dros 17 oed, talu £5 a phasio yr Arholiad a nodir yn y *Dyddiadur.* Penderfynwyd, Mai dwy flynedd ydyw tymmor arosiad yn yr Adran Barotoawl i fod fel rheol; ond mewn achosion eithriadol, gellir ei gyfyngu i un flwyddyn neu ei estyn i dair yn ol doethineb yr Athrawon. *Y Tâl.*—Penderfynwyd, Mai y tâl yw £5 yr un i holl ysgolheigion yr Adran hon am y flwyddyn gyntaf. Dychwelir tâl yr ail flwyddyn yn ol i bob un a gymeradwyir

yn adroddiad yr arholwyr ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, os bydd adroddiad yr Athrawon hefyd am eu gwaith yn ystod y flwyddyn yn foddhäol. Penderfynwyd, Fod £10 yn cael eu rhanu fel gwobrwyon eleni yn yr Adran Barotoawl, yn ol doethineb yr Arholwyr.—9. *Cyllid.*—Cyflwynwyd Adroddiad manwl gan Is-Bwyllgor Liverpool, ond oedwyd ei gymeryd i ystyriaeth.—10. Penderfynwyd argraffu adroddiadau Is-Bwyllgor y *Statutes* a'r Llyfrgell, at wasanaeth y Cyfeisteddfod.—11 Diolchwyd i'r Cadeirydd a chyfeillion Caerlleon am eu gwasanaeth ynglŷn â'r Pwyllgor.—R. H. Morgan, *Ysg.*

Penderfynwyd, Ein bod yn dadgan ein diolch i'r Athrawon, ac i Ysgrifenydd y Cyfeisteddfod, am eu llafur ymroddedig; Ein bod yn llawenhâu yn llwyddiant yr Athrofa; ac hefyd, Ein bod yn dadgan ein cydymdeimlad â'r Parch. Prof. E. Edwards, M.A., yn wyneb llesgedd ei iechyd. Rhoes y Parch. Prof. H. Williams, M.A., dystiolaeth uchel i'r Efrydwyr, gan sylwi na fu gweithio mwy ymroddedig, na gweithio mwy llwyddiannus, erioed yn yr Athrofa nag sydd yn awr.

XXXVI. *Adroddiad Cyfeisteddfod y Blaenoriaid.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad canlynol o weithrediadau Cyfeisteddfod y Blaenoriaid:—

1. Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodau y Cyfeisteddfod diweddaf.—2. Ymofynwyd i reoleidd-dra dewisiad y brodyr sydd i'w hordeinio eleni, a chaed eu bod oll wedi eu dewis yn ol y rheol. Ynglŷn â hyn, hysbyswyd am afiechyd difrifol Mr J. R. Evans, Prestatyn, un o'r rhai oedd wedi eu dewis, a dymunwyd ar fod y Gymdeithasfa yn dadgan ei chydymdeimlad â Mr Evans ac hefyd â'i dad yn y brofedigaeth a'r gwaeledd mawr y mae yndo.—3. Yn wyneb fod y Cynlywydd wedi marw cyn gorphen tymmor ei lywyddiaeth,—penderfynwyd, Fod y Trysorydd i dalu y swm yn llawn am y flwyddyn i weddw y diweddar Barch. J. Pritchard, a £2 10s. i'r Parch. William James, B.A., am lywyddu yn y Gymdeithasfa ddiweddaf.—4. Dewiswyd trwy bleidlais ddirgel, y Parch. John Hughes, M.A., Machynlleth, i draddodi Araeth ar Natur Eglwys: a'r Parch. D. Charles Davies, M.A., Trefecca, i roddi y Cynghor yn y gwasanaeth Ordeinio yn y Gymdeithasfa nesaf.—5. Darllenwyd papyr rhagorol, a chafwyd ymddyddan cynhes iawn ar y mater penodedig, sef Jubili y Genadaeth Dramor, a phenderfynwyd *(a)* Ein bod yn cyflwyno ein diolchgarwch cynhesaf i Mr. Bebb am ei bapyr rhagorol, ac yn dymuno cael ei argraffu yn y Drysorfa a'r *Goleuad*—a hefyd ein bod yn cael deng mil o gopïau o hono ar *slips* i'w dosbarthu rhwng yr holl Siroedd—a bod y Gymdeithasfa yn dwyn y draul o hyny.—*(b)* Ein bod yn ymdrechu mabwysiadu y cynllun goreu a ellir ymhob Sir i gasglu arian at Drysorfa y Jubili, a hyny ar unwaith, heb golli amser, ac yn gofalu na byddo unrhyw ffeithiau teilwng yn cael eu gadael heb eu gwneyd yn hysbys ymhob cymydogaeth.—*(c)* Fod gofal neilltuol yn cael ei gymeryd i gynnyrchu mwy o ysbryd Cenadol yn yr Eglwysi, a chodi y Cyfarfodydd Gweddïo Cenadol i fwy o sylw, trwy roddi anerchiadau cynhes ynddynt, a nodi testynau newyddion i weddïo, megys—gofyn i'r Arglwydd dywallt ei Ysbryd mewn modd grymus iawn ar yr Efengylwyr brodorol, &c.—Owen Williams, *Ysgrifenydd.*

XXXVII. *Adroddiad Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd Penderfyniadau Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa a gynnaliwyd am 2 o'r gloch ddydd Mercher.

XXXVIII.—*G. W. Taylor, Ysw., U.H.*—Cyflwynwyd Mr. Taylor i'r Gymdeithasfa gan y Llywydd. Y mae efe yn fab i'r diweddar Barch. W. Taylor, Rhosllanerchrugog, ac yn y capel lle y cynnelid y cyfarfod hwn yr oedd Mr Taylor wedi ei ddwyn i fyny yn ei febyd. Rhoddwyd iddo y derbyniad mwyaf croesawgar, yr hwn a gydnabyddwyd gan Mr. Taylor mewn anerchiad gwresog, ymha un y dadganai ei ymlyniad wrth Ymneilldnaeth Cymru, ac yn enwedig wrth y Cyfundeb ag yr oedd wedi ei ddwyn i fyny mewn undeb âg ef.

XXXIX. *Pwyllgor y Gweithredoedd.*—Penderfynwyd, Ein bod i beidio galw Pwyllgor y Gweithredoedd ynghyd, yn unol â Phenderfyniad VII. y Gymdeithasfa hon, hyd wedi y Gymanfa Gyffredinol, er mwyn gweled pa bryd y bydd y llyfr ag y mae Mr. J. Bryn Roberts, A.S., wedi ymgymeryd â'i barotoi, yn debyg o gael ei ddwyn allan. Sylwai y Parch. Dr. Saunders, mai dymunol fyddai i'r Dehau a'r Gogledd weithredu yn unffurf gyda phenodiad Ymddiriedolwyr, &c., a dichon wedi cael y llyfr a grybwyllwyd y gellir gweithredu felly. Penderfynwyd hefyd, fod i ni ohebu â Mr. Bryn Roberts i ymofyn pa mor fuan y gellir dysgwyl y llyfr.

XL. *Adroddiad y Pwyllgor ar eolau Derbyniad i'r Weinidogaeth.*—Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor ar Reolau Derbyniad i'r Weinidogaeth gyda golwg ar Penderfyniad XLVII. v. vi. vii viii. y Gymanfa Gyffredinol ddiweddaf, gan y Parch. T. J. Wheldon, B.A., a phenderfynwyd, Ein bod yn ei dderbyn i'w anfon i'r Gymanfa Gyffredinol nesaf:—"*Rheol* V. Dymuna y Pwy lgor gynnyg fod y Rheol hon yn aros fel y mae yn bresennol.—*Rheol* VI. Os bydd Pregethwr mewn cysylltiad âg eglwys, neu eglwysi, ac yn pregethu yn y cylch hwnw, *o leiaf* un Sabboth yn y mis, gall y Cyfarfod Misol ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa i'w ordeinio, os bydd eglwys, neu eglwysi, ei ofal yn gwneyd cais am hyny, a'r cyfryw gais yn cael ei gefnogi gan dair rhan o bedair o Eglwysi y Dosbarth, neu, lle na byddo un, gan o leiaf ddeg o'r Eglwysi cymydogaethol." "*Ol-nodiad*—O hyn allan nad oes enw un Pregethwr i fod ar y Papyrau a anfonir i'r eglwysi i ofyn am eu pleidleisiau, fel yr arferid."

XLI. *Llyfr Newydd.*—Galwyd sylw at gofiant y diweddar Barch. Robert Williams, Llanuwchllyn, sydd newydd ddyfod o'r Wasg, dan yr enw, "Rhobst Williams, Wern Ddu." Dygid tystiolaeth ffafriol i'r llyfr, a rhoed annogaethau i'w ledaeniad.

XLII. *Cenadwri Annibynwyr Dinbych a Fflint.*—Darllenwyd llythyr oddiwrth Ysgrifenydd Cyfarfod Chwarterol Annibynwyr Dinbych a Fflint yn "gwahodd cydweithrediad holl eglwysi y cylch o bob Enwad mewn ffordd o alw sylw at y llwyddiant masnachol presennol a'n dyledswydd fel gwlad yn ei wyneb." Pender-

fynwyd, Ein bod yn annog y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau i gymhell yr eglwysi yn y rhanau o'r wlad lle y mae llwyddiant ar fasnach, i wylio yn ddyfal na byddo i'r llwyddiant achlysuro ymddygiadau annheilwng, ac i adgofio, dan wenau llwyddiant, ein rhwymedigaeth i haelioni ychwanegol at Achos yr Arglwydd, ac mai adeg fanteisiol fyddai hon, yn y manau y mae llwyddiant, i wneyd ymdrech neilltuol i leihau dyledion y Capelau. Ein bod hefyd yn dadgan ein gwerthfawrogiad o ddymuniadau y llythyr am undeb a chydweithrediad rhwng y gwahanol bleidiau crefyddol gyda golwg ar hyn, ac yn deisyf am i bob cydymdrech yn erbyn llygredigaeth ac yn mhlaid sancteiddrwydd gael eu meithrin eto fwyfwy.

XLIII. *Coffâd am Frodyr Ymadawedig.*—Gwnaed coffâd parchus am y diweddar Barchn. David Jones, Rhuddlan; a Thomas Ashford, Drefnewydd.

Penderfynwyd,—Fod cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn cael ei ddadgan tuag at eu teuluoedd.

XLIV. *Coffadwriaeth Dr. Morgan.*—Adgofiwyd gan y Llywydd y penderfyniad a basiwyd ar hyn yn Nghymdeithasfa Manchester, yn Mehefin 1888, a dadganai obaith nad ydyw y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau yn anffyddlon i'r penderfyniad hwnw.

Terfynwyd drwy weddi gan y Parch. J. C. Thomas, Hoylake.

Dydd Gwener, Ebrill 11eg.

Am 8 30, *Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd drwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. T. G. Roberts, Rhostryfan.

XLV. Cafwyd trafodaeth werthfawr ar y testyn, "Cwymp dyn a phechod gwreiddiol," yn yr hon y cymerwyd rhan gan y Parchn. J. Williams, Bangor; D. Williams, Liverpool; R. Owen, Wyddgrug; O. Thomas, D.D., a J. Hughes, D D.

Terfynwyd drwy weddi gan y Parch. J. D. Evans, Tabernacl.

T. Gwynedd Roberts,
Ysgrifenydd.

CYMDEITHASFA CRUGHYWEL,

Ebrill 14, 15, a'r 16eg, 1890.

Llywydd,—Y Parch. E. Phillips, Castellnewydd-Emlyn.

Dydd Llun, y 14eg.

Am 5 *o'r gloch, Cyfeisteddfod o'r holl Gynrychiolwyr i gymeryd i ystyriaeth etholiad Athraw ychwanegol i Athrofa Trefecca.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. T. Levi.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Darllenwyd Cenadwriaethau mewn perthynas i Athraw ychwanegol i Drefecca, ac ar ol dwys ystyriaeth, penderfynwyd,—Fod Mr. Owen Prys yn cael ei benodi yn Athraw Ychwanegol yn Athrofa Trevecca am gyflog o £150 yn y flwyddyn, ac i ddechreu ar ei waith pan yr agorir yr Athrofa yn mis Medi, 1890; a'i fod hefyd, yn ol dymuniad y Gymdeithasfa ddiweddaf, a gynnaliwyd yn y Borth, yn cael ei osod yn hollol ar yr un safle fel Athraw a'r Parch. E. Williams, M.A., o dan lywyddiaeth y Prif Athraw a Llywydd yr Athrofa: ac os gwelir fod anghen am unrhyw fath o ad-drefniad ar waith yr Athrofa,—Ein bod yn llwyr ymddiried y gorchwyl o ranu y gwaith i'r Parch. D. C. Davies, M.A., y Llywydd, fel y barno efe yn oreu er lles yr Athrofa. Galwyd Mr. Prys ger bron a gofynwyd iddo a wnai dderbyn y penodiad ar y te'erau gosodedig—ac atebodd yntau ei fod ar ol rhoddi yr ystyriaeth fwyaf difrifol i'r mater, ac er teimlo pwysigrwydd yr ymddiriedaeth, yn penderfynu ymgymeryd â'r swydd, gan ddymuno rhau yn ngweddïau ei frodyr drosto, ar iddo gael arweiniad a chynnorthwy dwyfol yn nghyflawniad y gwaith o gyfranu addysg i weinidogion dyfodol y Cyfundeb yn Neheudir Cymru. Dadganwyd llawenydd mawr ar dderbyniad y swydd gan Mr. Prys, a bod yr holl achos wedi dyfod i derfyniad mor foddhäol, gan y Parchn. D. Saunders, D.D., D. Edwards, T. Levi, a W. Powell, a darfu i'r Parch. W. Powell arwain y Gymdeithasfa mewn gweddi ar ran yr athraw appwyntiedig a'r sefydliad i ba un bellach y perthynai.

III. *Yr Etholiadau.* — Etholwyd,—1. I draddodi y Cynghor, y Parch. W. Powell, Penfro.—2. I draethu ar Natur Eglwys, y Parch. T. James, M.A., Llandyssul.—3. I fod yn Arholwr Cymdeithasfäol am y ddwy flynedd 1891 a 92, y Parch. J. M. Jones, Caerdydd.

IV. *Addysg Dduwinyddol ein Gweinidogion.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn gosod y pwys mwyaf ar fod ein holl bregethwyr ieuainc yn myned trwy gwrs rheolaidd o addysg dduwinyddol yn Nhrefecca cyn ymgymeryd â chyflawn waith y weinidogaeth, a bod y brodyr canlynol yn cael eu hethol yn bwyllgor i drefnu pa fodd i sicrhau hyn:—Y Parchn. T. Rees, Cefn; D. Evans, B.A., Eglwysnewydd; W. J. Williams, Hirwaun; J. M. Jones, Caerdydd; R. Morgan, Aberdâr; W. James, Aberdâr; a Mr. R. W. Jones, B A. Yr olaf i fod yn gynnullydd.

V. *Pwyllyor Trefecca.*—Eisteddodd y Cynnrychiolwyr ac eraill yn Bwyllgor yr Athrofa, a phasiwyd y penderfyniadau canlynol:—

Trevecca Committee held at Trevecca, Dec. 19, 1889. Bills to the amount of £35 14s. 5½d. were ordered to be paid.—The above report was accepted.—In reference to resolutions of the Summer Committee postponed from the Ystrad Association for further consideration, the following Resolutions were passed:—1. That the extensive alterations suggested by the Committee be deferred for the present, but that the Committee be urged to see that all repairs that may be absolutely

needed are carried out.—2. That the scheme proposed for temporarily increasing the Funds of the College by appealing to the churches for a small annual collection, be remitted to the Committee for further consideration, with the hope that they may find that such an appeal may not be necessary.—DAVID EVANS, *Sec.*

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. D. Saunders, D.D.

DYDD MAWRTH, Y 15FED.

Am 8 *o'r gloch, Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. W. Evans, M.A., Pembroke Dock.

VI. *Y Cynghrair Efengylaidd.*—Penderfynwyd, Fod cenadwri yn cael ei chyflwyno i'r Gymanfa Gyffredinol yn galw sylw at y Cynghrair Efengylaidd.

VII. *Ewyllys y ddiweddar Miss Blanche Evans.*—Cafwyd eglurhâd maith a chyflawn ar y mater gan y Parch. D. Edwards, sylwedd yr hwn ydoedd:—1. Fod Miss Evans wedi trefnu swm o arian yn ei hewyllys yn y fath fodd fel yr ydoedd yn bosibl iddynt rywbryd ddyfod yn eiddo cyfartal rhwng y Gymdeithasfa yn y Deheudir a Chyfarfod Misol Mynwy. 2. Fod yr arian er ys amser bellach wedi eu trosglwyddo i'r Canghell-lys. 3. Fod yr arian erbyn hyn yn eiddo cyfreithiol y Cyfundeb. Penderfynwyd,—1. Ein bod yn dadgan ein boddhâd yn yr eglurhâd cyflawn a gafwyd gan y Parch. D. Edwards; ein diolchgarwch diffuant iddo am y llafur mawr y mae eisoes wedi myned trwyddo; ein llwyr ymddiriedaeth ynddo; a'n bod yn dymuno arno barhau i fyned ymlaen â'r gwaith nes cael yr holl arian allan o'r Caughell-lys *(Court of Chancery)* a'u gosod yn hollol yn nwylaw y Gymdeithasfa a'r Cyfarfod Misol, i ba rai y perthynant.—2. Ein bod yn cyflawn awdurdodi y Parch. D. Edwards i weithredu drosom fel Cymdeithasfa yn mater yr arian a adawyd yn ewyllys Miss Blanche Evans, a'n bod yn penodi y personau canlynol yn ymddiriedolwyr i dderbyn yr arian uchod, sef Mr. Thomas Phillips (hynaf), Ynad Heddwch, St. David's, Uplands, Swansea, a Mr. David Jenkin Davies, Ynad Heddwch, Aberystwyth, i dderbyn y gyfran sydd yn ddyledus i Gymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd yn Neheudir Cymru, a'n bod yn cadarnhâu appwyntiad y Parch. David Edwards, Newport, a'r Parch. David Harries Williams, Newport, gan Gyfarfod Misol Sir Fynwy, yn ymddiriedolwyr i dderbyn y gyfran sydd yn ddyledus i'r Cyfarfod Misol hwnw.—3. Ein bod yn awdurdodi ac yn gorchymyn Llywydd ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa i roddi at wasanaeth y Parch. D. Edwards, unrhyw gofnodion neu benderfyniadau a farnai efe yn fanteisiol i hyrwyddiant dygiad y gwaith i ben.

VIII. *Capel Bristol.*—Derbyniwyd hysbysrwydd o Ddwyrain Morganwg:—Codwyd ar lôg £33 15s. i dalu y treuliau yn yr ymgais i werthu Capel Bristol, am 3½ y cant. Cyflwynir hyny i'r Gymdeithasfa. Penderfynwyd,—Fod y Gymdeithasfa yn talu y swm uchod.

IX. *Cynnyg i newid y gyfraith gyda golwg ar drwyddedau i werthu diodydd meddwol.*—Derbyniwyd cenadwri o Ddwyrain Morganwg, "Fod y Cyfarfod Misol hwn yn gwrthdystio yn y modd mwyaf pendant a difrifol yn erbyn yr hawl o roddi trwyddedau gan awdurdodau yr *Excise*, ac yn annog yn y modd cryfaf holl aelodau eg lwysi y cylch i osod eu gwynebau yn gryf yn erbyn yr arferiad o brynu a gwerthu barilau bychain a photelau gwirod, a'n bod yn cyflwyno y mater i sylw y Gymdeithasfa, a galw ar ein Haelodau Seneddol i wneuthur yr hyn a allant i newid y gyfraith yn ddioed."—W. LEWIS, *Ysg.*—Penderfynwyd, Fod y Gymdeithasfa yn mabwysiadu y penderfyniad hwn.

X. *Yr Arholiad Cymdeithasfaol.*—Derbyniwyd cenadwriaethau o Ogledd Aberteifi a Gorllewin Morganwg mewn perthynas i'r mater hwn, a phenderfynwyd—Fod yr Arholiad Cymdeithasfaol yn cael ei adael yn hollol fel y mae yn bresennol.

XI. *Cais am ordeinio un heb fyned trwy yr Arholiad.*—Y brodyr sydd wedi eu cynnyg i'r Gymdeithasfa i'w hordeinio ydynt,—Mri. J. M. Saunders, M.A., a Thomas Salmon, Maesteg. Penderfynwyd anfon y cenadwri ganlynol i'r Gymdeithasfa, "Yn gymaint a bod eithriadau wedi eu gwneyd ynglŷn âg ordeinio brodyr heb fyned trwy yr Arholiad Cymdeithasfaol, teimla y Cyfarfod Misol awydd mawr am i'r un fraint gael ei hestyn i'r brawd anwyl Mr. Thomas Salmon, Maesteg."—REES PHILLIPS, *Ysg.*—Penderfynwyd—Fod y Gymdeithasfa yn gomedd cydsynio â'r cais hwn.

Marwolaeth y Parch. T. Jerman Jones.—Daeth y *telegram* canlynol i law am 10 45 o Tilbury.—"To Rev. W. James.—Jerman Jones died two o'clock yesterday off Dungeness. Funeral Friday, service in Chatham Street Chapel two o'clock.—JOSIAH THOMAS, *Secretary.*"

Darfu i'r newydd daflu y Gymdeithasfa i alar a dwysder teimlad dwfn iawn, a phenderfynwyd fod y Parch. D. Saunders, D.D., i gyfansoddi *telegram* i'w anfon yn ateb ar unwaith, a bod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr yn dadgan ein gwerthfawrogiad o lafur y Parch. T. Jerman Jones, a'n cydymdeimlad â'i weddw drallodus, i'w ddarllen yn ngwasanaeth y claddedigaeth ddydd Gwener.

Dyma y *telegram* anfonwyd:—"Though the Rev. Jerman Jones has gone to receive the approval and reward of his Master, we would have wished to retain his services here longer. The intelligence of his departure was received by our Association with profound sorrow. Let his dear widow be assured of our sympathy and prayer.—On behalf of the Association at Crickhowel.—D. SAUNDERS."

XII *Adrodd ad yr Arholiad Cymanfaol*, 1883.—Penderfynwyd,—Fod yr Adroddiad

yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo. (Gwel y penderfyniad yn y Drysorfa, tu dal. 108. Yn yr un rhifyn hefyd ceir materion y flwyddyn bresennol.)

XIII. *Mesur Seneddol i Sicrhau Tir i Adeiladu Capelau.*—Darfu i'r Parch. D. Edwards egluro y mater, a darllenwyd llythyr oddiwrth Mr. J. Jones, U.H., Llanfyllin, Ysgrifenydd Pwyllgor Seneddol Meddiannau y Cyfundeb, a phenderfynwyd,—Fod y Cadeirydd a'r Ysgrifenydd yn cael eu hawdurdodi i arwyddo deisebau yn ffafr Mesur Mr. A. J. Williams, A.S., a Mesur Mr. S. T. Evans, A.S, er sicrhau tir i adeiladu capelau.

XIV. *Hen Lyfrau Williams Pantycelyn.*—Hysbyswyd fod Mr. Daniel Davies, Ton, Ystrad, wedi prynu nifer o hen Lyfrau, heb fod yn llai na mil mewn rhifedi, nifer o ba rai, yn ddiau, a fuont unwaith yn eiddo Williams, Pantycelyn, a'i fod ef wedi trosglwyddo y cwbl drosodd i Lyfrgell Trefecca; a phenderfynwyd,—Fod diolchgarwch y Gymdeithasfa hon yn cael ei gyflwyno iddo am danynt.

Am 11 30 *o'r gloch, Cyfarfod y Blaenoriaid.*

Cyflwynwyd gan y Cyfarfod Misol i'w hordeinio:—O Ogledd Aberteifi: Mr. Michael Williams. O Ddehau Aberteifi: Cydsynir â'r Henaduriaeth i ordeinio Mr. E. G. Davies, Merthyr Vale. Sir Benfro: Mr. Ll. Griffith, Dinas. Sir Gaerfyrddin: Mri. J. M. Saunders, M.A., Llanymddyfri; a J. Griffiths, Pembrey. Dwyrain Morganwg: Mri. E W. Llewelyn, Llanymynach; W. A. Williams, Llwydcoed; a T. J. Edwards, Penrhiwceibr. Mynwy: Mr. D. M. Benjamin. Brycheiniog: Mri. W. Williams, Aberhonddu; W. J. Jones, Llangors; a B. P. Morris, Trefecca. Yr Henaduriaeth: Mri. W. Williams, Aberdar; O. D. Jones, Tredegar: ac E. G. Davies, Merthyr Vale. Mater,—Crist fel Prophwyd.

Am 1 *o'r gloch, Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. W. John, Penybont.

XV. *Lle ac Amser y Gymdeithasfa nesaf.*—Cwmgiedd, Ystradgynlais, Mehefin 10, 11, a'r 12fed.

Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa am 6 *o'r gloch, prydnawn Mawrth* 10*fed.*

XVI. *Lle ac Amser y Gymanfa Gyffredinol nesaf yn y De.*—Daeth cais am dani trwy y Parch. T. E. Edwards, o eglwys Bethania, Treforris, a phenderfynwyd ei bod i fyned yno yn 1891.

XVII. *Adroddiad Cyfarfod y Blaenoriaid.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn derbyn ac yn cadarnhau yr adroddiad canlynol:—

1. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.—2. *Y Brodyr i'w Hordeino.*—Cafwyd boddlonrwydd ynghych rheoleidd-dra dewisiad y brodyr o'r gwahanol Gyfarfodydd Misol ag sydd wedi myned trwy yr Arholiad Cymdeithasfaol yn llwyddiannus, a phenderfynwyd eu cymeradwyo i'w hordeinio yn Nghymdeithasfa Awst nesaf.—Yn ngwyneb fod dau o'r brodyr hyn, sydd yn fugeiliaid ar eglwysi Seisonig yn Sir Fynwy—sef Mr. Benjamin, Abertileri, a Mr. O. D. Jones, Tredegar—heb ddeall Cymraeg, a bod Cymdeithasfa Hydref i fod yn Sir Fynwy, penderfynwyd cynnyg i r Gymdeithasfa fod i'r ddau frawd a enwyd gael eu hordeinio yn y Gymdeithasfa hono mewn gwasanaeth Seisonig. Cynnygir hefyd,—Fod y Parch. Joseph Evans i draethu ar Natur Eglwys, a'r Parch. Dr. Cynddylan Jones i draddodi y Cynghor ar yr achlysur uchod.—3. Penderfynwyd,—Fod sylw arbenig y Cyfarfodydd Misol yn cael ei alw at y rheolau ynglŷn â dewisiad brodyr i'w hordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth; a dymunir ar i'r Gymdeithasfa roddi arbenigrwydd i'r genadwri a awgrymir yn y rhan olaf o Adroddiad yr Arholwyr Cymdeithasfaol.—4. Penderfynwyd,—Fod dymuniad ar i'r Gymdeithasfa anfon cymhelliad taer i'r eglwysi i *gynnyddu*, os yw yn bosibl, y gydnabyddiaeth—neu o'r hyn lleiaf roddi y gydnabyddiaeth oreu o fewn eu gallu—i'n gweinidogion a'n pregethwyr.—O ddiffyg amser, gohiriwyd y mater penodedig i ymddyddan arno, sef "Crist fel Prophwyd," i'r Gymdeithasfa nesaf.—W. Jones, *Ysg.*

(I'w barhau.)

Bywgraffiaeth.

MRS. ELLIN HUGHES, PENNAL, MEIRIONYDD.

Gwraig ieuanc grefyddol ydoedd Ellin Hughes, a ddygwyd i fyny yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Mhennal, ac a fu farw gaiiol haf y flwyddyn 1889, gan adael coffadwriaeth ar ei hol sydd yn berarogl yn yr ardal lle yr oedd yn byw. Rhoddodd brofion sier, sicrach na'r cyffredin, yn nhymmor olaf ei bywyd, ei bod yn meddu "yr edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Hargiwydd Iesu Grist." Ac ar gyfrif y sicrwydd a'r amlygrwydd tra nodedig a roddodd i'w chymydogion o wirioiiedd ei chrefydd, yr anfonir y byr goffhad hwn am dani i'r Drysorfa.

Merch ydoedd i Evan Jones a Gwen

Jones, Ysgubor Fawr, Pennal. Mae ei thad yn aelod gyda yr Annibynwyr, a'i mam gyda'r Methodistiaid. Dilynodd y plant oll, y rhai ydynt amryw o frodyr a chwiorydd, yr un enwad a'u mam. Derbyniwyd hwy yn aelodau yn yr eglwys, a chan adael tŷ eu rhieni, aethant bob un i'w fan, i ddilyn eu gorchwylion. Ellin oedd yr ieuengaf. Arosodd hi gartref, a dilynodd yr ysgol ddyddiol gyda phlant eraill y gymydogaeth, a dangosai bob amser ei bod yn eneth ddeallus. Cafodd ychydig o fanteision yn ychwanegol, trwy gael ei hanfon i Machynlleth i ddysgu y grefft o *dressmaker* a *bonnet-maker*. A bu yn dilyn y gorchwyl hwn am flynyddoedd yn Mhentref Pennal. Rhagoriaeth a berthynai iddi yn y cysylltiad hwn oedd, diwydrwydd a gweddusrwydd. Dilyn ei gorchwyl y ceid hi bob amser, nid myned i wag-rodiana, a chadwai ymhell o fod yn wageddus a gwastraffus. I'r gwrthwyneb, arferodd ddiwydrwydd yn nhymmor ei hieuenctyd, fel yr oedd ganddi swm lled daclus wedi ei roddi o'r neilldu erbyn dydd ei phriodas. Bu myfyrwyr yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth, am beth amser, yn lletŷa yn nhŷ ei rhieni. Gofalodd am eu cysur a'u hapusrwydd tra buont yno, fel yr oeddynt yn siarad yn barchus am dani wrth ymadael.

Pa bryd y deehreuodd argraffiadau crefyddol ymwneyd â'i meddwl, nid yw yn wybyddus. Y tebyg ydyw iddynt dyfu gyda hi, fel y gwnant gyda llawer o blant proffeswyr y blynyddau hyn. Eto, dywed ei rhieni, "Tod Ellin erioed â thuedd grefyddol ynddi." Dilynai gyfarfod y plant a'r cyfarfod eglwysig, a dywedai ei hadnod heb dynu dim mwy o sylw na'i bod yn un o'r rhai ffyddlonaf o'r plant. Ni arddangosai dalent arbenig a dysglaer fel rhai plant. Tuedd ddystaw a gwylaidd oedd ynddi er yn blentyn. Y rhagoriaeth cyntaf a ddangosodd yn ei chysylltiad â'r capel oedd mewn ysgrifenu pregethau. Yr oedd hi a geneth arall, un o'i chyfoedion, yr hon sydd yn awr wedi ymsefydlu yn Melbourne, Awstralia, yn rhagori cymaint yn hyn ag y rhoddwyd gwobr i'r ddwy gan weinidog yr eglwys. Pan yr oedd nifer o'i chyfoedion, a hithau yn eu mysg, yn cael eu parotoi i'w derbyn at yr ordinhâd, dangosai ei bod yn dra deallus yn yr atebion a roddai. Derbyniwyd hi, yn un o chwech, yn gyflawn aelod yn yr eglwys nos Iau, Rhagfyr 21, 1874. Ni roddodd ddim achos tramgwydd i'r eglwys y cafodd ei magu ynddi, na dim lle i bryderu yn ei chylch o gwbl. O'r tu arall, bu yn llawer o help i grefydd yn ei hardal, can belled ag yr oedd ei bywyd crefyddol hi ei hun yn myned. Yr oedd ei buchedd a'i rhodiad yn addas i'r efengyl. Cyflawnid ynddi yn bur amlwg ddywediad y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho: "Taw di, dafod, a llefara di, droed" Cafwyd ynddi hi hefyd fwy nag aelod eglwysig "difeïus a difrycheulyd." Rhagorai ar y cyffredin o'i chyfoedion, drwy holl dymmor ei hieuenctyd, mewn un peth yn arbenig, sef mewn *cysondeb* a *ffyddlondeb* yn dilyn moddion gras. Nid gyda chyfarfodydd y Sabboth, y rhai y mae y llïa ws yn eu dilyn, yn unig y deuai ei ffyddlondeb hi i'r golwg, ond mewn cysondeb yn dilyn y cyfarfod eglwysig a'r cyfarfod gweddi wythnosol. Peth a fedrai, a pheth y bu yn ei wneyd oedd arwain y canu yn y cyfarfod gweddi, pan fyddai yr arweinwyr yn absennol. Nid oedd heb ei cholliadau mwy na rhywun arall, ond dywed ei chyfeillesau mai am bethau crefydd y byddai ei hymddyddanion cyffredin. Ceid rhyw sylw ganddi bron bob amser, yn y cyfarfod eglwysig, naill ai o'r Bibl neu o'r pregethau. Rhoddai astudrwydd neilldnol ar y weinidogaeth. Gwyddai yn dda pryd y byddai praidd Duw yn cael eu porthi; ac os byddai pregethau y Sabboth yn well nag arfer yn eu gafael ar brif wirioneddau yr efengyl, ceid gweled hyny yn ei dull boddhaus o wrando, a thrannoeth ei gwaith fyddai canmol wrth ei chymydogion y moddion da a gawsid y diwrnod cynt. Llawer gwaith, yn sier, y rhoddodd ei hastudrwydd yn gwrando help i'r pregethwr lefaru, er na byddai ei hastudrwydd ond dystaw, syml a thawel. Y mae llawer o'r nerth yn y pulpud yn dyfod oddiwrth agwedd astud a defosiynol y saint yn gwrando. Oni fyddai llawer mwy o hyn ymhlith yr hen Fethodistiaid yr amser gynt? Rhoddai y chwiorydd, yn gystal a'r brodyr, lawer o gynnorthwy i hen gewri y pulpud yn Nghymru, er peri grymusder yn eu gweinidogaeth. Darluniad felly ydym yn ei gael am y wraig ragorol, Mrs. Grace Price, o Watford, Sir Forganwg, yn gwrando ar yr efengylydd peraidd, y Parch. David Jones, o Langan. Meddai y Bardd o Bantycelyn, yn ei Farwnad ragorol iddi:—

"Yn *Llangan* o dan y pulpud,
'R oedd ei hysbryd, 'r oedd ei thref,
Tra f 'ai Dafydd yno 'n chwareu
'N beraidd ar delynau 'r nef.

'Iesu 'r *text*, a Iesu 'r bregeth,
Iesu 'r ddeddf, a Iesu 'r ffydd,'—
Meddai Jones, a hithau 'n ateb,—
'Felly mae, ac felly bydd!'"

Yn ei hastudrwydd yn gwrando, y cyfryw un â Mrs. Grace Price oedd Ellin Hughes, ond ei bod yn ddystawach, ac yn eistedd, nid o dan y pulpud yn Mhennal, ond yn nghanol y capel, yn union o flaen y pregethwr.

Dydd Llun, Rhagfyr 26, 1887, oedd diwrnod ei phriodas gyda Mr. Thomas Hughes, gŵr ieuanc oedd yn aros ar y pryd yn Runcorn Ymddangosai y briodas yn un hynod o hapus, gan fod y ddau o gyffelyb dueddiadau i'w gilydd. Symudodd o Bennal, y dyddiau dilynol, i fyw i Runcorn. Ni bu ei harosiad yno ond prin flwyddyn. Bu raid iddi ddychwelyd yn ol i'w hardal enedigol o herwydd afiechyd. Gwelir oddiwrth ei Llyfr Cofnodion ei bod yn cofnodi y pregethau a wrandawodd tra bu yn aros yn Runcorn. Dechreuodd un o'r Sabbothau cyntaf wedi iddi gyrhaedd yno, ac y mae enwau pregethwyr Liverpool, ac

eraill, eu testynau, a llawer o'u pregethau, i'w cael yn y llyfr.

Cadwodd ymlaen gyda'r arferiad o ysgrifenu crynodeb o'r pregethau a wrandawai, hyd ddiwedd ei hoes. Ar ol ei marwolaeth, daethpwyd o hyd i'w *Dyddlyfr*, yn yr hwn y ceir amryw o bethau dyddorol wedi eu hysgrifenu, y rhai a roddant gyfrif am y teimladau crefyddol, a'r ffyddlondeb cyson a berthynent iddi, a'r hyfder cryf a'i meddiannai yn wythnosau olaf ei bywyd. Wele rai o'r sylwadau a geir yn y llyfr yn cynnwys ei phrofiad personol:—

"Gorphenaf 31, 1882. Am bechodau y meddwl yr wyf yn cwyno. Meddwl mwy am bethau y ddaear nag am bethau y nefoedd. Aeth y Sabboth heibio, heb i mi gael dim i aros gyda mi o'r pregethau gwerthfawr a gefais."

"Awst 1. Y peth ddaeth gyntaf i fy meddwl pan ddeffroais boreu heddyw oedd, fy mod yn nês i dragywyddoldeb nag y bum o'r blaen, yn nês i angeu, y bedd, a'r amser y bydd raid i mi sefyll o flaen y Barnwr mawr, yr Hwn yr ydwyf wedi pechu ar hyd fy oes yn ei erbyn."

"Chwefror 13, 1883. Daeth y gair hwnw i fy meddwl heddyw, 'A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch.' Y mae ynof awydd cryf am gael y goleuni yma o'm mewn, a rhodio yn y goleuni. O! mor hyfryd yw y goleuni naturiol! pa faint mwy y goleuni ysbrydol?"

"Mai 29. Y gair hwnw, 'Yr hwn a groeshoeliasoch chwi.' Yr wyf wedi cael goleuni newydd ar yr adnod. O'r blaen, i'r Iuddewon yr oeddwn yn gweled yr adnod yn briodol; ond erbyn heddyw yr wyf yn gweled fy mod I yn waeth na'r Iuddewon. . . . Diolch iddo am drefnu ffordd i faddeu! Mae yn gas genyf fy hun, er pan ddaeth y goleuni yma i mi. Yr wyf yn addunedu y mynyd hwn i beidio ei groeshoelio byth mwy. O am nerth i gadw yr addunedau, ac i feddwl mwy am dano Ef."

"Mai 31. 'Golch fi yn *llwyr*-ddwys oddiwrth fy anwiredd.' Yr oeddwn yn meddwl y buasai cael maddeuant o rai o fy mhechodau, sef pechodau amlwg, yn gwneyd y tro i mi. Ond yr wyf yn gweled fod eisieu ymadael yn llwyr â hwy i gyd. Mae un agen yn y llong yn ddigon i'w suddo, felly mae un pechod yn ddigon i suddo yr enaid i ddinystr."

Ysgrifenai ei meddwl i lawr, yn debyg i hyn, yn awr a phryd arall, ar hyd y blynyddoedd. Weithiau adnod yn unig a geir i lawr ar y tro; bryd arall, pennillion yn cynnwys profiad dwfn y Cristion yn dyheu am gymdeithas â Duw. Ac ysgrifenai y pethau hyn pan oedd rhwng ugain a naw ar hugain oed. Mor hyfryd ydyw meddwl fod un o aelodau cyffredin yr eglwys yn meddwl ac yn myfyrio cymaint am bethau yr efengyl, a hyny mewn adeg dawel a digyffro ar grefydd, a phryd nad oedd neb yn gwybod yr hanes ond y chwaer grefyddol hon ei hun. Dair wythnos o'i blaen, bu farw gwraig ieuanc dra rhinweddol a chrefyddol arall, oddeutu yr un oedran a hithau, ac a ddygwyd i fyny yn yr un eglwys, fel un o'i chyfoedion, sef Mrs. Thomas, priod y Parch. W. Thomas, Pwllheli, a merch i'r diweddar Barch. Richard Humphreys. Rhoddodd hithau hefyd dystiolaeth bendant, cyn ymadael â'r fuchedd hon, ei bod rywbryd yn ystod ei bywyd wedi d'od i feddiant o'r hyn a'i gwnaeth yn hollol dawel i fyned i'r wlad yr ochr draw. Bu Ellin Hughes mewn nychdod mawr a thrwm dros rai misoedd yn y diwedd. Yn ystod ei chystudd dangosodd fod ganddi grefydd ymhell uwchlaw y cyffredin, a rhoddodd brawf diammheuol ei bod yn meddu "hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu." Un o'r pethau a barodd fwyaf o syndod i ysgrifenydd y llinellau hyn oedd, gweled gwraig ieuanc yn y fath waeledd mawr, mor rhydd i adrodd ei phrofiad crefyddol, a hyny gyda'r fath dawelwch a hunanfeddiant, a chan gario y fath argyhoeddiad sicr i'r meddwl ei bod yn berffaith ddidwyll a diffuant. Bob tro yr ymwelid â hi byddai ganddi brofiad newydd ac adnod newydd i'w hadrodd. Yr oedd wedi gobeithio yn fawr cael gwella, i fyned â'i baban—cyntafanedig—i'r capel i'w fedyddio. Ond yn ngwyneb nad oedd obaith iddi am wellhad, bu raid gweinyddu yr ordinhad yn y tŷ. Dewisodd alw ei baban yn Josuah, er nad oedd neb o dylwyth ei thŷ o'r enw hwnw, am yr unig reswm ei bod yn edrych ar Josuah fel y cymeriad hoffusaf ganddi yn y Bibl. Y noswaith olaf y bu fyw, rhoddai gynghorion difrifol i'w pherthynasau, yn enwedig ei brodyr, i fod yn ffyddlawn i grefydd. Un o'r pethau olaf a ddywedodd wrth ei rhieni ydoedd, "Yr wyf fi yn myned at Iesu Grist. Brysiwch ar fy ol." Hunodd mewn tangnefedd, Gorphenaf 16, 1889, yn 29 mlwydd oed.

Llofion.

DYCHYMYG DUW.

Yr oedd Tennyson, y bardd enwog, yn ymrodio unwaith gydag un neu ddau o gyfeillion, pan y daethant at lân afonig fechan. Aeth ei gyfeillion ymlaen, a gwelsant ymhen ychydig nad oedd y Bardd gyda hwynt Wedi troi yn ol i edrych am dano, gwelsant ef wedi plygu uwch ben y dwfr, ac yn craffu gyda dyddordeb mawr ar ysgogiadau chwim y creaduriaid bychain o wahanol luniau a maintioli, fel yr oeddynt yn saethu yn ol ac ymlaen trwy y dwfr heibio eu gilydd. Wedi iddo ymuno â'i gyfeillion, dyna a ddywedodd —*What an imagination God has!* (Y fath *ddychymyg* sydd gan Dduw!)

EWYLLYS OLAF MADAME GUYON.

Cynnwysa y weddi brydferth hon:—"I Ti, O Arglwydd Dduw, yr ydwyf yn ddyledus am bobpeth; ac i Ti yr ydwyf yn awr yn rhoddi

i fyny yr hyn oll ag ydwyf. Gwna â mi, O fy Nuw, beth bynag a weli yn dda. I Ti, mewn gweithred o ymgyflwyniad di alw-yn-ol, yr ydwyf yn rhoddi fy nghorff a'm henaid i wneyd â hwynt yn unol â'th ewyllys Di. Ti a weli fy noethni a'm trueni hebot Ti. Ti a wyddost nad oes dim yn y nefoedd na'r ddaear ag yr ydwyf yn ei ewyllysio ond Tydi yn unig. Yn dy ddwylaw Di, O Dduw, yr wyf yn gadael fy enaid, heb ymddiried am fy iachawdwriaeth mewn dim da sydd ynof fi, ond yn unig yn dy drugareddau Di ac yn haeddiannau a dyoddefiadau fy Arglwydd Iesu Grist."

Cronicl Cenadol.

Y PARCH. T. JERMAN JONES.

CYFARFODYDD YMADAWOL YN KHASIA.

ADRODDIAD GAN Y PARCH. JOHN JONES.

Diau mai da fydd gan ein darllenwyr gael cyfle i weled yr adroddiad a ganlyn a anfonwyd i ni gan y Parch. John Jones o'r cyfarfodydd a gynnaliwyd yn Khasia i ffarwelio â'r Parch. T. Jerman Jones. cyn iddo gychwyn tuag adref. Gwelir y syniad uchel oedd gan y brodorion am ein hanwyl frawd ymadawedig, a'u serch cryf tuag ato.

Shillong, Ebrill 10, 1890.

"Cynnaliwyd yma gyfres o gyfarfodydd ymadawol cyn i Mr. a Mrs. Jerman Jones adael am gartref. Cynnaliwyd y cyntaf yn y capel prydnawn dydd Sadwrn, Mawrth laf. Cyfarfod i'r Bengaliaid a'r Khasiaid oedd hwn. Daeth nifer lïosog o Bengaliaid iddo er dangos eu bod yn gwerthfawrogi llafur ac ymdrech Mr. Jones gydag addysg, a'i barodrwydd i gynnorthwyo pob achos da. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ganu a gweddïo; yna etholwyd llywydd ac ysgrifenydd, y ddau yn Bengaliaid. Cafwyd areithiau hyawdl yn Saesoneg, y Bengalaeg, a'r Khasiaeg gan nifer dda o'r prif ddynion oedd yn bresennol, a'r oll o honynt yn dwyn tystiolaeth uchel i lafur a ffyddlondeb Mr. Jones, a'i barodrwydd bob amser i'w helpu yn eu hadfyd a'u gwaeledd. Yr oedd gofal Mr. Jones am y cleifion a'r amddifaid yn ystod ymweliad y *cholera* â Shillong yn cael ei adgoffa ganddynt yn fynych, yr hyn oedd yn dangos fod ei gymwynasgarwch iddynt y pryd hyny wedi suddo yn ddwfn yn eu cof a'u serch. Yn y cyfarfod hwn yr oedd yr athrawon a'r ysgolheigion yn Ysgol Shillong yn bwriadu cyflwyno yr anerchiad canlynol i Mr. Jones, ond nis gallai Mr. Jones fod yn bresennol o herwydd gwaeledd. Darllenwyd a phasiwyd ef yn unfrydol, a chyflwynwyd ef ar ran y cyfarfod i Mr. Jones yn y tŷ gan y Cadeirydd. Dyma yr anerchiad:*—

To the Rev. Thomas Jerman Jones, Secretary to the Mission Schools, Khasi and Jaintia Hills.

Reverend Sir,—We, the Teachers and the Students of the Mission Schools, Shillong, meet here to-day to bid you goodbye on the eve of your departure for home. We did not expect that you would leave us so soon. But as you are going away on medical advice, we would not urge you to be here any longer at the sacrifice of your health. We take this opportunity of expressing our most sincere and hearty thanks for the manifold interests you have taken on our behalf, and the works you have done for the enlightenment and regeneration of the people of these Hills. Your interest for educating the people of these Hills will always be remembered by us with gratitude. The schools owe their flourishing condition to your devout and earnest efforts. The e are the living monuments of your devotion, labour and constant care for the cause of education. No one will ever forget what you did during the last cholera epidemic. You were a nurse to the sick, and a real friend to the parting soul. Your disinterested love for us, your sincere and kind treatment, and most of all, your noble example of sacrifice and devotion to lead us in the way of truth and honesty, and your friendly counsel in times of need, will always be cherished by us in the inmost recesses of our hearts. We find no fitting words to give expression to our feelings. But we hope and pray that you will kindly accept this as a token of our sincere love and heartfelt gratitude towards you, and will kindly pardon us if we have given you any offence by our behaviour. We would not be doing a duty to ourselves if we would not also mention here our sincere gratitude towards Mrs. Jones for the kind interest she has taken on our behalf. We pray that the voyage may be prosperous, and that you may reach safe your native shores and may enjoy peace and happiness with your friends and relatives. We earnestly hope that you may be able to return here with renewed health and vigour to lead us in the way of advancement and light, and we pray that God may give you strength, as you have the will, to do good to the people of these Hills.—We remain, Reverend Sir, yours most obediently and affectionately,

The Teachers and Students of the Mission Schools.

Shillong,
The 1st March, 1890.

* Mae yr anerchiad wedi ei argraffu mewn llythyrenau euraidd yn awr ger ein bron. Mae yn amlwg ei fod wedi ei ysgrifenu gan rai o'r brodorion eu hunain yn Saesoneg, a'i fod wedi ei argraffu heb un cyfnewidiad.

Nos Sabboth, Mawrth 2il, cynnaliwyd cyfarfod eglwysig neilldnol gan eglwys Shillong ynglŷn âg ymadawiad Mr. a Mrs Jones. Cyfeithiad yw yr hyn a ganlyn o'r hyn a ysgrifenwyd gan U Mohonroy, yr hwn a ddewiswyd yn ysgrifenydd gan y cyfarfod i ysgrifenu yr hyn a ddywedwyd gan yr amrywiol frodyr er ei gyflwyno i Mr. a Mrs. Jones, gan nas gallai Mr. Jones fod yn bresennol.

Cyfarfod eglwysig eglwys Shillong, Mawrth 2il, 1890, *a gynnaliwyd mewn cysylltiad â mynediad Mr. a Mrs. Jones i Loegr.*

"Gan nas gallai Mr. Jones ddyfod i'r cyfarfod dewiswyd Babu Donroy i lywyddu y cyfarfod, a Babu Mohonroy yn ysgrifenydd i ysgrifenu yr hyn a leferid yn y cyfarfod er ei gyflwyno i Mr. a Mrs. Jones. Yr oedd y cyfarfod yn cydymdeimlo â'r Saheb ei fod o dan yr anghenrheidrwydd i fyned ymaith i Loegr, a hyny megys yn erbyn ei ewyllys, medi iddo wneuthur cymaint ag oedd yn ei allu i beidio myned, gan fod y meddygon yn dyweyd ei fod o dan anghenrhaid i fyned er cael adferiad. Nid yw yr hyn a ysgrifenwyd ond yr hyn a leferwyd gan y rhai a alwyd i siarad, ac nis gallent hwythau lefaru cymaint ag a ddymunent o ddiffyg amser, er i'r cyfarfod barhâu am ddwy awr o amser, o 7 hyd 9 o'r gloch yn yr hwyr.

Babu Dorkha: Nid oeddym yn dysgwyl i Mr. Jones fyned ymaith o'n plith, ac y mae yn wir ofidus genym mai o herwydd afiechyd y mae yn gorfod myned. Llafuriodd lawer yma yn Mawkhar, ac mewn pen trefi eraill. Nos na dydd nid oedd yn gwneyd cyfrif o hono ei hun, os gallai rywfodd arwain y bobl at Iesu Grist. Ymwelai â'r tlawd a'r cyfoethog yn ddiwahaniaeth. Yr ydym yn hynod o ddiolchgar am, ac yn mawr werthfawrogi ei lafur. Bu yr holl eglwysi yn gweddïo am ei adferiad; a bydd i ni barhau i weddïo ar i Dduw ei gadw, fel y byddo iddo gyrhaedd ei wlad ei hun a chael adferiad, fel ag i'w alluogi i ddychwelyd atom, yn ol ei ewyllys a'i ddymuniad, i drigo eilwaith yn ein plith. Ein dyledswydd yw ei gyflwyno i Dduw, yr hwn sydd yn gwrando ein gweddïau.

Babu Myngor a ddechreuodd trwy ddyweyd: Y mae pob peth yn myned heibio, ond y mae enw da yn parhau byth. Y mae yn wir ofidus genym nas gallwn roddi y parch dyledus i weithredoedd da Mr. Jones yn ein plith. Hefyd heno nid oes ond ychydig iawn o amser i siarad am dano. Bu Mr. Jones yn hynod o lafurus: tra y bu yma ni chafodd ddim gorphwys I'r dyben iddo gael gorphwys er cael adferiad, dylai fod yn dda genym iddo fyned, er mwyn iddo ddyfod atom drachefn i weithio. Yr oedd y brawd hwn yn credu mai gorlafur oedd yr achos o afiechyd Mr. Jones. Rhoddodd Mr. Jones ei hun a'i arian i wneyd daioni i ddynion. Edrychwch gymaint a wnaeth yn ystod y *cholera*, ac mor fynych yr aeth i bentrefi eraill. Fel yr ydym ni, y Khasiaid, yn prynu pethau neilldnol i ddisgyn i'n plant a'n hwyrion fel pethau coffadwriaethol, felly y mae Mr. Jones wedi prynu pethau i ni i'w gofio. A dyma y pethau hyny:—

1. Dangosodd i ni pa fodd i weithio gyda gwaith Duw.

2 Dangosodd i ni pa fodd i gydymgynnull.

3. Dangosodd i ddynion pa fodd i wella eu cyrff a'u hysbrydoedd.

Y mae llawer o leoedd yn Khasia wedi gwella trwy ei ymdrech ef. Yn awr y mae yn ddyledswydd arnom i ymddiried ei fynediad i ofal Duw, a gweddïo ar i Dduw ei amddiffyn yr holl ffordd, ac ar iddo wneyd iddo megys ag y gwnaeth i Mr. Thomas Charles, yr hwn y darfu i ni ddarllen am dano, iddo fyw dros bymtheg o flynyddoedd trwy weddïau ei gyfeillion, y rhai a ofynasant i Dduw wneuthur âg ef megys y gwnaeth â Hezecïah. Gweddïwn ninnau yr un modd.

Y Cadeirydd: Edrychwch ar y capel mawr hwn; edrychwch ar yr ysgol, yr hon sydd wedi codi hyd at yr *Entrance* (yr Arholiad cysylltiedig â mynediad i Brif Ysgol Calcutta). Dyma ffrwythau amlwg iawn i eraill fod ymdrechiadau y Saheb yn lles i'n cyrff a'n heneidiau, fel y dywedodd Babu Myngor. Yn wir, fel y dywedodd y brawd hwn, dylai gael rhywbeth i gofio am dano am ei ddaioni. Gwelais arwyddion er coffadwriaeth. Weithiau y maent yn gwneyd cerflun o ddyn garwr trwy ei naddu mewn careg. Hefyd y maent yn ysgrifenu ar gofiech *(tablet)*, ac yn ei gosod ar y mur, er nad yw y dynion hyn wedi gwneyd y ganfed ran o ddaioni a wnaed gan Mr. Jones Oni ddylem ni wneyd rhywbeth yn y ffordd hon i gofio am dano?

Ar ol y sylwadau hyn gan y Cadeirydd, siaradwyd ychydig pa beth fyddai oreu ei wneyd gyda golwg ar gael rhywbeth i gofio an. Mr. Jones, ond o ddiffyg amser penderfynwyd gadael y mater hwn a chael cyfarfod rywbryd eto i'w ystyried.

Babu Den Syngken: Nis gallaf siarad llawer, dim ond yr ychydig sylwadau hyn, fy mod I fy hunan wedi cael cymhorth i fy nghorff a'm henaid ganddo, ac yr wyf yn credu fod y rhai a ddaethant i gyffyrddiad âg ef wedi derbyn fel finnau. Nid oedd Mr. Jones yn arbed dim ar ei gorff, ond elai i dai y tlodion a'r cyfoethogion i'r dyben o'u harwain at Iesu Grist. Yr oll a wnaed yma, gwnaed hwy ganddo ef. Pe byddai yn beth iawn byddai i ni ei gadw yma. Yr oedd yn darostwng ei hun i'r dyben o ddwyn dynion i oleuni yr efengyl. Gofynodd y brawd hwn am ganiatâd i weddïo ar ran Mr. Jones. Caniatäwyd iddo, y gynnulleidfa yn cyduno âg ef.

Y Cadeirydd: Weithiau y mae rhai yn tybio fod hunanymwadiad yn ddarostyngiad—megys bwyta neu gysgu gyda phersonau neilldnol, ond y mae hyny yn gamgymeriad hollol. Wrth gofio hunanymwadiad Mr. Jones, er ei fod ef yn awr wedi teneuo, y mae yn ymddangos i mi fel angel. Yr wyf yn credu y gall ef

ddyweyd fel Paul, Phil. i. 21—24: "Canys byw i mi yw Crist," &c.

Babu Pyrbotsing: Yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd gan y cyfeillion eraill, yr wyf yn ddiolchgar i Mr. Jones am ein dysgu i ymddiried yn Nuw ymhob amgylchiad. Edrychwch ar y capel yma. Pan yn dechreu ei adeiladu nid oedd genym ddim, ond yr oedd efe yn ein hannog i ymddiried yn Nuw, ac ni a gawsom gapel mawr a da. Yr wyf yn gwybod yn wir mai trwy fawr ymdrech a thrafferth y cafwyd ef, ond nid oedd ar Mr. Jones gywilydd er mwyn Iesu Grist. Dysgai ni i ddyfod yn gyson i foddion gras trwy beidio a bod yn absennol ei hun. Dysgai ni i adrodd Gair Duw trwy gydadrodd â ni. Dysgai ni i addoli yn ein tai trwy gadw addoliad teuluaidd yn ei dŷ yn ddifwlch. Byddai ef yn addfwyn pan y byddai eraill yn siarad yn galed, &c. Y mae yr esiamplau hyn fel arian ac aur y mae yn eu gadael i ni. Yr oedd yn bwriadu cydorwedd â ni yn y fynwent acw. Pe byddai weddus, ni a'i hebryngem ef hyd adref, gan nas gall aros gyda ni yn hwy. Gweddïwn ar fod iddo gyrhaedd adref yn ddyogel. Yna gweddïwyd.

Y Cadeirydd a sylwai fod Mr. Jones yn un llawn o obaith—*hopeful*, ac yn un ymroddedig i'w holl waith. Dilynwn ef yn yr esiamplau y mae wedi eu rhoddi i ni.

Babu William Lewis: Yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd, adroddaf ychydig o'r hyn a welais yn Mr. Jones. Pan y cyfarfyddai â rhyw un byddai i'w ymadroddion lynu wrthynt, a byddai yn lles mawr iddynt. Yr ydym yn wir ddiolchgar i Mr. Jones am ei lafur gyda y capel. Ni a wyddom yn dda, y ni oedd yn cadw y cyfrif, am y modd rhyfedd y byddai yn llwyddo i gael arian ato. Y mae genym yn awr ychydig yn weddill, â'r hwn y gallwn orphen yr hyn oedd ef wedi ei fwriadu. Ni a ddylem orphen y colofnau, a chael lle priodol i'r *clock*, ag y mae wedi ei brynu i'w roddi yn y capel. Yr oedd Mr. Jones fel ewythr a thad i ni, yn agos atom. Lle bynag yr elai yr oeddynt yn teimlo tuag ato fel tuag at dad a mam, a theimlent yn hyderus pan y byddai yn agos. Y mae yn wir ddrwg genym ei fod yn myned ymaith. Ni a weddïwn ar Ddaw ar ei ran.

Babu Swoonroy: Yr wyf yn teimlo nad yw yn amser priodol i siarad yr holl bethau hyn, pan y mae Mr. Jones yn fyr o gyrhaedd ei driugeinfed flwydd, a phryd y mae ganddo allu eto i weithio am lawer o flynyddau, a phan y mae yn dywedyd ei hun ei fod am gydorwedd â ni yn y fynwent acw. Y mae gan Mr. Jones ddylanwad ar y lleiaf a'r mwyaf yn y wlad hon. Ni feiddiai y meddwon a'r dynion gwaethaf ei ateb yn ol gan gymaint eu parch iddo. Ni feiddiai hap-chwareuwyr wneyd hyny o'i flaen ef. Os na bydd i Mr. Jones ddychwelyd yn ol bydd ein colled yn fawr; ac nid ni yn unig, ond bydd colled y Khasiaid yn fawr iawn. Yr wyf yn hyderus y bydd iddo ddychwelyd yn ol yn iach. Llafuriodd Mr. Jones yn ddiwyd. Pan y byddwn yn myned gydag ef oddiamgylch, ni flinai yn siarad â'r bobl, ac ni roddai heibio nes y byddai wedi cysgu, ac y byddai yn 11 neu 12 o'r gloch y nos neu ragor. Y mae ei lafur yn glod iddo ef a ninnau. Yr ydym yn ddiolchgar am ddaioni Mr. Jones i ni; ni a'i cofiwn byth. Ni a weddïwn a chredwn y bydd i Dduw ei ddwyn atom drachefn.

Babu Barnabas: Er pan y dywedodd y meddygon fod ya rhaid i'r Saheb fyned ymaith yr ydym yn hynod o ofidus. Y mae yn hollol dywyll arnom, ac ni bydd goleuni nes y bydd i Dduw egluro ei feddwl i ni yn ein calonau. Ni ddywedaf ond hyn, yr wyf yn hyderu y bydd i Mr. a Mrs. Jones faddeu ac anghofio ein ffaeleddau.

Babu Khaphar: Ni a weddïasom, ac ni a ddylem barhau i weddïo, a dysgwyl i Dduw ateb, fel y gwnaeth y wraig hono ag y dywedodd Mr. Jones am dani, na byddai iddi godi oddiar ei gliniau nes cael ateb gan Dduw. Nis gallai y brawd hwn siarad o herwydd llawnder ei galon, ac eisteddodd i lawr dan wylo.

Babu Mohenroy: Yr wyf yn cofio pan yr oeddwn yn yr ysgol yn Cherra, pan y daeth Mr. Jones i Khasia gyntaf, i mi fyned i'w gyfarfod i Majai Pan y cyrhaeddodd Cherra, dywedodd Mr. Hugh Roberts wrthym, "Gwelwch daeth Mr. Jones yma pan yn ŵr canol oed, felly nis gall obeithio mwy ddychwelyd i'w wlad ei hun." Y mae llafur Mr. Jones yn dangos yr un peth. Dywedodd y pryd hyny, "Pe byddai raid i mi ferwi *rice* fy hunan a throi yn gogydd, a phwytho fy siaced fy hun, mi a arosaf gyda chwi." Yr wy yn credu fod Mr. Jones felly oddiwrth ei lafur diflino. Y mae yn fwy gofidus ei fod yn gorfod myned ymaith, a hyny megys yn erbyn ei ewyllys, a phan y mae yn ein caru m r fawr. Yn gyffredin y mae yn dda gan bobl gael dychwelyd i wlad ag y maent yn ei charu, ond nid felly gyda ein hathraw ni. Yr oedd fel Moses, ni ddaeth i aros yn nhŷ Pharaob. Gallai yn gyfiawn ddyweyd fel Paul, "Byddwch dilynwyr i mi;" dylem dilyn ei ymarweddiad fel Cristion, a'i weithgarwch a'i ffyddlondeb fel Cenadwr. Dydd a nos, teg neu dryghin, mewn oerni a gwres, yr oedd efe yr un o ran ei zel yn ngwaith yr Arglwydd. Gweddïwn, a hyny heb ammheu y gall Duw yn awr wneyd gwyrthiau megys ag y gwnaeth i eraill. Yr wyf yn credu y bydd i Mr. Jones gael adferiad cyn iddo gyrhaedd i'w wlad ei hun, ac fod Duw yn profi ein gweddïau.

Y Parch. R. Evans: Yr oeddwn innau hefyd yn cael fod geiriau Mr. Jones yn cymeryd gafael yn y bobl. Y mae ganddo lawer o bethau ag y dylem ninnau ei ddilyn ynddynt. Pan y byddwn yn dyfod yma byddai yn fy nghymeryd gydag ef i dai y bobl yn Mawkhar. Byddai ei Fibl o dan ei gesail, a byddai yn fy ngalw i weddïo mor fynych nes y byddwn wedi blino. Efe oedd y cyntaf o'r cenadon. Wrth ei weled fel y mae yn awr, y mae fy nghalon yn toddi ynwyf. Yr oedd Mr. Jones yn hoff o ganu, a chanu yw y gloch orau i gael y bobl at eu gilydd i wrando Gair Duw. Llafuriodd lawer pan yn ciwygio y cyfeithiad o'r Testament Newydd; byddai yn effro hyd ddau a

thri o'r gloch y boreu, ac weithiau byddai heb gysgu o gwbl.

Y Cadeirydd: Yr oedd yn dda genyf weled un peth arall yn Mr. Jones, sef ei fod yn rhyddfrydig ei feddwl. Yr hyn yr ydwyf yn ei feddwl yw ei fod yn derbyn yn llawen Gristionogion dyeithr ag a fyddai yn dyfod i'n plith. Y mae hyn yn beth da, sef caru ein cydgredinwyr, er eu bod yn byw ymhell oddiwrthym.

Gweddïodd yr hen ŵr U Kypa U Nising yn wresog a gwlithog. Terfynwyd y cyfar fod gan Mr. John Jones.

Er i'r cyfeillion siarad yn fyr, eto nis gallwn ysgrifenu yr oll a lefarwyd ganddynt, a phe gellid, nis gellir dyweyd yr hanner o'r pethau a wnaed gan Mr Jones. Yr oedd llawer eraill y buasai yn dda ganddynt siarad, ond gan ei bod wedi myned yn hwyr diweddwyd y cyfarfod. Mewn gwirionedd, yr oedd llafur Mr. Jones yn fawr. Edrychwch ar yr oll o wlad y Bhoi. Edrychwch ar Ddyffrynoedd Kyndiar, rhandir y brenin sydd yn fwyaf gwrthwynebol o bawb i Air Duw; er hyny, trwy lafur Mr. Jones, y mae yno amryw o eglwysi yn awr. Yr oedd llafur Mr. Jones ei hun yn gymaint a'r eiddo tri o wŷr. Ac yn ddiddadl y mae'y safle anrhydeddus y mae y Genadaeth yn sefyll ynddo yn ngolwg y Llywodraeth a'i swyddogion i'w briodoli i Mr. Jones, am ei fod yn llafurio yn y lle ag sydd yn gartrefle i Lywodraeth Assam. Yn ychwanegol at hyn ni a wyddom i Mr. Jones lafurio yn Jaintia a lleoedd eraill. Pan wybu y Cristionogion am gyfar od ymadawol Mr. Jones, daethant oll iddo, a dangoswyd cydymdeimlad cyffredinol âg ef yn ei waeledd. Gweddïasant gyda llefain a dagrau; ac yn ddiweddaf oll diolchasant i Dduw am iddo roddi iddynt y fath athraw, gan ddeisyf y rhynga bodd iddo adfer ei iechyd fel y gallo eto weithio yn ein plith. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Genadaeth hefyd am anfon Mr. Jones atom. Yn awr nid oes genym ond ffarwelio â Mr. a Mrs. Jones gan eu cyflwyno i ofal yr Arglwydd.—U Mohonroy, *Ysgrifenydd.*

Cyflwynwyd yr anerchiad uchod i Mr. a Mrs. Jones yn y tŷ, ar ran yr eglwys, gan y llywydd, Babu Donroy.

Boreu dydd Llun, Mawrth 3ydd, cynnaliwyd cyfarfod yn y tŷ i ffarwelio â Mr. a Mrs Jones gan y dynion ieuainc perthynol i'r "*The Khasia Christian Young Men's Association.*" Hwn oedd y cyfarfod mwyaf effeithiol i mi o'r oll. Wedi canu a gweddïo, cyflwynwyd anerchiad i Mr. Jones gan U Jacob, y llywydd, ar ran y dynion ieuainc, o'r rhai yr oedd yn bresennol o 30 i 40.

Cyflwynodd Mr. Jones iddynt y papyr canlynol, yr hwn a ddarllenwyd gan un o honynt:—

"Yr wyf yn cyflwyno i chwi, fy anwyl gyd-Gristionogion yn Shillong, y pe lair adnoi a ganlyn fel cof am danaf, ac fel cynghor yn Iesu Grist—

'Deisyf gan hyny arnoch yr wyf fi, y carcharor yn yr Arglwydd, ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi.' Eph. iv. 1.

'Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist; fel pa un bynag a wnelwyf ai dyfod a'ch gweled chwi, ai bod yn absennol, y clywyf oddiwrth eich helynt chwi eich bod yn sefyll yn un ysbryd, âg un enaid, gan gydymdrech gyda ffydd yr efengyl." Phil. i. 27.

'Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth ymhob gweithred dda, a chynnyddu yn ngwybodaeth am Dduw.' Col. i. 10.

'Ar rodio o honoch yn addas i Dduw, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant.' 1 Thess. ii. 12.

Yr wyf hefyd yn deisyf arnoch ddarllen ac ystyried yn dda y pedair pennod hyn. Iesu Grist ein Harglwydd a fyddo gyda'ch hysbryd bob un o honoch.

Yr eiddoch yn serchog,
Mawrth 3, 1890. T. J. Jones."

Wedi canu a gweddïo, ymadawodd y cyfeillion ieuainc hyn, gan ysgwyd llaw âg ef bob un, ac wedi eu meddiannu gan deimladau dryllioc. Yr oedd yr olygfa yn hynod o effeithiol, ac yn peri i lawer o feddyliau godi ynof.

Mawrth 4ydd oedd y dydd i'n hanwyl gyfeillion i'n gadael. Tua 7 o'r gloch y boreu yr oedd rhai ugeiniau wedi dyfod ynghyd at y tŷ i ffarwelio â Mr. a Mrs. Jones. Erbyn tuag 8 o'r gloch yr oedd yr ugeiniau wedi codi i gannoedd i gael golwg unwaith eto ar y cyfeillion hyn. Wedi canu, darllenodd a gweddïodd U Juramon, yna cynghorodd Mr. Jones ni oll i lynu yn ffyddlawn wrth yr Arglwydd. ac ysgydwyd llaw âg ef dros y gynnulleidfa gan yr hen ŵr U Kypa U Nissing, blaenor yn eglwys Shillong. Wedi cyflwyno ein brawd a'n chwaer i ofal Duw pob gras, aethant ymaith yn cael eu dilyn gan osgorddlu mawr o Gristionogion a phaganiaid; a phawb yn dymuno 'Duw yn rhwydd' iddynt. Erbyn hyn yr ydym yn hyderu eu bod wedi cyrhaedd gartref, a Mr. Jones yn adennill ei nerth a'i iechyd.

Cofion serchog atoch oll. Yr eiddoch yn ddiffuant,

John Jones.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. V. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.